wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Datganiad Cyfrifon
am y flwyddyn ariannol
a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

M S Owen
Pennaeth Cyllid

CYNNWYS

DATGANIAD CYFRIFON	**TUDALEN**
Rhagair Esboniadol	2
Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon	6
Datganiadau Ariannol:	
Datganiad Symudiad Cronfeydd	7
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8
Mantolen	9
Datganiad Llif Arian	10
Nodiadau ar y Cyfrifon (gan gynnwys Polisïau Cyfrifyddu)	11
Y Cyfrif Cyllid Tai a nodiadau	60
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	64
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	66

1. Cyflwyniad

Crynodeb yw'r llyfryn hwn o gyfrifon Cyngor y Fwrdeistref Sirol am y flwyddyn ariannol 2011/12 ac mae'n cynnwys:

- y **Datganiad Symudiad Cronfeydd** sy'n dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol adnoddau wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi'n adnoddau wrth gefn 'defnyddiadwy' (h.y. y rhai y mae modd eu defnyddio i gyllido gwariant neu ostwng trethiant lleol) ac adnoddau eraill wrth gefn;

- y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos cost gyfrifyddol darparu gwasanaethau yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w gyllido o dreth y cyngor. Bydd Cynghorau'n codi treth y cyngor i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Caiff sefyllfa treth y cyngor ei dangos yn y datganiad Symudiad Adnoddau wrth Gefn;

- y **Fantolen** sy'n dangos sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2012;

- y **Datganiad Llif Arian** sy'n dangos y newidiadau yn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol;

- y **Cyfrif Cyllid Tai (HRA) a nodiadau** sy'n dangos, yn fanylach, yr incwm a gwariant ar wasanaethau HRA sydd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2. Alldro Cyllid mewn cymhariaeth â Chyllideb y Cyngor

2.1 Caiff manylion gwariant cyllidol y Cyngor am y flwyddyn eu cyflwyno yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Datganiad Symudiad Cronfeydd, sydd ar dudalennau 7 ac 8. Mae'r Cyngor yn hysbysu diffyg o £5,628k ar ddarparu gwasanaethau (ac eithrio HRA) am y flwyddyn, gyda symiau sylweddol cysylltiedig yn bennaf ag addasiadau technegol (gwelwch nodyn 7 y Nodiadau ar y Cyfrifon) fel:

- Costau amhariad asedau anghyfredol, pan nid yw gwariant cyfalaf a wnaed gan y Cyngor wedi arwain at gynnydd cyfartal yng ngwerth asedau sefydlog.
- Effaith Buddiannau Wedi Cyflogaeth ar Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor, yn bennaf o ganlyniad i enillion gwasanaeth yn y gorffennol, cost llogau pensiwn ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn.

2.2 Tanwariodd gwasanaethau Cronfa'r Cyngor (ac eithrio HRA) £1,622k ym mlwyddyn ariannol 2011/12. Tanwariodd ysgolion £483k a throsglwyddwyd y swm hwn i weddillion ysgolion. Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin nododd aelodau'r Bwrdd Gweithredol ddwyn ymlaen tanwariannau a throsglwyddiadau gwasanaethau i i adnoddau wrth gefn a glustnodwyd yn dod i £1,139k heb drosglwyddo dim i weddill y Gronfa Gyffredinol.

2.3 Mae'r Cyngor yn arolygu gyferbyn â'i gyllideb am y flwyddyn, ar sail ei reolaeth fewnol a strwythur adrannol. Bydd y Cyfrif Cyllid Tai'n cyflwyno adroddiad ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol a chaiff gyfuno fel rhan o gynhyrchu cyfrifon diwedd y flwyddyn. Hysbyswyd alldro HRA hefyd i'r Bwrdd Gweithredol ar 12 Mehefin 2012 a gostyngodd gweddillion HRA £1,385k.

2.4 Cymeradwyodd y Cyngor Gyllideb 2011/12 ym mis Chwefror 2011. Daeth y gyllideb am y flwyddyn i £209m a chafodd ei harolygu a'i rheoli'n gaeth yn ystod y flwyddyn, yn unol â gweithdrefnau cymeradwy'r Cyngor. Caiff gwir wariant ac incwm Cronfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn cymhariaeth â chynllun y gyllideb ac ar ôl ei gysoni â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 ei grynhoi mewn tabl ar dudalen 3.

Cronfa'r Cyngor	Cyllideb £000 a	Gwir Alldro £000 b	Amrywiant £000 c=b-a		Addasiad Technegol (gan gyn. HRA) £000 d	Alldro CI&E (tud. 8) £000 e=b+d	Amrywiant CI&E (tud. 8) £000 f=e-a
Gwariant Clir ar Wasanaethau / Cost Glir Gwasanaethau	111,800	111,071	(729)		112,098	223,169	111,339
Ysgolion	70,342	69,859	(483)		(69,859)	0	(70,342)
Incwm a Gwariant Corfforaethol :							
Gwasanaethau	8,917	9,078	161		(9,078)	0	(8,917)
Llog Taladwy a Chostau Rhedeg Eraill	17,550	17,218	(332)		5,793	23,011	5,461
Archebiannau :							
Cynghorau Cymuned	0	0	0		1,866	1,866	1,866
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	0	0	0		10,861	10,861	10,861
Cyfanswm Gwariant Clir	**208,609**	**207,226**	**(1,383)**		**51,681**	**258,907**	**50,298**
Ariannwyd trwy :							
Grantiau'r Llywodraeth	(131,069)	(131,069)	0		(27,127)	(158,196)	(27,127)
Ardrethi Annomestig	(31,361)	(31,361)	0		0	(31,361)	0
Treth y Cyngor	(46,179)	(46,418)	(239)		(12,727)	(59,145)	(12,966)
Cyfanswm Incwm	**(208,609)**	**(208,848)**	**(239)**		**(39,854)**	**(248,702)**	**(40,093)**
(Gwarged) / Diffyg a Hysbyswyd	**0**	**(1,622)**	**(1,622)**		**11,827**	**10,205**	**10,205**
Tanwariannau a throsglwyddiadau cymeradwy a ddygwyd ymlaen i adnoddau wrth gefn	0	1,139	1,139				
Cyfraniad at weddillion ysgolion	0	483	483				
Cyfraniad at / (gan):							
Gweddill y Gronfa Gyffredinol	**0**	**0**	**0**				**5,628**
HRA	**(1,866)**	**(1,385)**	**481**				**4,577**

3. Y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2012

3.1 Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer ymrwymiadau hysbys ac adnoddau sefydledig wrth gefn, pan fo hynny'n ofynnol trwy statud, ar gyfer ymrwymiadau'r dyfodol neu a glustnodwyd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth y dyfodol. Mae gweddill Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn fesur o'r adnoddau diymrwymiad sydd gan y Cyngor wrth gefn, i ateb gofynion llif arian a digwyddiadau annisgwyl y dyfodol. Daeth Gweddill y Gronfa Gyffredinol, oedd yn £7.018m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, i gyfanswm o £7.018m hefyd ar 31 Mawrth 2012.

4. Buddsoddiad Cyfalaf

4.1 Daeth buddsoddiad cyfalaf (ac eithrio croniadau cyfalaf) yn y flwyddyn i £56m. Mae'r tablau canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant hwn a'r ffordd y cafodd ei gyllido.

Lle gwariwyd y cyfalaf	2011/12 £'000	 %
Addasiadau a gwelliannau ysgolion	8,396	14.99
Gwelliannau ffordd	16,412	29.31
Datblygu Economaidd a Chynllunio	814	1.45
Grantiau Adnewyddu Tai / Adnewyddu	2,980	5.32
Gwella tai'r Cyngor	21,735	38.81
Arall	5,669	10.12
Cyfanswm	**56,006**	**100.00**

O ble daeth y cyfalaf	2011/12 £'000	 %
Benthyca	11,809	21.09
Derbyniadau Cyfalaf	3,105	5.54
Grantiau a Chyfraniadau	30,315	54.13
Refeniw	9,736	17.38
Prydles Gyllidol	1,041	1.86
Cyfanswm	**56,006**	**100.00**

4.2 Mae addasiadau a gwelliannau ysgolion yn cynnwys £1.3m ar gyfer Cyfnod II Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd, £3.2m yn Ygsol Gynradd Llai ac £1.9m ar gyfer Ysgol Gynradd newydd yn Rhosymedre. Mae gwelliannau ffordd yn cynnwys £12m ar gyfer Ffordd Fynediad Stad Ddiwydiannol Wrecsam ac mae gwelliannau i Dai'r Cyngor yn cynnwys £9.5m ar Baneli Haul.

5 Benthyca Hirdymor

5.1 Prif ddyled fenthyca'r Cyngor ar 31 Mawrth 2012 oedd £126.36m. Strategaeth y Cyngor yw cadw benthyca allanol yn unol â'r Gofyniad Codi Cyfalaf. Ni ddechreuwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn.

6 Adbrisio a Gwarediadau o Asedau Anghyfredol

6.1 Mae gan y Cyngor bolisi o adbrisio holl asedau bob pum mlynedd, ac fe wnaed y prisiad llawn diwethaf ar 1 Ebrill 2009. Bydd rhaglen dreigl yn adbrisio holl asedau eiddo yn ystod y cyfnod hyd 2014/15. Yn ystod 2011/12 adbrisiwyd Ysgolion, Clybiau Ieuenctid ac eiddo addysg arall. Mae'r rhaglen ar gyfer blynyddoedd dilynol fel a ganlyn:

2012/13 – Anheddau'r Cyngor, Tir ac Adeiladau Eraill (Yr Amgylchedd, Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant)
2013/14 – Tir ac Adeiladau Eraill – (Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Swyddfeydd Cyhoeddus)
2014/15 – Tir ac Adeiladau Eraill (Y Stad Fasnachol, Eiddo Gofal Cymdeithasol)

6.2 Yn ogystal â'r rhaglen dreigl mae adolygiad blynyddol ar gyfer amhariad a newidiadau sylweddol yn nefnydd eiddo.

6.3 Yn ystod 2011/12, gwnaed ailbrisiadau uwch o £40m gyda £36.3m o hynny'n gysylltiedig ag ysgolion, clybiau ieuenctid ac eiddo addysg arall, £0.7m ar gyfer tir ac adeiladau eraill a £3m ar gyfer asedau dros ben. Roedd adbrisiadau is hefyd o £12.2m yn Anheddau'r Cyngor, £50.6m o ran tir ac adeiladau eraill (£45.5m o hynny'n gysylltiedig ag ysgolion, clybiau ieuenctid ac eiddo addysg arall), a £1m ar gyfer asedau dros ben ac asedau'n cael eu dal i'w gwerthu. O'r adbrisiadau is cydnabuwyd £32.7m yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau a £31.1m yn y Gronfa Adbrisio.

6.4 Fel rhan o adolygu ysgolion, clybiau ieuenctid ac eiddo addysg arall, ailaseswyd gweddill bywyd yr asedau hyn a gwnaed newidiadau i roi amrywiaeth o 12 i 80 mlynedd i eiddo o'r fath.

6.5 Yn ystod y flwyddyn fe werthodd y Cyngor Anheddau'r Cyngor o werth £779k ac asedau eraill o werth £1,302k oedd yn cynnwys tir yn fflatiau Hightown (£200k) a Phorth y Gorllewin (£950k). Gwnaeth y Cyngor golled o £47k.

7 Atebolrwydd Pensiynau

7.1 Mae'r Datganiad Cyfrifon, fel y cyflwynwyd, yn cydymffurfio â gofynion *Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS 19),* trwy fod y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn adlewyrchu cost darparu pensiynau i gyflogeion yn y flwyddyn gyfredol, yn ôl cyngor actiwari'r Cyngor, Mercers. Yn ogystal, mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad yr actiwari o gyfran y Cyngor o atebolrwydd y Gronfa Bensiynau (£209.6m) fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012, a'r adnoddau wrth gefn sydd eu hangen i dalu am yr atebolrwydd hwnnw. Yr atebolrwydd cronfa bensiynau a ddadlennwyd yw cyfanswm y diffyg estynedig sy'n bodoli yn ystod bywyd disgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid bob blwyddyn, yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau a'r tybiaethau actiwaraidd sy'n cael eu gwneud ynghylch pensiynwyr presennol, pensiynwyr gohiriedig a gweithwyr presennol.

8 Newid mewn Polisïau Cyfrifyddu a Ffurf y Cyfrifon

8.1 Mae gofyn i Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2011/12 gael eu paratoi yn unol â Chod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12 (y Cod). Bu newidiadau yn y Cod ac, o ganlyniad, gwnaed newidiadau i ffurf y cyfrifon, a hefyd mabwysiadwyd polisïau cyfrifyddu newydd. Caiff y newidiadau allweddol eu hamlinellu fel a ganlyn:

i) Arweiniodd mabwysiadu FRS 30 *Asedau Treftadaeth* gan y Cod at newid polisi cyfrifyddu ac, felly, ailddatgan gweddillion ar 1 Ebrill 2010 ac ar 31 Mawrth 2011. Yn flaenorol, roedd asedau treftadaeth naill ai'n cael eu cydnabod fel asedau cymunedol, neu heb gael eu cydnabod o gwbl ar y Fantolen. Erbyn hyn mae asedau treftadaeth i gael eu cydnabod fel dosbarth ar wahân o asedau a'u cydnabod yn ôl prisiad. Wrth gymhwyso'r polisi cyfrifyddu newydd mae'r Cyngor wedi dynodi £787k o asedau a ddaliwyd o'r blaen fel asedau cymunedol, sydd bellach i'w cydnabod fel asedau treftadaeth ond o werth £471k a £36k o asedau nad eod yn cael eu cydnabod o'r blaen ar y Fantolen. O ganlyniad i'r newid mewn polisi cyfrifyddu mae asedau clir y Cyngor ar 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 wedi gostwng £280k. (Gwelwch nodyn 1 y Nodiadau ar y Cyfrifon).

ii) O'r blaen, dosbarthwyd grantiau a chyfraniadau cyllid, sydd eto i'w cydnabod fel incwm oherwydd bod amodau ynghlwm wrthynt fydd yn gofyn ad-dalu'r arian, fel Credydwyr. Y Erbyn hyn mae'r Cod yn gofyn dosbarthu'r rhain fel Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw. Nid yw hyn yn newid y polisi cyfrifyddu ac, felly, nid yw'n gofyn addasu'r flwyddyn cynt. Er bod y ffigurau cymharol ar 31 Mawrth 2011 wedi cael eu hailadrodd, nid oes unrhyw newid yn sefyllfa glir asedau'r Cyngor. (Gwelwch nodyn 1 y Nodiadau ar y Cyfrifon).

iii) Mae'r Cod wedi cyflwyno gofyniad i ddadlennu nifer a chost pecynnau ymadael. (Gwelwch nodyn 16 y Nodiadau ar y Cyfrifon).

9 Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifon a chyllidebau'r Cyngor i'w chael oddi wrth y Pennaeth Cyllid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam. Mae hwn yn rhan o bolisi'r Cyngor o roi gwybodaeth lawn ynghylch materion ariannol y Cyngor. Yn ogystal, mae gan y cyhoedd hawl statudol i edrych ar y cyfrifon cyn cwblhau'r archwiliad. Caiff y ffaith bod y cyfrifon ar gael i edrych arnynt ei hysbysebu yn y wasg leol.

Bydd y Datganiad Cyfrifon ar gael hefyd ar wefan yr Awdurdod (www.wrecsam.gov.uk).

M S Owen

Pennaeth Cyllid

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

Yn ôl y Cod, mae gofyn i'r Cyngor gynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau yn y Datganiad Cyfrifon sy'n dangos gwahanol gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Pennaeth Cyllid o ran y Cyfrifon hyn.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae gofyn i'r Cyngor wneud trefniadau:

- ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y cyngor hwn y cyfryw swyddog yw'r Pennaeth Cyllid;
- i reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnyddio adnoddau'n economaidd, effeithlon ac effeithiol a gwarchod ei asedau;
- i dderbyn y Datganiad Cyfrifon.

……

Cydgadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod, yn unol ag arferion priodol ar sail Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12 (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Pennaeth Cyllid:

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna wedi'u cymhwyso'n gyson;
- wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol a darbodus;
- wedi cydymffurfio â Chod llywodraeth leol.

Mae'r Pennaeth Cyllid hefyd:

- wedi cadw cyfrifon priodol oedd yn gyfoes;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif y Pennaeth Cyllid

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon uchod yn unol â'r Cod ac mae'n cyflwyno sefyllfa ariannol y Cyngor yn gywir a theg ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012.

……

MARK S OWEN CPFA

Pennaeth Cyllid

DATGANIAD SYMUDIAD ADNODDAU WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos symudiad y gwahanol adnoddau wrth gefn sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi'n 'adnoddau defnyddiadwy' (h.y. y rhai y mae modd eu defnyddio i gyllido gwariant neu ostwng trethiant lleol) ac adnoddau eraill wrth gefn. Y llinell Gwarged neu (Ddiffyg) wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda rhagor o fanylion ohonynt i'w gweld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Weddill y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai at ddibenion pennu treth y cyngor a rhent anheddau. Mae llinell y Cynnydd / (Gostyngiad) clir cyn Trosglwyddiadau i Adnoddau wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Gweddill statudol y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r adnoddau wrth gefn a glustnodwyd a wnaed gan y Cyngor.

	Gweddill y Gronfa Gyffredinol	Adnoddau Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd	Cyfrif Cyllid Tai	Adnoddau Wrth Gefn HRA a Glustnodwyd	Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	Grantiau Cyfalaf Na Ddefnyddiwyd	**Cyfanswm Adnoddau Defnyddiadwy Wrth Gefn**	Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn	**Cyfanswm Adnoddau Wrth Gefn y Cyngor**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Gweddill Ailddatganedig ar 1 Ebrill 2010	**7,018**	**16,739**	**3,409**	**43**	**11,986**	**1,357**	**40,552**	**467,685**	**508,237**
Symudiad Adnoddau Wrth Gefn yn ystod 2010/11									
Gwarged / (Diffyg) wrth ddarparu gwasanaethau	28,303	0	(222)	0	0	0	28,081	0	28,081
Incwm a Gwariant arall Cynhwysfawr	0	0	0	0	0	0	0	17,023	17,023
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	28,303	0	(222)	0	0	0	28,081	17,023	45,104
Adddasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	(25,843)	0	2,114	0	11,176	(735)	(13,288)	13,288	0
Cynnydd / Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo i Adnoddau Wrth Gefn a Glustnodwyd	2,460	0	1,892	0	11,176	(735)	14,793	30,311	45,104
Trosglwyddiadau i / o Adnoddau Wrth Gefn a Glustnodwyd (nodyn 8)	(2,460)	2,460	(297)	297	0	0	0	0	0
Cynnydd / Gostyngiad yn 2010/11	0	2,460	1,595	297	11,176	(735)	14,793	30,311	45,104
Gweddill Ailddatganedig ar 31 Mawrth 201 ar 31 Mawrth 2011 dygwyd ymlaen	**7,018**	**19,199**	**5,004**	**340**	**23,162**	**622**	**55,345**	**497,996**	**553,341**
Symudiad Adnoddau Wrth Gefn yn ystod 2011/12									
Gwarged / (Diffyg) wrth ddarparu gwasanaethau	(5,564)	0	4,818	0	0	0	(746)	0	(746)
Incwm a Gwariant arall Cynhwysfawr	0	0	0	0	0	0	0	(25,567)	(25,567)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(5,564)	0	4,818	0	0	0	(746)	(25,567)	(26,313)
Adddasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7)	7,046	0	-4,958	0	(1,563)	216	741	(741)	0
Cynnydd / Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo i Adnoddau Wrth Gefn a Glustnodwyd	1,482	0	(140)	0	(1,563)	216	(5)	(26,308)	(26,313)
Trosglwyddiadau i / o Adnoddau Wrth Gefn a Glustnodwyd (nodyn 8)	(1,482)	1,482	(1,245)	1,245	0	0	0	0	0
Cynnydd / Gostyngiad yn y Flwyddyn	0	1,482	(1,385)	1,245	(1,563)	216	(5)	(26,308)	(26,313)
Gweddill ar 31 Mawrth 2012	**7,018**	**20,681**	**3,619**	**1,585**	**21,599**	**838**	**55,340**	**471,688**	**527,028**

DATGANIAD CYFRIF INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos cost gyfrifyddol darparu gwasanaethau yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w gyllido o drethiant. Bydd awdurdodau'n codi trethi i gyllido gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Caiff sefyllfa trethiant ei dangos yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

2010/11					2011/12		
Gwariant Crynswth £'000	**Incwm £'000**	**Gwariant Clir £'000**		**Nodyn**	**Gwariant Crynswth £'000**	**Incwm £'000**	**Gwariant Clir £'000**
2,617	(1,076)	1,541	Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		2,460	(1,134)	1,326
21,382	(4,642)	16,740	Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig		19,368	(4,822)	14,546
20,249	(9,146)	11,103	Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol		21,444	(10,204)	11,240
10,405	(6,109)	4,296	Gwasanaethau Cynllunio		10,333	(5,156)	5,177
139,276	(24,719)	114,557	Gwasanaethau Plant ac Addysg	5	146,372	(22,699)	123,673
14,348	(5,761)	8,587	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant		14,056	(6,456)	7,600
42,901	(36,655)	6,246	Tai'r Awdurdod Lleol (HRA)	5	41,124	(39,616)	1,508
55,670	(51,321)	4,349	Gwasanaethau Tai Eraill		58,169	(55,050)	3,119
54,297	(14,047)	40,250	Gofal Cymdeithasol Oedolion		55,959	(14,637)	41,322
3,775	(70)	3,705	Craidd Corfforaethol a Democrataidd		3,540	(8)	3,532
(24,099)	(994)	(25,093)	Costau Annosbarthedig	5	1,137	(470)	667
340,821	**(154,540)**	**186,281**	**Cost Gwasanaethau**		373,962	(160,252)	213,710
18,466	(9,853)	8,613	Gwariant Gweithredu Arall	9	19,040	0	19,040
39,718	(20,987)	18,731	Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi	10	38,189	(21,491)	16,698
0	(241,706)	(241,706)	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	11	0	(248,702)	(248,702)
399,005	**(427,086)**	**(28,081)**	**(Gwarged) / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau**		**431,191**	**(430,445)**	**746**
		(2,608)	(Gwarged) / Diffyg wrth adbrisio asedau anghyfredol	24 & 49			(10,954)
		0	Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godwyd ar yr adnoddau adbrisio wrth gefn	24 & 49			2,868
		(14,415)	(Enillion) / colledion actiwaraidd ar asedau / ymrwymiadau pensiynau	45 & 46			33,653
		(17,023)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				25,567
		(45,104)	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**				**26,313**

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos y gwerth asedau a dyledion cydnabyddedig y Cyngor fel yr oedd pethau ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau clir y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i adnoddau wrth gefn y Cyngor. Caiff adnoddau wrth gefn eu hysbysu mewn dau gategori. Y categori cyntaf o adnoddau wrth gefn yw adnoddau defnyddiadwy wrth gefn, h.y. yr adnoddau hynny wrth gefn y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw swm gochelgar o adnoddau wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnyddio (er enghraifft y Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio heblaw i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o adnoddau wrth gefn yw'r rhai nad yw'r Cyngor yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r dosbarth hwn o adnoddau wrth gefn yn cynnwys adnoddau wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbrisio), lle na fyddai symiau ar gael i ddarparu gwasanaethau heb werthu'r asedau; ac adnoddau wrth gefn gyda gwahaniaethau amseriad sy'n cael eu dangos ar linell 'Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan y rheoliadau' y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Ailddatganwyd 31 Mawrth 2010 £'000	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2011 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2012 £'000
849,111	839,679	Eiddo, Peiriannau ac Offer	22	852,302
507	507	Asedau Treftadaeth	26	507
500	585	Asedau Anniriaethol	27	393
375	0	Asedau'n cael eu Dal i'w Gwerthu		0
293	261	Dyledwyr Hirdymor	30	259
850,786	**841,032**	**Asedau Hirdymor**		**853,461**
34,153	34,682	Buddsoddiadau Byrdymor	32	14,162
725	2,053	Asedau'n cael eu Dal i'w Gwerthu	33	1,500
677	654	Rhestri Eiddo		657
24,202	25,737	Dyledwyr Byrdymor	35	27,228
0	6,554	Arian parod a Chywerthoedd Arian Parod	36	12,469
59,757	**69,680**	**Asedau Cyfredol**		**56,016**
(4,541)	0	Arian parod a Chywerthoedd Arian Parod		0
(16,326)	(21,113)	Credydwyr Byrdymor	37	(20,159)
(5,831)	(5,425)	Benthyca Byrdymor	38	(1,492)
(825)	(1,805)	Derbyniadau Grantiau Ymlaen Llaw - Cyfalaf	63	(520)
0	(521)	Derbyniadau Grantiau Ymlaen Llaw - Cyllid	63	(72)
(345)	(553)	Darpariaethau	39	(621)
(27,868)	**(29,417)**	**Rhwymedigaethau Cyfredol**		**(22,864)**
(5,600)	(5,600)	Darpariaethau	39	(5,600)
(1,399)	(1,281)	Credydwyr Hirdymor	40	(808)
(130,115)	(126,110)	Benthyca Hirdymor	38	(126,076)
(18,155)	(17,678)	Ymrwymiadau Hirdymor Eraill	31	(17,489)
(218,729)	(177,285)	Atebolrwydd Pensiynau Clir	46	(209,612)
(440)	0	Derbyniadau Grantiau Ymlaen Llaw - Cyfalaf		0
(374,438)	**(327,954)**	**Ymrwymiadau Hirdymor**		**(359,585)**
508,237	**553,341**	**Asedau Clir**		**527,028**
(40,552)	(55,345)	Adnoddau Defnyddiadwy Wrth Gefn	47	(55,340)
(467,685)	(497,996)	Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn	48	(471,688)
(508,237)	**(553,341)**	**Cyfanswm Adnoddau Wrth Gefn**		**(527,028)**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddiad. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod trwy ddosbarthu llifau arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm llifau arian clir sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r g raddau y caiff gweithrediadau'r Cyngor eu cyllido drwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y gwnaed all-lifoedd arian am adnoddau a fwriadwyd i gyfrannu at gyflenwi gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llifau arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol wrth ragweld hawliadau ar lifau arian y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. rhoi benthyg) i'r Cyngor.

2010/11 £'000		Nodiadau	2011/12 £'000
(28,081)	(Gwarged) / diffyg clir wrth ddarparu gwasanaethau		746
(3,011)	Addasiad i warged / diffyg clir wrth ddarparu gwasanaethau o ran symudiadau heblaw arian parod	56	(18,948)
11,328	Addasiadau ar gyfer eitemau sydd yn y gwarged neu ddiffyg clir wrth ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido	57	2,034
(19,764)	Lifau arian parod clir o'r Gweithgareddau Gweithredu		(16,168)
3,364	Gweithgareddau Buddsoddi	59	7,230
5,305	Gweithgareddau Cyllido	60	3,023
(11,095)	Cynnydd neu ostyngiad clir yn mewn arian parod a chywerthoedd arian parod		(5,915)
4,541	Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau cyfnod yr adroddiad		(6,554)
(6,554)	**Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad**	36	**(12,469)**

NODIADAU AR Y CYFRIFON

1. Polisi Cyfrifyddu a Newidiadau Eraill sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig

(a) Cyflwynodd y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12 (y Cod) newid i driniaeth rhoi cyfrif am asedau treftadaeth sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Ar gyfer 2011/12 mae gofyn i'r Cyngor newid ei bolisi cyfrifyddu ar asedau treftadaeth a'u cydnabod ar brisiad. Yn flaenorol, roedd asedau treftadaeth naill ai'n cael eu cydnabod fel asedau cymunedol (am y gost) yn y dosbarthiad eiddo, peiriannau ac offer ar y Fantolen neu heb eu cydnabod ar y Fantolen am nad oedd modd cael gwybodaeth am gost yr asedau. Cadwyd Asedau Cymunedol a roddwyd i'r Cyngor (sydd i'w dosbarthu bellach fel asedau treftadaeth) ar brisiad fel dirprwy dros gost hanesyddol. Caiff polisïau cyfrifyddu'r Cyngor ar gydnabod a mesur asedau treftadaeth eu cyflwyno yng nghrynodeb y Cyngor o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol (nodyn 67 ar dudalen 45).

Wrth gymhwyso'r polisi cyfrifyddu newydd, mae'r Cyngor wedi nodi y dylai'r asedau a ddaliwyd yn flaenorol fel asedau cymunedol o fewn eiddo, peiriannau ac offer am £787k gael eu cydnabod bellach fel asedau treftadaeth am £471k gydag amhariad o £522k a chynnydd o £206k yn y Gronfa Adbrisio. Mae'r asedau hyn yn berthnasol i safleoedd archeolegol a chyfran o gasgliadau'r Gwasanaeth Treftadaeth a gafodd eu cydnabod yn flaenorol yn nosbarthiad Asedau Cymunedol Eiddo, Peiriannau ac Offer. Bydd y Cyngor hefyd yn cydnabod £36k ychwanegol ar gyfer asedau treftadaeth nad oedd yn cael eu cydnabod yn flaenorol ar y Fantolen. Eto, caiff y cynnydd hwn ei gydnabod yn y Gronfa Adbrisio hefyd. Felly, ailddatganwyd Mantolenni 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 a ffigurau cymharol 2010/11 yn Natganiad Cyfrifon 2011/12 i gymhwyso'r polisi newydd.

Mae effeithiau'r ailddatganiad fel a ganlyn:

- Ar 1 Ebrill 2010 caiff swm cludo'r Asedau Treftadaeth ei gyflwyno ar ei brisiad o £507k. Ailddosbarthwyd yr elfen oedd gynt yn cael ei chydnabod yn eiddo, peiriannau ac offer a'i lleihau £523k. Cynyddwyd £243k ar yr adnoddau wrth gefn adbrisio.

- Mae ailddatgan llawn o Fantolen 1 Ebrill 2010 ar dudalen 9.

(b) Grantiau a Chyfraniadau Cyllid

O'r blaen dosbarthwyd Grantiau a chyfraniadau cyllid, sydd eto i'w cydnabod fel incwm oherwydd bod ganddynt amodau ynghlwm wrthynt fydd yn gofyn ad-dalu'r arian, fel Credydwyr. Mae'r Cod bellach yn gofyn dosbarthu'r rhain fel Derbyniadau Grant o faen llaw. Nid yw hwn yn newid yn y polisi cyfrifyddu ac, felly, nid yw'n gofyn addasu'r flwyddyn cynt. Fodd bynnag, ailddatganwyd y ffigurau cymharol ar 31 Mawrth 2011.

Mae effaith addasiadau (a) a (b) fel a ganlyn:

Y Fantolen fel yr oedd ar 31/3/2010 a 31/3/2011

	Hysbyswyd yn Flaenorol 31/03/2010 £'000	Addasiad (a) £'000	Gweddill Ailddatganedig 31/03/2010 £'000	Hysbyswyd yn Flaenorol 31/03/2011 £'000	Addasiadau (a) £'000	(b)	Gweddill Ailddatganedig 31/03/2011 £'000
Eiddo, Peiriannau ac Offer	849,898	(787)	849,111	840,466	(787)	0	839,679
Asedau Treftadaeth	0	507	507	0	507	0	507
Asedau Anniriaethol	500	0	500	585	0	0	585
Asedau'n Cael eu Dal i'w Gwerthu	375	0	375	0	0	0	0
Dyledwyr Hirdymor	293	0	293	261	0	0	261
Asedau Hirdymor	**851,066**	**(280)**	**850,786**	**841,312**	**(280)**	**0**	**841,032**
Asedau Cyfredol	**59,757**	**0**	**59,757**	**69,680**	**0**	**0**	**69,680**
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	(4,541)	0	(4,541)	0	0		0
Credydwyr Byrdymor	(16,326)	0	(16,326)	(21,634)	0	521	(21,113)
Benthyca Byrdymor	(5,831)	0	(5,831)	(5,425)	0		(5,425)
Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw - Cyfalaf	(825)	0	(825)	(1,805)	0		(1,805)
Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw - Cyllid		0	0		0	(521)	(521)
Darpariaethau	(345)	0	(345)	(553)	0		(553)
Ymrwymiadau Cyfredol	**(27,868)**	**0**	**(27,868)**	**(29,417)**	**0**	**0**	**(29,417)**
Ymrwymiadau Hirdymor	**(374,438)**	**0**	**(374,438)**	**(327,954)**	**0**	**0**	**(327,954)**
Asedau Clir	**508,517**	**(280)**	**508,237**	**553,621**	**(280)**	**0**	**553,341**
Adnoddau Wrth Gefn Defnyddiadwy:	**40,552**	**0**	**40,552**	**55,345**	**0**	**0**	**55,345**
Cronfa Adbrisio	210,259	242	210,501	209,124	242		209,366
Cyfrif Addasu Cyfalaf	486,349	(522)	485,827	476,118	(522)		475,596
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(2,606)		(2,606)	(2,330)			(2,330)
Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	99		99	78			78
Cronfa Bensiynau	(218,729)		(218,729)	(177,285)			(177,285)
Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal	(5,600)		(5,600)	(5,600)			(5,600)
Cyfrif Absenoldebau Cronedig	(1,807)		(1,807)	(1,829)			(1,829)
Adnoddau Wrth Gefn Annefnyddadwy	**467,965**	**(280)**	**467,685**	**498,276**	**(280)**	**0**	**497,996**
Cyfanswm Adnoddau Wrth Gefn	**508,517**	**(280)**	**508,237**	**553,621**	**(280)**	**0**	**553,341**

NODIADAU AR Y CYFRIFON

1. Polisi Cyfrifyddu a Newidiadau Eraill sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig parhad

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIaGC)

Nid oedd unrhyw newid yng ngwerth asedau yn ystod 2010/11 ac felly dim ailddatganiad o linellau'r DIaGC

Datganiad Symudiad Adnoddau Wrth Gefn

	Hysbyswyd o'r Blaen £'000	Adnoddau Annefnyddiadwy Addasiad £'000	Ailddatganiad £'000
Gweddill ar ddiwedd y cyfnod hysbysu blaenorol - 31 Mawrth 2010	**467,965**	**(280)**	**467,685**
Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	17,023	0	17,023
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**17,023**	**0**	**17,023**
Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido dan y rheoliadau	13,288	0	13,288
Cynnydd / (gostyngiad) yn y flwyddyn	**30,311**	**0**	**30,311**
Gweddill ar ddiwedd y cyfnod hysbysu presennol - 31 Mawrth 2011	**498,276**	**(280)**	**497,996**

2. Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto

Mae'r Cod yn gofyn bod y Cyngor yn dadlennu gwybodaeth gysylltiedig ag effaith newid cyfrifyddu oherwydd safon gyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto yn y Cod. Bydd mabwysiadu newidiadau i IFRS 7 Offerynnau ariannol: Dadleniadau (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010) yn y Cod yn peri newid polisi cyfrifyddu y bydd angen ei weithredu o 1 Ebrill 2012 ymlaen. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd y safon hon yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

3. Penderfyniadau Allweddol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu yn nodyn 67, bu raid i'r Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau'r dyfodol. Y penderfyniadau allweddol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon yw:

a) Mae peth ansicrwydd ynghylch cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol ac yn arbennig grantiau cyllid a chyfalaf penodol fydd yn cael eu derbyn. Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn eto'n ddigonol i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i orfod cau cyfleusterau a lleihau darpariaeth gwasanaethau'n sylweddol. Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol sy'n cael ei hadolygu'n gyfnodol ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

b) Aeth y Cyngor i gontract deuddeng mlynedd gyda First Group ym mis Mehefin 2002 ar gyfer darparu cludiant ysgol. Roedd y cytundeb yn golygu gweithredu deg o fysiau ysgol melyn Americanaidd (costau prynu £819k) am £1,900 y dydd (ynghyd â chwyddiant). Mae'r Cyngor wedi methu cael gwybodaeth fanwl gan y contractwr i asesu a yw'r contract yn cynnwys sylwedd prydles a fyddai felly'n peri bod y cerbydau ac atebolrwydd cyfatebol yn cael eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

c) Ym mis Ionawr 2011, Derbyniodd y Cyngor anfoneb oddi wrth ei Contractwr Cyfnod Cynnal Priffyrdd am gostau cyffredinol ychwanegol a hawliwyd oedd yn daladwy gan y Cyngor ers dechrau'r Contract Cyfnod$$$ Cynnal Priffyrdd ers mis Mai 2009. Taflodd cyngor cyfreithiol a gafodd y Cyngor ym mis Mawrth 2011 amheuaeth ar hawl y Contractwr Cyfnod Cynnal Priffyrdd i gostau cyffredinol ychwanegol o'r fath. Ers mis Ionawr 2011, mae'r Contractwr Cyfnod Cynnal Priffyrdd wedi hawlio costau cyffredinol ychwanegol pellach fel rhan o anfonebau misol a gyflwynwyd i'r Cyngor ond ni thalwyd costau cyffredinol ychwanegol o'r fath. Mae'r Cyngor wrthi'n ymchwilio'r ceisiadau am gostau cyffredinol ychwanegol a wnaed gan y Contractwr Cyfnod Cynnal Priffyrdd a fydd, os na chânt eu tynnu'n ôl, efallai'n gorfod cael eu penderfynu trwy ddyfarniad ffurfiol. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth am y swm a hawliwyd yn yr anfoneb a gyflwynodd y Contractwr Cyfnod Cynnal Priffyrdd ym mis Ionawr 2011 nac am y symiau costau cyffredinol ychwanegol mewn anfonebau dilynol.

d) Gwnaed hawliad yn erbyn y Cyngor gan weithredwyr Chwarel yr Hafod (gwelwch nodyn 39) o ran penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio i gyfyngu ar hawliau gweithio yn y chwarel. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer unrhyw daliadau digolledu all godi oherwydd bod gan y Cyngor gadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru y neilltuwyd arian i ddigolledu'r Cyngor.

e) Derbyniwyd hawliad annisgwyl o fawr am iawndal oddi wrth dirfeddiannwr a effeithiwyd gan gynllun ffordd sy'n cael ei gyllido trwy grant Llywodraeth Cymru. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau o'r fath oherwydd mai Llywodraeth Cymru fyddai'n eu talu fel arfer fel rhan o'r cynllun.

f) Daeth adolygiad o asedau, yn arbennig y rhai sy'n cael eu dal at ddibenion datblygiad economaidd, i gasgliad nad yw'r Cyngor yn dal unrhyw asedau'n unig at ddiben cynhyrchu incwm neu gynnydd cyfalaf ac, felly, nad oes gan y Cyngor unrhyw eiddo buddsoddi.

4. Yr hyn a dybiwyd ynghylch y dyfodol a gwreiddiau eraill ansicrwydd barn

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys amcangyfrifon a seiliwyd ar yr hyn a dybiwyd gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sy'n ansicr fel arall. Caiff Amcangyfrifon eu gwneud gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol ac elfennau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd nad oes modd penderfynu gweddillion yn bendant, gallai gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2011 y mae perygl sylweddol y bydd addasiad sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol a ddaw fel a ganlyn:

Eitem	**Ansicrwydd**	**Effaith os yw'r Gwir Ganlyniadau'n Wahanol i'r Tybiaethau**
Eiddo, Peiriannau ac Offer	Caiff asedau eu dibrisio dros fywydau defnyddiol sy'n dibynnu ar dybiaethau ynghylch faint o waith trwsio a chynnal fydd yn ofynnol mewn cysylltiad ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn ei gwneud yn ansicr a fydd y Cyngor yn gallu cynnal ei wariant cyfredol ar waith trwsio a chynnal, gan beri amheuaeth ynghylch y bywydau defnyddiol a roddwyd ar asedau.	Os caiff oes fuddiol asedau ei leihau, mae dibrisiant yn cynyddu a swm cludo'r asedau'n disgyn. Yr amcangyfrif yw y byddai tâl dibrisiant blynyddol adeiladau'n cynyddu £1.9m pe bai'r bywydau defnyddiol yn gostwng un flwyddyn a £2.2m pe bai'n gostwng dwy flynedd.
Darpariaethau	Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth o £5.6m ar gyfer setlo hawliadau am ôl-gyflog yn deillio o'r Arweiniad Cyflog Cyfartal, ar sail nifer o hawliadau a dderbyniwyd a swm setlo ar gyfartaledd. Nid yw'n sicr bod y Cyngor wedi derbyn holl hawliadau dilys eto nac y bydd cynseiliau a osododd awdurdodau eraill wrth setlo hawliadau'n berthnasol.	Effaith cynnydd yn ystod y flwyddyn a ddaw o 10% naill ai yng nghyfanswm yr hawliadau neu amcangyfrif o'r setliad ar gyfartaledd fyddai ychwanegu £466k at y ddarpariaeth angenrheidiol.
Atebolrwydd Pensiynau	Mae amcangyfrif o'r ymrwymiad clir i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o benderfyniadau cymhleth cysylltiedig â'r gyfradd ddisgowntio i'w defnyddio, rhagamcan o gyflymder cynyddu cyflogau, newidiadau yn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac elw disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Caiff cwmni o actiwarïaid ymgynghorol ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor ynghylch y tybiaethau i'w defnyddio.	Mae modd mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar yr atebolrwydd pensiwn clir o. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn nhybiaeth y gyfradd ddisgowntio'n peri gostyngiad o £8,564k yn yr atebolrwydd pensiwn. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2010/11, cynghorodd actiwarïaid y Cyngor bod yr atebolrwydd pensiynau clir wedi gostwng £11,288k o ganlyniad i gywiro amcangyfrifon o ganlyniad i brofiad ac wedi gostwng £3,127k i'w briodoli i ddiweddaru'r tybiaethau.
Ôl-ddyledion	Ar 31 Mawrth 2011, roedd gan y Cyngor weddill mân ddyledwyr o £5m. Awgrymodd adolygiad o weddillion sylweddol bod amhariad o ddyledion amheus o 9.8% (£491k) yn briodol. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid yw'n sicr a fyddai lwfans o'r fath yn ddigonol.	Pe bai cyfraddau casglu'n dirywio, byddai dyblu maint yr amhariad o ddyledion amheus yn gofyn rhoi £491k ychwanegol o'r neilltu fel lwfans.

5. Eitemau Incwm a Thraul Sylweddol

a) O fewn cost Gwasanaethau Plant ac Addysg mae swm o £18,576k sy'n berthnasol i golled amhariad yn dilyn adolygiad o ysgolion y Cyngor, clybiau ieuenctid ac eiddo addysg arall. Caiff hyn yn gyfrif trwy ostyngiad o £6,432k yn y tâl dibrisiant blynyddol o ganlyniad i'r adbrisiadau ar i lawr, ailasesiad o fywyd yr asedau hyn a newid defnydd.

b) Ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11, yn y Costau Annosbarthedig o fewn cost gwasanaethau roedd swm o £30,375k oedd yn berthnasol i gynnydd gwasanaeth yn y gorffennol ym muddiannau Cynllun Pensiwn Clwyd yn dilyn cynnig Llywodraeth y DU i gynyddu pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn unol â'r mynegrif prisiau defnyddwyr yn hytrach na'r mynegrif prisiau adwerthu a fu'r arfer yn y gorffennol.

c) Roedd y cynnydd wrth gael gwared ar asedau sy'n rhan o wariant gweithredu arall (gwelwch nodyn 9) yn cynnwys swm o £8.83m ar gyfer blwyddyn ariannol 2010/11 o ran gwaredu safle blaenorol depo Ffordd Rhuthun.

6. Digwyddiadau ar ôl Cyfnod yr Adroddiad

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Pennaeth Cyllid ym mis Medi 2012. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Pan oedd digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ynghylch yr amgylchiadau ar 31 Mawrth 2012, addaswyd y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau ymhob agwedd o bwys i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

7. Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido Dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu'r addasiadau sy'n cael eu gwneud i'r cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr sy'n cael ei gydnabod gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau sy'n cael eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel y rhai sydd ar gael i'r Cyngor i dalu am wariant cyfalaf a chyllid y dyfodol.

2011/12	Adnoddau Defnyddiadwy				
	Gweddill y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfrif Cyllid Tai £'000	Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000	Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig £'000	Symudiad Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn £'000
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn bennaf:					
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r DIaGC					
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	35,556	10,708	0	0	(46,264)
Colledion adbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer					
Amorteiddio asedau anniriaethol	94	126	0	0	(220)
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gymhwyswyd	(19,035)	(7,924)	0	0	26,959
Gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	725	5	0	0	(730)
Symiau asedau anghyfredol a ddiddymwyd wrth wared neu werthu fel rhan o'r cynnydd / colled ar waredu i'r DIaGC	1,102	979	0	0	(2,081)
Mewnosod eitemau na chafodd eu debydu na'u credyd i'r DIaGC					
Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf (nodyn 15)	(6,541)	(454)	0	0	6,995
Gwariant Cyfalaf a godwyd ar weddillion y Gronfa Gyffredinol a HRA	(2,391)	(7,345)	0	0	9,736
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig yn bennaf:					
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf anghymwysedig a gredydwyd i'r DIaGC	(297)	0	0	297	0
Cymhwyso grantiau i godi cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf				(81)	81
Addasiadau'n cynnwys Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn bennaf:					
Trosglwyddo derbyniadau gwerthiant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r cynnydd / colled wrth wared i'r DIaGC	(1,055)	(979)	2,034	0	0
Incwm Cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	(18)	(42)	60	0	0
Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i gyllido gwariant cyfalaf newydd			(3,105)		3,105
Trosglwyddo (i'r) / o'r cyfrif Addasu Cyfalaf – neilltuwyd			(599)		599
- Ad-dalu benthyciadau i gyrff gwirfoddol			22		(22)
Trosglwyddo o Dderbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth dderbyn arian parod			25		(25)
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:					
Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar y DIaGC â chostau cyllid taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(139)	(43)	0	0	182
Addasiadau'n cynnwys y Pensiynau Wrth Gefn:					
Gwrthdroi eitemau cysylltiedig â budd-daliadau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r DIaGC - gwelwch nodyn 45	16,359	1,800	0	0	(18,159)
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr taladwy yn y flwyddyn	(17,688)	(1,797)	0	0	19,485
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ôl-daliadau Tâl Anghyfartal:					
Swm y gwahaniaeth rhwng symiau a dalwyd am hawliadau Cyflog Cyfartal i'r DIaGC â chost setliadau taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	0	0	0	0	0
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:					
Swm y gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau â'r gydnabyddiaeth daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	374	8	0	0	(382)
	7,046	**(4,958)**	**(1,563)**	**216**	**(741)**

Ffigurau Cymharol 2010/11	Adnoddau Defnyddiadwy				
	Gweddill y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfrif Cyllid Tai £'000	Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £'000	Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig £'000	Symudiad Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn £'000
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn bennaf:					
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r DIaGC					
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	31,081	13,222	0	0	(44,303)
Colledion adbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer	0	0	0	0	0
Amorteiddio asedau anniriaethol	103	126	0	0	(229)
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gymhwyswyd	(13,078)	(7,894)	0	0	20,972
Symudiad yn y Cyfrif Asedau Rhoddedig	0	0	0	0	0
Gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	2,531	5	0	0	(2,536)
Symiau asedau anghyfredol a ddiddymwyd wrth wared neu werthu fel rhan o'r cynnydd / colled ar waredu i'r DIaGC	754	720	0	0	(1,474)
Mewnosod eitemau na chafodd eu debydu na'u credydu i'r DIaGC					
Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf (nodyn 15)	(6,354)	(490)	0	0	6,844
Gwariant Cyfalaf a godwyd ar weddillion y Gronfa Gyffredinol a HRA	(2,033)	(3,095)	0	0	5,128
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig yn bennaf:					
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf anghymwysedig a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(266)	0	0	266	0
Cymhwyso grantiau i godi cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0	0	0	(1,001)	1,001
Addasiadau'n cynnwys Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn bennaf:					
Trosglwyddo derbyniadau gwerthiant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r cynnydd / colled wrth wared i'r DIaGC	(10,608)	(720)	11,328	0	0
Incwm Cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	(295)	(155)	450	0	0
Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i gyllido gwariant cyfalaf newydd	0	0	(81)	0	81
Trosglwyddo (i'r) / o'r cyfrif Addasu Cyfalaf – neilltuwyd	0	0	(552)	0	552
- Ad-dalu benthyciadau i gyrff gwirfoddol	0	0	10	0	(10)
Trosglwyddo o Dderbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth dderbyn arian parod	0	0	21	0	(21)
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:					
Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar y DIaGC â chostau cyllid taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(237)	(39)	0	0	276
Addasiadau'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:					
Gwrthdroi o eitemau cysylltiedig â budd-daliadau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r DIaGC - gwelwch nodyn 45	(9,512)	2,224	0	0	7,288
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr taladwy yn y flwyddyn	(17,970)	(1,771)	0	0	19,741
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ôl-gyflogau Cyflogau Anghyfartal:					
Swm y gwahaniaeth rhwng symiau a godwyd ar gyfer Hawliadau Cyflog Cyfartal ar y DIaGC â chost setliadau taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	0	0	0	0	0
Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:					
Swm y gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y DIaGC ar sail croniadau â'r gydnabyddiaeth daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	41	(19)	0	0	(22)
	(25,843)	**2,114**	**11,176**	**(735)**	**13,288**

8. Trosglwyddiadau i / (o) Adnoddau wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn cyflwyno'r symiau a neilltuwyd o weddillion y Gronfa Gyffredinol a HRA mewn adnoddau wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol a hefyd y symiau a roddwyd yn ôl o adnoddau wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer gwariant y Gronfa Gyffredinol a HRA yn 2011/12.

	2010/11			2011/12			
	Gweddillar 1.4.2010 £'000	**Trosglwyddiadau Allan £'000**	**Trosglwyddiadau i Mewn £'000**	**Gweddillar 31.3.2011 £'000**	**Trosglwyddiadau Allan £'000**	**Trosglwyddiadau i Mewn £'000**	**Gweddillar 31.3.2012 £'000**
Y Gronfa Gyffredinol:							
Gweddillion yn nwylo ysgolion	948	(583)	615	980	(316)	799	1,463
Adnoddau wrth Gefn y Gwasanaethau	610	(139)	802	1,273	(170)	441	1,544
Cronfa Ymrwymiadau Cyfreithiol	316	(294)	280	302	(49)	848	1,101
Cronfa Cynnal yn y Gaeaf	300	0	0	300	0	0	300
Adnoddau Wrth Gefn ITEC	1,034	(140)	0	894	(252)	0	642
Cronfa Adfywio'r Waun	19	0	0	19	0	0	19
Cronfa Buddsoddi i Arbed	267	0	87	354	(42)	47	359
Cronfa Sefydlogi Incwm	102	0	0	102	0	0	102
Cronfa'r Cynllun Datblygu Lleol	140	(21)	0	119	(63)	0	56
Cronfa Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol (EVF	94	0	0	94	0	0	94
Cronfa EVR Trosiannol	0	0	750	750	0	0	750
Cyfalaf Wrth Gefn	0	0	2,150	2,150	(750)	0	1,400
Cronfa Gwaith Trwsio a Chynnal	0	0	150	150	0	0	150
Cronfa Cyfnod Sylfaen 2 Ysgolion	0	0	150	150	(150)	0	0
Cronfa Yswiriant	1,851	(322)	0	1,529	0	0	1,529
Cronfa'r Strategaeth Wastraff	95	0	0	95	0	0	95
Strategaeth Datblygu Economaidd	45	(35)	0	10	(10)	0	0
Gogledd Gororau Cymru	21	(26)	5	0	0	0	0
Pont Ddŵr Pontcysyllte	30	(4)	0	26	(11)	0	15
Cyllid Cyfatebol Urban II	136	(27)	0	109	(64)	0	45
Datblygu TG	42	0	0	42	0	0	42
Adolygiad Cyflogau	5,422	0	0	5,422	(39)	0	5,383
Cronfa Cyfnewid Cyfarpar yr Amlosgfa	125	0	41	166	(155)	40	51
Cronfa Adran 106/278	0	0	0	0	0	698	698
Mynediad Cwsmeriaid	384	(55)	0	329	(27)	0	302
Trawsffurfio Rhanbarthol Gogledd Cymru	0	0	0	0	0	85	85
Cronfa Swyddfeydd	0	0	0	0	0	412	412
Cronfa Allyriadau Carbon	200	0	51	251	0	132	383
Amrywiol	60	0	24	84	(16)	1	69
Grantiau Wrth Gefn	3,498	(933)	934	3,499	(805)	898	3,592
Cyfanswm	**15,739**	**(2,579)**	**6,039**	**19,199**	**(2,919)**	**4,401**	**20,681**
HRA:							
Trwsio Tai	43	0	297	340	0	240	580
Cronfa Grant Tai	0	0	0	0	0	1,005	1,005
Cyfanswm	**43**	**0**	**297**	**340**	**0**	**1,245**	**1,585**

9. Gwariant Gweithredu Arall

2010/11 £'000		**2011/12 £'000**
1,809	Archebiannau'r Cynghorau Cymuned	1,866
10,391	Archebiant Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	10,861
6,266	Ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru	6,266
(9,853)	Colledion / (Enillion) wrth wared asedau anghyfredol	47
8,613	Cyfanswm	19,040

10. Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi

2010/11 £'000		**2011/12 £'000**
10,662	Llog taladwy a chostau tebyg	10,783
8,727	Cost llogau pensiwn ac elw disgwyliedig ar asedau pensiynau	6,602
(658)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(687)
18,731	Cyfanswm	16,698

11. Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol

2010/11 £'000		2011/12 £'000
(56,967)	Incwm treth y cyngor	(59,145)
(37,294)	Trethi annomestig	(31,361)
(126,399)	Grantiau'r llywodraeth heb eu clustnodi	(131,069)
(21,046)	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf	(27,127)
(241,706)	Cyfanswm	(248,702)

12. Incwm a Gwariant Asiantaethau

Mae gan y Cyngor gytundeb gyda Chyngor Gwynedd, awdurdod arweiniol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, sy'n golygu bod y Cyngor yn gyfrifol am gynnal priffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r Cyngor am y gwaith hwn, gan gynnwys cyfraniad tuag at gostau gweinyddol. Mae crynodeb o wariant ar y gweithgaredd, sydd heb ei gynnwys yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel a ganlyn:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
257	Cynlluniau penodol	303
330	Cynnal a chadw rheolaidd	414
38	Goleuadau stryd	43
116	Cynnal yn y gaeaf	74
312	Arall	90
93	Costau gweinyddol	113
1,146		1,037

O ran Cynlluniau Penodol, y prif gynlluniau yn ystod 2011/12 oedd cyfnodau 1 a 2 yr A5 Froncysyllte 2, a gwelliant traffig yr A483 Ffordd Osgoi Wrecsam (Cyffordd 5).

13. Cyllid cronedig a threfniadau tebyg Deddf Iechyd

Ar 8 Gorffennaf 2009 aeth y Cyngor i gytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unol ag Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, er mwyn darparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol cyfannol dan drefniant cronfa gyffredin. Enwebwyd Cyngor Sir y Fflint fel y partner arweiniol sy'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Caiff y gwasanaeth ei weithredu o adeilad ym Mharc Busnes Penarlâg sy'n cael ei ariannu trwy grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae cyfran y Cyngor o gost yr adeilad (50%) yn rhan o asedau sefydlog. Mae incwm a gwariant crynswth y bartneriaeth am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2012 fel a ganlyn:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
	Gwariant	
461	Costau gweithredu	452
355	Offer safonol	378
82	Offer arbenigol	112
60	Offer ychwanegol	71
958		1,013
	Incwm	
(116)	Cyllido Gofal Iechyd Parhaus	(122)
842	Gwariant Clir	891

Cyfraniad y Cyngor at gyllideb 2011/12 yw £327k (2010/11 £255k).

14. Lwfansau Aelodau

Yn 2011/12 talwyd cyfanswm lwfansau o £960k (2010/11 £1,012k) i Aelodau'r Cyngor.

15. Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae hon yn ddarpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled yn ôl gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010. Caiff isafswm y ddarpariaeth refeniw ei gyfrifo trwy gyfeirio at ddyledrwydd y Cyngor at ei gilydd.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
316	Swm tai	299
5,154	Swm heblaw tai	5,480
1,135	Taliad am brif ran y rhenti prydlesi cyllidol taladwy	922
239	Menter Cyllid Preifat – ad-dalu ymrwymiad	294
6,844	Isafswm Darpariaeth Refeniw	6,995

16. Taliadau Swyddogion

(a) Dan Adran 7A (1) (a) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae gofyn i'r Cyngor ddadlennu nifer y cyflogeion (ac eithrio Uwch-swyddogion fel sy'n cael ei nodi yn nodyn dadlennu b isod) sy'n derbyn cydnabyddiaeth ac eithrio cyfraniadau pensiwn o £60k neu fwy mewn haenau o £5k:

2010/11				2011/12		
Ysgolion	Heblaw Ysgolion	Cyfanswm	Haenau Cyflog	Ysgolion	Heblaw Ysgolion	Cyfanswm
7	1	8	£60,000 - £64,999	5	0	5
5	3	8	£65,000 - £69,999	5	0	5
1	6	7	£70,000 - £74,999	2	0	2
3	0	3	£75,000 - £79,999	2	1	3
0	3	3	£80,000 - £84,999	1	0	1
0	0	0	£85,000 - £89,999	0	0	0
0	1	1	£115,000 - £119,999	0	0	0
0	1	1	£125,000 - £129,999	0	0	0

I'r diben hwn, mae cydnabyddiaeth yn berthnasol i holl symiau a dalwyd i, neu sy'n dderbyniadwy gan, gyflogai, gan gynnwys taliadau ar derfynu cyflogaeth, ac mae'n cynnwys lwfansau traul a gwerth buddiannau eraill sy'n drethadwy. Mae'r gostyngiad ar y rhifau a hysbyswyd yn 2011/12 yn ddeublyg. Gostyngodd nifer yr ymddiswyddiadau gwirfoddol yn sylweddol ers 2010/11. Ar ben hynny, mae penderfyniad y Cyngor i ehangu'r Tîm Uwch-reolwyr i gynnwys holl Benaethiaid Adrannau wedi peri hysbysu pump o swyddogion yn adran (b) isod.

(b) Dan Adran 7A (1) (b) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, caiff y wybodaeth ganlynol am gyflogeion a ddynodwyd yn Uwch-swyddogion gyda chyflog rhwng £60,000 a £150,000 ei darparu:-

2010/11					2011/12			
Cyflog	Taliadau Eraill	Cyfraniadau Pensiwn	Cyfanswm	Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd	Cyflog	Taliadau Eraill	Cyfraniadau Pensiwn	Cyfanswm
£	£	£	£	(Enw'r Swydd)	£	£	£	£
109,040	489	24,207	133,736	Prif Weithredwr	61,250	71	14,880	76,201
93,996	432	20,867	115,295	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad - Gwasanaethau Plant	96,000	6,087	24,609	126,696
94,655	766	21,013	116,434	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad - Yr Amgylchedd, Tai a Gofal Cymdeithasol	96,000	6,716	24,609	127,325
94,320	882	20,939	116,141	Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad - Corfforaethol a'r Economi	96,000	6,768	24,609	127,377
80,016	552	17,764	98,332	Pennaeth Cyllid (Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad gynt)	81,000	173	19,545	100,718
80,016	0	17,764	97,780	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid (Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gynt)	80,690	84	19,470	100,244
80,016	482	17,764	98,262	Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion (Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol gynt)	81,000	35	19,545	100,580
74,517	700	16,543	91,760	Pennaeth Dysgu Gydol Oes (Prif Swyddog Dysgu a Chyflawniad gynt)	77,000	631	18,580	96,211
0	0	0	0	Pennaeth Atal a Gofal Cymdeithasol	73,000	149	17,615	90,764
0	0	0	0	Pennaeth Datblygu Asedau a'r Economi	72,720	185	17,547	90,452
0	0	0	0	Pennaeth y Gymuned, Ffyniant a Datblygiad	73,000	0	17,615	90,615
0	0	0	0	Pennaeth yr Amgylchedd	75,000	562	18,098	93,660
0	0	0	0	Pennaeth Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd	81,000	155	19,545	100,700

Mae cyflog yn cynnwys holl gyflog pensiynadwy ac eithrio cydnabyddiaeth a dalwyd o ran dyletswyddau etholiadol. Mae taliadau eraill yn cynnwys cydnabyddiaethau, lwfansau ceir a buddiannau eraill trethadwy. Ad-drefnwyd y tîm uwch-reolwyr ar 1 Ebrill 2011. Roedd swydd y Prif Weithredwr yn wag tan 1 Medi 2011 ac, am bum mis cyntaf y flwyddyn ariannol, rhannwyd dyletswyddau'r swydd honno rhwng y tri Chyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad.

c) Yn unol ag Adran 7A (2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae gofyn i'r Cyngor ddadlennu ac enwi Uwch-swyddog gyda chyflog o £150k neu fwy. Ni chyflogodd y Cyngor Uwch-swyddog gyda chyflog o £150k neu fwy yn ystod y flwyddyn ariannol.

16. Taliadau Swyddogion parhad

Mae nifer y pecynnau ymadael ynghyd â chyfanswm y gost fesul haen a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill yn cael eu cyflwyno yn y tabl isod:

A Pecyn Ymadael haen gost (yn cynnwys taliadau arbennig)	B Nifer y diswyddiadau gorfodol		C Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		D Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul haen gost (B+C)		E Cyfanswm cost y pecynnau ymadael ymhob haen	
	2010/11	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11 £'000	2011/12 £'000
£0 - £20,000	33	31	33	14	66	45	435	219
£20,001 - £40,000	3	4	20	14	23	18	688	477
£40,001 - £60,000	1	0	6	2	7	2	282	87
£60,001 - £80,000	0	0	5	2	5	2	391	128
£80,001 - £100,000	0	0	3	0	3	0	271	0
£100,001 - £150,000	0	0	2	0	2	0	244	0
Cyfanswm	**37**	**35**	**69**	**32**	**106**	**67**	**2,311**	**911**

17. Costau Archwilio

Yn 2011/12 fe dalodd y Cyngor y ffïoedd canlynol cysylltiedig ag archwilio ac arolygu allanol:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
159	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau archwilio allanol	159
41	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer mesur Llywodraeth Leol	99
93	Ffïoedd taladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am ardystio hawliadau dychwelebau grant	102
4	Ffïoedd taladwy am wasanaethau eraill	7
297		367

Mae'r symud yn y tal sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y mesur Llywodraeth Leol oherwydd y newid yn y broses anfonebu ac adlinio sut y talwyd rhandaliadau yn y blynyddoedd a fu.

18. Partïon Perthynol

Mae gofyn i'r Cyngor i ddadlennu trafodion busnes perthnasol gyda phartïon perthynol - cyrff neu unigolion sydd â'r gallu i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor neu y gall y Cyngor eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Trwy ddadlennu'r trafodion hyn mae darllenwyr yn gallu asesu i ba raddau y gallai'r Cyngor fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi gallu cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan lywodraeth ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor - mae'n gyfrifol am d darparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo, mae'n darparu mwyafrif ei gyllid ar ffurf grantiau ac mae'n pennu telerau llawer o drafodion y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai). Caiff grantiau oddi wrth adrannau'r llywodraeth eu cyflwyno yn y dadansoddiad goddrychol yn Nodyn 64 ar hysbysu penderfyniadau dyrannu adnoddau. Caiff grantiau sy'n disgwyl sylw ar 31 Mawrth 2012 eu dangos yn nodyn 63.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae gan yr Awdurdod drefniant cyllideb gyffredin gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol cyfannol. Mae rhagor o fanylion i'w cael am incwm a gwariant y bartneriaeth yn 2011/2012 yn nodyn 13.

Aelodau

Mae gan y Cyngor drefniadau sy'n gofyn i Aelodau a Swyddogion nodi a dadlennu trafodion partïon perthynol. Ni chafwyd datganiadau gan bedwar aelod ac, felly, rydym wedi gwneud nifer o dybiaethau ar sail data hanesyddol.

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyngor. Caiff cyfanswm lwfansau Aelodau a dalwyd yn 2011/12 ei ddangos yn nodyn 14.

Bydd y Cyngor yn penodi Aelodau i nifer o gyrff elusennol neu wirfoddol. Gwnaed taliadau'n dod i £1,205k i gyrff o'r fath trwy grantiau / cyfraniadau yn ystod 2011/12. Mae rhai Aelodau'r Cyngor yn cael eu cyflogi gan, neu'n aelodau o, sefydliadau sy'n hawlio cyfran o'r dreth neu'n codi ar y Cyngor, neu'n derbyn grantiau oddi wrth y Cyngor. Yn ystod 2011/12 talwyd £18,412k i'r cyrff hyn (e.e. Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru). Cwmni yw'r Fenter sy'n cyflogi Aelodau o'r Cyngor, gydag Aelodau'n cael eu penodi i'r Pwyllgor Rheoli. Talwyd £165k i'r cwmni hwn yn ystod 2011/12.

19. Treth y Cyngor

Daw incwm treth y cyngor o daliadau sy'n cael eu codi yn ôl gwerth eiddo preswyl a ddosbarthwyd yn naw o fandiau prisio, gan ddefnyddio gwerthoedd a amcangyfrifwyd ar 1 Ebrill 2003 i'r diben hwn. Caiff taliadau eu cyfrifo trwy gymryd faint o incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru am y flwyddyn, a rhannu'r swm hwn gyda sail treth y cyngor. Sail treth y cyngor yw cyfanswm yr eiddo ymhob band, ar ôl ei addasu gyda ch i drosi'r rhif yn gywerth band 'D', a'i addasu am ostyngiadau ac eithriadau – 51,880 yn 2011/12. Caiff y swm sylfaenol ar gyfer eiddo band 'D' (£1,135.42 yn 2011/12) ei luosi'r â'r gyfran a bennwyd ar gyfer y band arbennig i roi'r swm dyledus unigol

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Nifer yr eiddo ar 31/03/2012	4,197	12,393	16,458	9,749	7,695	4,804	2,446	714	291

Dadansoddiad o'r derbyniadau clir o dreth y cyngor:-

2010/11 £'000		2011/12 £'000
56,967	Treth y Cyngor a godwyd	59,220
	Llai:	
0	darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(75)
56,967	**Derbyniadau clir o Dreth y Cyngor**	59,145

20. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Caiff NNDR ei drefnu'n genedlaethol. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n pennu maint lluosydd y dreth (42.8p yn 2011/12) ac, yn amodol ar effeithiau trefniadau trosiannol, bydd busnesau lleol a threthdalwyr annomestig eraill yn talu trethi sy'n cael eu cyfrifo trwy luosi'r gwerth ardrethol gyda'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu trethi dyledus oddi wrth drethdalwyr yn ei ardal, ond mae'n talu'r derbyniadau i gronfa NNDR, sy'n cael ei gweinyddu gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n ailddosbarthu'r symiau taladwy'n ôl i awdurdodau lleol ar sail swm penodedig y pen o'r boblogaeth. Incwm NNDR, ar ôl rhyddhad a darpariaethau, oedd £35,796k yn 2011/12. Cyfanswm y gwerth ardrethol ar 31 Mawrth 2012 oedd £103,579k. Y canlynol yw dadansoddiad y derbyniadau clir o drethi annomestig:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
32,932	Trethi annomestig a godwyd	35,796
	Llai:	
(32,458)	swm a dalwyd i Gronfa NNDR	(35,553)
(230)	darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	0
(244)	costau casglu	(243)
0		0
37,294	Derbynebau o'r gronfa	31,361
37,294	Derbyniadau clir o NNDR	31,361

21. Budd-daliadau Terfynu

Terfynodd y Cyngor gontractau nifer o gyflogeion yn 2011/2012, gan orfod talu £911k (£2,311k yn 2010-2011) – gwelwch nifer y pecynnau ymadael a chyfanswm y gost fesul band yn nodyn 16. Mae nodyn 16 hefyd yn gwahaniaethu rhwng y diswyddiadau hynny oedd o ganlyniad i benderfyniad y Cyngor i derfynu cyflogaeth cyflogai, a'r rhai lle gwnaeth cyflogai benderfyniad i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Trwy raglen o brosiectau Trawsffurfio ac adolygiadau gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi ceisio rhesymoli lle bo modd y sail swyddogion ar gyfer darparu gwasanaethau arbennig trwy gyfres o ad-drefniadau, gan sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau'n aros ar eu lefelau presennol ond gyda llai o adnoddau.

22. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Symudiadau yn 2011/12

	Tai'r Cyngor £'000	Tir ac Adeil-adau Eraill £'000	Cerbydau, Peiriannau ac Offer £'000	Asedau Isadeiledd £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Dros Ben £'000	Asedau'n cael eu Hadeiladu £'000	**Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer £'000**	**Asedau a Gynhwyswyd yn Eiddo, Peiriannau ac Offer**	
									PFI £'000	**Prydlesi £'000**
Ailddatganiad Cost neu Brisiad ar 1/04/2011	**484,532**	**400,492**	**21,673**	**65,861**	**24,842**	**11,581**	**3,590**	**1,012,571**	**16,910**	**7,520**
Ychwanegiadau	21,741	4,941	1,934	17,619	455		5,696	**52,386**	0	1,040
Rhoddion	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Cynnydd / (gostyngiadau) adbrisio a gydnabuwyd yn y gronfa adbrisio	0	8,659	0	0	0	2,310	0	**10,969**	0	0
Cynnydd / (gostyngiadau) adbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	(18,734)	0	0	0	(180)	0	**(18,914)**	0	0
Datgydnabod - Gwarediadau	(779)	0	0	0	0	(205)	0	**(984)**	0	0
Datgydnabod - Arall	0	0	(58)	0	0	0	0	**(58)**	0	(58)
Asedau a ailddosbarthwyd i / (o) Daliwyd I'w Werthu	0	(894)	0	0	0	200	0	**(694)**	0	0
Symudiadau Eraill	0	3,929	859	0	(82)	555	(5,261)	**0**	0	0
ar 31/03/2012	**505,494**	**398,393**	**24,408**	**83,480**	**25,215**	**14,261**	**4,025**	**1,055,276**	**16,910**	**8,502**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 1/04/2011	**(47,465)**	**(99,768)**	**(9,959)**	**(6,237)**	**(2,317)**	**(7,146)**	**0**	**(172,892)**	**(1,116)**	**(4,326)**
Taliad Dibrisiant	(7,633)	(7,002)	(3,209)	(1,416)		(12)	0	**(19,272)**	(1,037)	(1,165)
Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gronfa Adbrisio	11	(3,736)	0	0	0	(3)	0	**(3,728)**	0	0
Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Colledion / (gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gronfa Adbrisio	(523)	(2,345)	0	0	0	0	0	**(2,868)**	0	0
Colledion / (gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(2,228)	(2,006)	0	0	(7)	0	27	**(4,214)**	0	0
Datgydnabod - Gwarediadau	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Datgydnabod - Arall	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Symudiadau Eraill	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
ar 31/03/2012	**(57,838)**	**(114,857)**	**(13,168)**	**(7,653)**	**(2,324)**	**(7,161)**	**27**	**(202,974)**	**(2,153)**	**(5,491)**
Gwerth Clir ar Bapur										
ar 31/3/2012	**447,656**	**283,536**	**11,240**	**75,827**	**22,891**	**7,100**	**4,052**	**852,302**	**14,757**	**3,011**
ar 31/3/2011	**437,067**	**300,724**	**11,714**	**59,624**	**22,525**	**4,435**	**3,590**	**839,679**	**15,794**	**3,194**

22. Eiddo, Peiriannau ac Offer parhad

Symudiadau Cymharol yn 2010/11

	Tai'r Cyngor £'000	Tir ac Adeiladau Eraill £'000	Cerbydau, Peiriannau ac Offer £'000	Asedau Isadeiledd £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Dros Ben £'000	Asedau'n cael eu Hadeiladu £'000	**Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer £'000**	**Asedau a Gynhwyswyd yn Eiddo, Peiriannau ac Offer**	
									PFI £'000	**Prydlesi £'000**
Ailddatganiad Cost neu Brisiad ar 1/04/2010	**476,101**	**385,963**	**19,640**	**59,475**	**24,529**	**3,903**	**679**	**970,290**	**16,910**	**6,623**
Ychwanegiadau	9,828	11,555	2,033	7,336	413	0	3,525	**34,690**	0	897
Rhoddion	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Cynnydd / (gostyngiadau) adbrisio a gydnabuwyd yn y gronfa adbrisio	0	8,925	0	0	0	796	0	**9,721**	0	0
Cynnydd / (gostyngiadau) adbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Datgydnabod - Gwarediadau	(720)	0	0	0	0	(30)	0	**(750)**	0	0
Datgydnabod - Arall	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Asedau a ailddosbarthwyd i / (o) Daliwyd I'w Werthu	0	(420)	0	(950)	0	(10)	0	**(1,380)**	0	0
Symudiadau Eraill	(677)	(5,531)	0	0	(100)	6,922	(614)	**0**	0	0
ar 31/03/2011	**484,532**	**400,492**	**21,673**	**65,861**	**24,842**	**11,581**	**3,590**	**1,012,571**	**16,910**	**7,520**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 1/04/2010	**(35,033)**	**(72,422)**	**(6,825)**	**(3,127)**	**(2,289)**	**(1,483)**	**0**	**(121,179)**	**0**	**(3,261)**
Taliad Dibrisiant	(7,619)	(11,184)	(3,134)	(1,260)	(28)	(22)	0	**(23,247)**	(1,116)	(1,065)
Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gronfa Adbrisio	(64)	(3,623)	0	0	0	(3)	0	**(3,690)**	0	0
Dibrisiant a ddilëwyd i'r Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Colledion / (gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gronfa Adbrisio	(343)	(3,586)	0	(1,850)	0	(1,631)	0	**(7,410)**	0	0
Colledion / (gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(4,406)	(8,953)	0	0	0	(4,007)	0	**(17,366)**	0	0
								0	0	0
Datgydnabod - Gwarediadau	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Datgydnabod - Arall	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
Symudiadau Eraill	0	0	0	0	0	0	0	**0**	0	0
ar 31/03/2011	**(47,465)**	**(99,768)**	**(9,959)**	**(6,237)**	**(2,317)**	**(7,146)**	**0**	**(172,892)**	**(1,116)**	**(4,326)**
Ailddatganiad Gwerth Clir ar Bapur										
ar 31/3/2011	**437,067**	**300,724**	**11,714**	**59,624**	**22,525**	**4,435**	**3,590**	**839,679**	**15,794**	**3,194**
ar 31/3/2010	**441,068**	**313,541**	**12,815**	**56,348**	**22,240**	**2,420**	**679**	**849,111**	**16,910**	**3,362**

22. Eiddo, Peiriannau ac Offer parhad

Nid yw adeiladau Ysgolion Sylfaen ac Eglwysig sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth addysg yn cael eu dangos yn y tabl blaenorol. Caiff adeiladau ysgol sy'n cael eu defnyddio gan Ysgolion Sylfaen ac Eglwysig eu heithrio o Eiddo, Peiriannau ac Offer am nad ydynt ym meddiant y Cyngor, ond caiff tir ym meddiant y Cyngor sy'n cael ei ddefnyddio gan yr ysgolion ei gydnabod yn Eiddo, Peiriannau ac Offer. Y Cyngor sy'n gyfrifol am eu trwsio a'u cynnal ond nid yw'r symiau'n sylweddol.

23. Dibrisiant

Dibrisiwyd holl eiddo, peiriannau ac offer gan ddefnyddio'r dull llinol dros y cyfnodau canlynol:

Adeiladau	12 - 80 mlynedd
Anheddau'r Cyngor	15 - 50 mlynedd
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	5 - 10 mlynedd
Cyfleuster Cyhoeddus Awtomatig	20 mlynedd
Isadeiledd	50 mlynedd

Polisi cyfrifyddu'r Cyngor yw dibrisio cydrannau sylweddol o asedau materol ar wahân. Pan gydnabuwyd cydrannau ased ar sail y polisi cyfrifyddu, caiff y rhain eu dibrisio dros amcangyfrifwyd o fywyd y cydrannau unigol.

24. Adbrisiadau

Bydd y Cyngor yn cynnal rhaglen dreigl sy'n sicrhau bod holl Eiddo, Peiriannau ac Offer sydd angen eu mesur am werth teg yn cael ei adbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Caiff holl brisiadau eu gwneud yn fewnol gan Andrew McLaughlin, FRICS Syrfëwr Datblygu'r Cyngor. Caiff prisiadau tir ac adeiladau eu gwneud yn unol â'r methodolegau a seiliau amcangyfrif yn ôl safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Caiff prisiadau cerbydau, cyfarpar, dodrefn ac offer gyda bywydau defnyddiol byr eu seilio ar gost hanesyddol.

Yr egwyddorion sy'n cael eu cymhwyso wrth amcangyfrif gwerthoedd teg yw:

Gwerth teg yw'r swm a fyddai'n cael ei dalu am ased yn ei ddefnydd presennol ac mae'n amcangyfrif o'r swm y dylai eiddo newid dwylo ar ddyddiad y prisiad. Pan nad oes tystiolaeth ddigonol o werth teg seiliedig ar y farchnad ar gael, caiff cost amnewid ddibrisiedig (DRC) ei defnyddio. DRC yw gwerth y farchnad ar gyfer defnydd presennol y tir lle saif yr adeilad, ynghyd â chost grynswth gyfredol amnewid yr adeilad ar ôl tynnu lwfans am ddirywiad ffisegol.

Fel rhan o raglen dreigl y Cyngor, dewiswyd Ysgolion a Chlybiau Ieuenctid ar gyfer adolygiad ar 1 Ebrill 2011. Arweiniodd yr adolygiad at gynnydd yng nghyfanswm gwerth asedau o £36,357k a gostyngiadau o £45,523k i roi gostyngiad clir o £9,166k. Yn ystod y flwyddyn gwnaed adolygiad ychwanegol o werthoedd tir ac adeiladau ar gyfer amhariad, yn dilyn gwariant cyfalaf sylweddol a newidiadau yn nefnydd asedau.

	Adbrisiadau'n cael eu cydnabod yn:				Colledion Amhariad yn cael eu cydnabod yn:	
	Gwarged / Diffyg wrth ddarparu gwasanaethau £'000	Cronfa Adbrisio I Fyny £'000	Cronfa Adbrisio I Lawr £'000	Clir £'000	Gwarged / Diffyg wrth ddarparu gwasanaethau £'000	Cronfa Adbrisio £'000
Eiddo, Peiriannau ac Offer:						
Adolygiad Rhaglen Dreigl:						
Tir ac Adeiladau Eraill	(18,475)	(26,839)	35,286	8,447	0	0
Adolygiad Blynyddol o amhariad a newidiadau eraill:						
Anheddau'r Cyngor	0	0	0	0	(2,228)	(523)
Tir ac Adeiladau Eraill	(259)	(438)	650	212	(2,006)	(2,345)
Asedau Cymunedol	0	0	0	0	(7)	0
Asedau Dros Ben	(180)	(647)	2,957	2,310	0	0
Asedau'n cael eu Hadeiladu	0	0	0	0	27	0
	(18,914)	*(27,924)*	*38,893*	*10,969*	*(4,214)*	*(2,868)*
Asedau'n cael eu dal i'w gwerthu	*(136)*	*(100)*	*85*	*(15)*	*0*	*0*
Cyfanswm	(19,050)	(28,024)	38,978	10,954	(4,214)	(2,868)

25. Ymrwymiadau Dan Gontractau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2012 roedd gan y Cyngor ymrwymiadau cytundebol ar gyfer gwaith cyfalaf o ran y cynlluniau canlynol:

	£'000
Ailwampio / Ymestyn Ysgol Llai	242
Ffordd Mynediad Diwydiannol Wrecsam	2,038
Eiddo HRA	1,472
Paneli haul HRA	1,129
Gwaith mewn Ardaloedd Adnewyddu Tai	882
	5,763

26. Asedau Treftadaeth

Cysoni gwerth cludo Asedau Treftadaeth y Cyngor.

	Addurndlysau Dinesig	Casgliad Gwrthrychau'r Amgueddfa				Cofgolofnau a Chofebion	
		Celfyddyd Gain ac Addurnol	Hanes Diwydiannol ac Economaidd	Pêl-droed Cymru	Archeoleg, Byd Natur Hanes Cymdeithasol a Milwrol		**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2010	91	60	40	205	83	28	**507**
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Gwarediadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Adbrisiadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gronfa Adbrisio	0	0	0	0	0	0	**0**
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	**0**
Dibrisiant	0	0	0	0	0	0	**0**
ar 31 Mawrth 2011	91	60	40	205	83	28	**507**
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2011	91	60	40	205	83	28	**507**
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Gwarediadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Adbrisiadau	0	0	0	0	0	0	**0**
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gronfa Adbrisio	0	0	0	0	0	0	**0**
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabuwyd yn y Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	**0**
Dibrisiant	0	0	0	0	0	0	**0**
ar 31 Mawrth 2012	91	60	40	205	83	28	**507**

Addurndlysau Dinesig

Caiff casgliad addurndlysau dinesig y Cyngor ei hysbysu ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant Bonhams o Gaer ym mis Medi 2004 a adolygir bob blwyddyn gan staff y Cyngor. Mae'r casgliad addurndlysau dinesig yn cynnwys cadwyni a bathodynnau maerol a byrllysg Fictoraidd. Mae'n cynnwys eitemau arbennig o arwyddocaol o ran gwerth a phwysigrwydd; cadwyn a bathodyn Edwardaidd aur 15ct ac enamel y faeres, a chadwyn Fictoraidd aur 18ct ac enamel y maer a byrllysg Fictoraidd arian ac eboni. Caiff yr addurndlysau eu gwisgo gan y penaethiaid dinesig ar adeg cyhoeddiadau. Caiff yr addurndlysau eu glanhau'n rheolaidd a'u cynnal gan emydd lleol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan y Cyngor:

http://wrexham.gov.uk/english/council/mayoralty/civic_regalia.htm

Casgliad Gwrthrychau'r Amgueddfa

Ar hyn o bryd ychwanegwyd dros 13,000 o wrthrychau at gasgliad gwasanaeth amgueddfeydd Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dechreuwyd casglu yn y 1980au, er y bu cyfnod byr o gasglu yn ystod y 1930au, trwy roddio, prynu a gadael gwrthrych mewn ewyllysiau. Mae'r gwasanaeth amgueddfeydd yn casglu arteffactau sy'n helpu adrodd hanes Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i phobl. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, eitemau a wnaed, a ddefnyddiwyd, a ddarganfuwyd neu a brynwyd yn ardal Wrecsam. Yr unig eithriad i hyn yw casgliad Pêl-droed Cymru y mae gan yr amgueddfa gyfrifoldeb Cymru gyfan drosto ac mae'n casglu eitemau'n gysylltiedig â phob haen o bêl-droed Cymru a chwaraewyr Cymru gan gynnwys y rhai sy'n chwarae i glybiau yn Lloegr a gwledydd eraill. Mae gan y gwasanaeth amgueddfeydd Bolisi Caffael a Gwared sydd i'w weld yn:

www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/a_and_d_policy_2009.pdf

I bob diben mae'r gwrthrychau a ychwanegwyd at y casgliad yn anhrosglwyddadwy, yn cael eu dal am byth, ac yn unigryw at ei gilydd. Fe all ymddangos bod modd amnewid llawer o'r gwrthrychau ond nid ydynt mewn gwirionedd oherwydd na fyddai tarddiad neu hanes y gwrthrych newydd yr un fath â'r un a gasglwyd yn wreiddiol. Caiff casgliad yr amgueddfa ei arddangos a'i gadw ar dri safle; Amgueddfa ac Archifdy Wrecsam, Canolfan Dreftadaeth y Bers a storfa amgueddfa Llai. Mae casgliad yr amgueddfa'n amrywiol ac yn nodweddiadol o gasgliadau amgueddfa llawer o awdurdod

a) Archeoleg

Mae'r casgliad presennol yn gymharol fach ond mae'n cynnwys cyfran sylweddol o ddarganfyddiadau pwysig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae'r casgliad yn cynnwys claddedigaeth bicer Dyn Brymbo, Celc yr Orsedd o'r Oes Efydd, Celc Darnau Arian Llai o'r canoloesoedd, deunydd Rhufeinig o Blas Coch a deunydd diwydiannol o Waith Haearn John Wilkinson yn y Bers.

26. Asedau Treftadaeth parhad

b) Hanes Cymdeithasol

Mae gan Gwasanaeth Amgueddfa Wrecsam casgliad hanes cymdeithasol sydd wedi hen sefydlu ac sy'n anelu at gynrychioli bywyd bob dydd pobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ymhlith themâu'r casgliad mae: y cartref; crefydd; bywyd gwaith; chwaraeon a gweithgareddau hamdden; cyfnodau bywyd; iechyd; clybiau a chymdeithasau lleol. Yn y casgliad mae eitemau sy'n cynrychioli pob math o ddiwylliant materol ac mae'n cynnwys tair casged Ryddid o'r 20fed ganrif gynnar ac eitemau o lestri arian defodol Sioraidd a Fictoraidd.

c) Hanes Diwydiannol ac Economaidd

Mae'r casgliad hanes diwydiannol ac economaidd yn gasgliad arall sydd wedi hen sefydlu, gydag arteffactau'n cynrychioli mwyafrif Ddiwydiannau Wrecsam i ryw raddau. Mae hyn yn cynnwys: siopau a busnesau yn ardal Wrecsam; fferylliaeth; bragu; cloddio glo a phlwm; gwneud clociau a watshis; haearn a dur; cludiant lleol fel tramiau a bysiau; y diwydiant brics, teils a therracotta; argraffu.

d) Celfyddyd Gain ac Addurnol

Mae'r casgliad presennol yn cynnwys celfyddyd gain ac addurnol mewn amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys olewau, lluniau dyfrlliw, printiau, cerfluniau, tecstilau a chrochenwaith. Mae'r casgliad yn arbennig o gryf ar brintiau a phaentiadau o olygfeydd o orffennol y Fwrdeistref, gyda

e) Byd Natur

Ar hyn o bryd mae'r amgueddfa'n dal casgliad bach o wrthrychau byd natur ar ffurf söoleg gadwedig a daeareg.

f) Hanes Milwrol

Mae'r casgliad yn cynnwys gwrthrychau gan gynnwys gynnau ac arfau, lifreion, bathodynnau a medalau sy'n gysylltiedig â phobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Ymhlith adrannau arbennig o gryf y casgliad mae'r fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a'u swyddogaeth yn nhref Wrecsam.

g) Casgliad Pêl-droed Cymru

Sefydlwyd casgliad cenedlaethol pêl-droed Cymru yn 2001 yn dilyn cynnig llwyddiannus am grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae'r casgliad yn cynnwys gwrthrychau, tecstilau, gweithiau celfyddydol a deunydd archifol sy'n anelu at adrodd hanes pêl-droed yng Nghymru o'i ddechrau yn y 19eg ganrif ddiweddar hyd heddiw. Ychwanegwyd at y casgliad atodi trwy gaffael casgliad John Charles, eto gyda chymorth grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae rhagor o wybodaeth am Gasgliad Pêl-droed Cymru ar wefan y Cyngor:
http:/www.wrexham.gov.uk/english/heritage/football.htm

Cerfluniau a Chofgolofnau

Mae'r eitemau a nodwyd yn cynnwys cerflun 'Y Bwa' o löwr a gweithiwr dur yn Stryt yr Arglwydd gan David Annand a ddadorchuddiwyd yn 1996, Cerflun o'r Frenhines Fictoria yn y Parciau a osodwyd yn wreiddiol yn 1905 ger Neuadd y Dref ac a symudwyd i'r parc yn y 1920au a Phorth Parc Acton a godwyd yn 1820 fel y fynedfa i'r Stad Parc Acton gan Syr Foster Cunliffe. Ac eithrio'r Bwa, sy'n cael ei gydnabod am gost hanesyddol, nid oes gwybodaeth ar gael am gost unrhyw un o'r cerfluniau a chofgolofnau eraill.

Safleoedd Archeolegol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Mae gwybodaeth am Safleoedd Archeolegol y Cyngor ar y wefan: http://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/visitor_information.htm
Y Cyngor yw perchennog darn o dir yn Stryt Las, Johnstown a ddynodwyd yn SoDdGA oherwydd ei fadfallod dŵr cribog

Ychwanegiadau a Gwarediadau o Asedau Treftadaeth

Ni fu unrhyw ychwanegiadau na gwarediadau o Asedau Treftadaeth yn ystod 2010/11 a 2011/12.

27. Asedau Anniriaethol

Mae'r Cyngor yn cyfrif ei feddalwedd fel asedau anniriaethol, i'r graddau nad yw'r meddalwedd yn rhan annatod o system TG arbennig ac yn cael ei chyfrif fel rhan o eitem caledwedd Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau a brynwyd. Nid oes gan y Cyngor feddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol. Caiff holl feddalwedd oes fuddiol gyfyngedig, ar sail asesiadau o'r cyfnod y mae disgwyl i'r feddalwedd fod o ddefnydd i'r Cyngor. Mae bywydau defnyddiol y prif gasgliadau meddalwedd sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor yw o dri i wyth mlynedd.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
	Gweddill ar 1 Ebrill:	
747	Swm cludo crynswth	1,060
(247)	Amorteiddiad Wedi Cronni	(475)
500	Swm cludo crynswth ar 1 Ebrill	585
314	Ychwanegiadau	28
(229)	Amorteiddiad am y flwyddyn	(220)
585	Gweddill ar 31 Mawrth	393
	Yn cynnwys:	
1,060	Swm Cludo Crynswth	1,088
(475)	Amorteiddiad Cronedig	(695)
585		393

Mae'r gwariant o £28k yn y flwyddyn yn gysylltiedig â phrynu meddalwedd Fforensig Cyfrifon Taladwy. Mae'r costau'n cael eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant dros gyfnod o dair blynedd.

28. Datganiad Cyllido Cyfalaf

Cyfanswm 2010/12 £'000		Eiddo, Peiriannau ac Offer £'000	Asedau Anniriaethol £'000	2011/12 Gwariant Cyllidol a Gyllidwyd o Gyfalaf dan Statud £'000	Benthyciadau i drydydd bartïon £'000	Cyfanswm £'000
43,084	Gwariant yn y flwyddyn	52,386	28	4,005	45	56,464
(256)	Llai: symudiad yng nghroniad cyfalaf	(536)	0	78	0	(458)
42,828		51,850	28	4,083	45	56,006
	Ariannwyd trwy:-					
6,256	Benthyca - cymorthedig	4,050	0	589	0	4,639
2,948	- digymorth	7,169	0	2	0	7,171
897	Prydles Gyllidol	1,040	0	0	0	1,040
81	Derbyniadau Cyfalaf	2,905	0	170	30	3,105
27,518	Grantiau a Chyfraniadau	27,040	0	3,275	0	30,315
5,128	Gwariant Cyfalaf a godwyd ar Gyllid	9,646	28	47	15	9,736
42,828		51,850	28	4,083	45	56,006

29. Gofyniad Codi Cyfalaf

Mae Cod Ymarfer Darbodus CIPFA yn gofyn bod y Cyngor yn mabwysiadu dangosyddion sy'n dangos bod cynlluniau cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Un o'r dangosyddion hyn yw'r Gofyniad Codi Cyfalaf. Mae'r dangosydd hwn yn adlewyrchu'r angen sylfaenol i fenthyca at ddiben cyfalafol. Pan na chaiff gwariant cyfalaf ei dalu ar unwaith, bydd hyn yn peri cynnydd clir yn y gofyniad codi cyfalaf. Bydd fel hyn pa un ai yw benthyca allanol yn digwydd mewn gwirionedd neu beidio. Y gofyniad codi cyfalaf ar 31 Mawrth yw:

Ailddatganwyd 2010/11 £'000		2011/12 £'000
839,679	Eiddo, Peiriannau ac Offer	852,302
(473)	Llai: croniad cyfalaf yn y flwyddyn	(931)
507	Asedau Treftadaeth	507
585	Asedau Anniriaethol	393
2,053	Asedau'n cael eu Dal i'w Gwerthu	1,500
184	Dyledwyr hirdymor – benthyciad i drydydd bartïon	207
0	Dyledwyr byrdymor - Arweiniad Cyllid Preifat	45
(209,366)	Y Gronfa Adbrisio	(212,504)
(475,596)	Y Cyfrif Addasu Cyfalaf	(478,702)
157,573	Gofyniad Codi Cyfalaf ar 31 Mawrth	162,817

30. Dyledwyr Hirdymor

31/03/2011 £'000		31/03/2012 £'000
77	Morgeisi	52
126	Benthyciad i Gorff Masnachol	117
58	Benthyciadau i Gyrff Gwirfoddol	90
261		259

Gwnaed y benthyciad i Gorff Masnachol ar raddfa sefydlog ym mis Rhagfyr 2005 i dalu'n rhannol am ddatblygu gwesty ym Mharc Technoleg Wrecsam. Mae'n ad-daladwy dros 20 mlynedd, gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Llog yn unig yw'r ad-daliadau yn ystod y pum mlynedd gyntaf, gyda'r prifswm, ynghyd â gweddill y llog, yn cael ei ad-dalu dros y pymtheng mlynedd wedyn.

Mae pedwar benthyciad i gyrff gwirfoddol:

a) £25k i dalu'n rhannol am gost caffael Portacabin gan Clwb Gofal Plant Allan o Ysgol Iau Acton. Gwnaed y benthyciad ym mis Ionawr 2008 ar raddfa log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Gorffennaf 2008.

b) £60k i gaffael a gosod uned symudol at ddefnydd Clwb Allan o Ysgol Lôn Barcas. Gwnaed y benthyciad ym mis Hydref 2008 ar raddfa log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Tachwedd 2008.

c) £30k yw cost caffael a gosod uned symudol i'w ddefnyddio gan Glwb Allan o Ysgol Bwlchgwyn. Gwnaed y benthyciad ym mis Mai 2011 ar raddfa log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Hydref 2011.

d) £15k yw benthyciad i Ymddiriedolaeth Adfywio Brymbo a Thanyfron Cyf i gefnogi parhad twf a gweithgarwch yng Nghanolfan Fenter Brymbo. Gwnaed y benthyciad ym mis Mawrth 2012 ar raddfa log sefydlog, i'w ad-dalu ddwywaith y flwyddyn gyda'r ad-daliad cyntaf ym mis Medi 2012.

31. Offerynnau Ariannol

Caiff y categorïau canlynol o offeryn ariannol eu cludo ar y Fantolen:

		Hirdymor		Cyfredol	
	Nodyn	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Buddsoddiadau					
Benthyciadau a symiau derbyniadwy	32	0	0	34,682	14,162
Cyfanswm Buddsoddiadau		**0**	**0**	**34,682**	**14,162**
Dyledwyr					
Benthyciadau a symiau derbyniadwy	30	261	259		
Cyfanswm Dyledwyr		**261**	**259**		
Benthyciadau					
Ymrwymiadau ariannol am y gost wedi'i h	38	(126,110)	(126,076)	(5,425)	(1,492)
Cyfanswm Benthyciadau		**(126,110)**	**(126,076)**	**(5,425)**	**(1,492)**
Ymrwymiadau Hirdymor Eraill					
Ymrwymiadau PFI	43	(15,430)	(15,181)		
Ymrwymiadau prydlesi cyllidol	42	(2,248)	(2,308)		
Cyfanswm Dyledion Hirdymor Eraill		**(17,678)**	**(17,489)**		

Mae'r enillion a cholledion yn y DIaGC mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	Ymrwymiadau a fesurwyd fel cost amorteiddiedig £'000	Buddsoddiadau £'000	Dyledwyr Hirdymor £'000	Cyfanswm £'000
Llog	10,783	0	0	10,783
Llog taladwy a chostau tebyg	10,783	0	0	10,783
Incwm o logau	0	(669)	(18)	(687)
Incwm o logau ac o fuddsoddiad	0	(669)	(18)	(687)

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei amlygu i amrywiaeth o beryglon ariannol. Y peryglon allweddol yw:

Peryglon credyd - y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu talu symiau dyledus i'r Cyngor.
Peryglon hylifedd - y posibilrwydd y gallai'r Cyngor fod heb gyllid ar gael i gyflawni ei ymroddiadau i wneud taliadau.
Peryglon y farchnad - posibilrwydd colled ariannol i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiad cyfraddau llog.

Mae rhaglen reoli peryglon y Cyngor at ei gilydd yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau posibilrwydd effeithiau andwyol ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu am wasanaethau. Tîm Rheoli'r Drysorfa sy'n rheoli peryglon ar y cyd â chynghorwyr Rheoli'r Drysorfa a benodwyd, dan bolisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Strategaeth Rheoli'r Drysorfa a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r strategaeth yn rhoi egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli peryglon at ei gilydd, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig ar feysydd penodol, fel peryglon cyfraddau llog, peryglon credyd a buddsoddi arian dros ben.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Rheoli'r Drysorfa yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer CIPFA ac mae wedi pennu dangosyddion rheoli'r drysorfa i reoli peryglon offerynnau ariannol allweddol yn unol â Chod Materion Ariannol CIPFA.

Peryglon Credyd

Mae'r Cyngor yn rheoli peryglon credyd trwy sicrhau buddsoddi mewn cronfeydd gyda chyfrif AAA yn y farchnad arian a Banciau a Chymdeithasau Adeiladu o ansawdd credyd digon uchel yn ôl Strategaeth Rheoli Trysorfa'r Cyngor. Mae gan y Cyngor bolisi o beidio rhoi benthyg mwy na £10m i un sefydliad. Yn ogystal, nid yw mwy na £15m fel cyfanswm i'w fuddsoddi am gyfnod hwy na blwyddyn. Nid oes gan y Cyngor brofiad hanesyddol o fethiant parti.

Hyd at fis Tachwedd 2011 y maen prawf statws credyd isaf ar gyfer buddsoddiadau newydd ym mlwyddyn ariannol 2011/12 oedd cyfraddiad hirdymor A+ / A1 / A+ (Fitch / Moody's / Standard & Poor's). Yn dilyn israddio nifer o'n sefydliadau ariannol systemig pwysig yn hydref 2011, mabwysiadwyd maen prawf statws credyd isaf o A- / A3 / A- (Fitch / Moody's / Standard & Poor's) gan y Cyngor unwaith y cymeradwywyd Strategaeth Rheoli'r Drysorfa ddiwygiedig gan y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2011.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi buddsoddiadau presennol y Cyngor ar 31 Mawrth 2012:

31. Offerynnau Ariannol parhad

	Aeddfedu Buddsoddiadau				
	0-3 Mis	3-6 Mis	6-12 Mis	>12 Mis	Cyfanswm
Banciau	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
DU A+ A1 A+	4,645	0	0	0	4,645
A Aa3 A+	7,000	2,000	0	0	9,000
A A1 A	2,000	3,000	0	0	5,000
A A2 A	3,614	0	0	0	3,614
A A2 A	5,000	0	0	0	5,000
Cymdeithasau Adeiladu					
DU	0	0	0	0	0
Cyllid y Farchnad Arian					
AAA	6,350	0	0	0	6,350
Cyfanswm Buddsoddiadau	**28,609**	**5,000**	**0**	**0**	**33,609**

Dengys y tabl uchod bod holl adneuon ar 31 Mawrth 2012 yn cyrraedd meini prawf statws credyd y Cyngor.

Peryglon hylifedd

Oherwydd bod gan y Cyngor fynediad parod at fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, nid oes unrhyw berygl sylweddol y bydd yn methu codi cyllid i dalu ei ymrwymiadau dan offerynnau ariannol. Yn hytrach, y perygl yw y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg anffafriol o ran cyfraddau llog. Strategaeth y Cyngor yw sicrhau nad yw benthyciadau'n aeddfedu ar adeg anghyfleus a chaiff hyn ei wneud trwy gyfuniad o gynllunio benthyciadau newydd yn ofalus a (phan fo'n ddarbodus gwneud hynny) gwneud ad-daliadau cynnar. Mae dadansoddiad aeddfedrwydd benthyciadau hirdymor y Cyngor (ac eithrio bondiau) fel a ganlyn:

	£'000
Llai na blwyddyn	312
Rhwng un a dwy flynedd	555
Rhwng dwy a saith mlynedd	3,224
Rhwng pum a deng mlynedd	5,729
Rhwng deng ac ugain mlynedd	15,290
Rhwng ugain mlynedd a deng mlynedd ar hugain	11,731
Rhwng deng mlynedd ar hugain a deugain mlynedd	46,023
Mwy na deugain mlynedd	44,654
	127,518

Mae holl gredydwyr masnachol i gael eu talu mewn llai na blwyddyn.

Peryglon y farchnad

Peryglon cyfraddau llog **-** Mae'r Cyngor yn agored i beryglon yn deillio o symudiadau mewn cyfraddau llog. Nod Strategaeth Rheoli Trysorfa'r Cyngor yw lliniaru'r peryglon hyn trwy bennu terfyn uchaf o 30% ar ddyledion allanol sy'n gallu bod yn agored i gyfraddau llog newidiol. Ar 31 Mawrth 2012, roedd 100% o bortffolio dyledion y Cyngor mewn offerynnau cyfradd benodol.

Be bai cyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch, gyda holl newidynnau eraill yn cael eu cadw'n gyson, yr effaith ariannol fyddai:

	£'000
Cynnydd mewn llog taladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol	0
Cynnydd mewn llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	(488)
Cynnydd yng ngrant y llywodraeth derbyniadwy i dalu am gyllid	0
Yr effaith ar y DIaGC	(488)
Cyfran yr effaith at ei gilydd i'w debydu / credydu i HRA	0
Gostyngiad yng ngwerth teg asedau buddsoddi cyfradd log sefydlog	0
Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymiadau benthyca cyfradd benodol (Dim effaith ar y DIaGC)	27,499

Byddai effaith gostyngiad o 1% ar gyfraddau llog yn fras fel yr uchod, ond gyda'r symudiadau i'r gwrthwyneb.

Peryglon prisiau

Nid yw'r Cyngor yn gyffredinol yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti.

Peryglon y Farchnad Gyfnewid Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor ac, felly, nid yw'n agored i golled yn deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

32. Buddsoddiadau

Ffurfiwyd y buddsoddiadau sy'n cael eu dadlennu ar y Fantolen o'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

	31/03/2011			31/03/2012		
	Prifswm £'000	Llog a Gronnwyd £'000	Cost wedi'i Hamorteiddio £'000	Prifswm £'000	Llog a Gronnwyd £'000	Cost wedi'i Hamorteiddio £'000
Buddsoddiadau hirdymor	0	0	0	0	0	0
Buddsoddiadau byrdymor	34,500	182	34,682	14,000	162	14,162
Cyfanswm Buddsoddiadau	34,500	182	34,682	14,000	162	14,162

Caiff asedau ariannol fel buddsoddiadau eu cludo ar y Fantolen am y gost wedi'i hamorteiddio. Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cynnwys adneuon tymor mewn banciau a chymdeithasau adeiladu. Ar 31 Mawrth 2012 nid oedd unrhyw fuddsoddiadau hirdymor. Pan fydd offeryn yn aeddfedu yn y deuddeg mis nesaf, gyda'r swm cludo'n cael ei gymryd fel y gwerth teg yn fras.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31/03/2011		31/03/2012	
	Prifswm	Gwerth Teg	Prifswm	Gwerth Teg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau hirdymor	0	0	0	0
Buddsoddiadau byrdymor	34,500	34,500	14,000	14,000

33. Asedau'n cael eu Dal i'w Gwerthu

	2010/11		2011/12	
	Cyfredol £'000	Anghyfredol £'000	Cyfredol £'000	Anghyfredol £'000
Gweddill ar 1 Ebrill	725	375	2,053	0
Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu:				
- Eiddo, peiriannau ac offer	1,380	0	694	0
Colledion adbrisio	0	0	(236)	0
Enillion adbrisio	297	0	85	0
Colledion amhariad	0	0	0	0
Asedau a ddad-ddosbarthwyd fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu:				
- Eiddo, peiriannau ac offer	0	0	0	0
Asedau a werthwyd	(724)	0	(1,096)	0
Trosglwyddiadau o anghyfredol i gyfredol	375	(375)	0	0
Gweddill ar 31 Mawrth	2,053	0	1,500	0

34. Contractau Adeiladu

Nid oedd y Cyngor yn gontractwr yn unrhyw gontract adeiladu yn 2011/12 nar 2010/11.

35. Dyledwyr Byrdymor

	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Cyrff llywodraeth ganolog	12,322	16,152
Awdurdodau lleol eraill	2,398	1,167
Cyrff y GIG	1,279	712
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	1	11
Endidau ac unigolion eraill	9,737	9,186
Cyfanswm Dyledwyr Byrdymor	25,737	27,228

36. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Ffurfiwyd gweddill arian parod a chywerthoedd arian parod o'r elfennau canlynol:

	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Arian parod yn nwylo'r Cyngor	70	66
Cyfrifon banc cyfredol	(7,016)	(7,206)
Cyfrifon galw	9,500	13,259
Cyllid y Farchnad Arian	4,000	6,350
Cyfanswm Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	6,554	12,469

37. Dyledwyr Byrdymor

	Ailddatganwyd 31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Cyrff llywodraeth ganolog	(4,410)	(4,981)
Awdurdodau lleol eraill	(3,064)	(1,987)
Cyrff y GIG	(909)	(293)
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(4)	(5)
Endidau ac unigolion eraill	(12,726)	(12,893)
	(21,113)	(20,159)

38. Benthyciadau

Ffurfiwyd y benthyciadau sy'n cael eu dadlennu ar y Fantolen o'r categoriau canlynol o offerynnau ariannol:

	31/03/2011				31/03/2012			
	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Amorteiddiad £'000	Cost Wedi'i Hamorteiddio £'000	Prifswm £'000	Llog Cronedig £'000	Amorteiddiad £'000	Cost Wedi'i Hamorteiddio £'000
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoed	(102,563)	0	0	(102,563)	(102,563)	0	0	(102,563)
Y Farchnad	(23,800)	(711)	1,841	(22,670)	(23,800)	(747)	1,828	(22,719)
Cyrff y Llywodraeth	(920)	0	43	(877)	(843)	0	49	(794)
Cyfanswm Benthyca Hirdymor	(127,283)	(711)	1,884	(126,110)	(127,206)	(747)	1,877	(126,076)
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoed	(4,000)	(981)	0	(4,981)	0	(869)	0	(869)
Y Farchnad	0	(135)	0	(135)	0	(138)	0	(138)
Cyrff y Llywodraeth	(127)	0	20	(107)	(312)	0	28	(284)
Bondiau	(194)	(8)	0	(202)	(194)	(7)	0	(201)
Cyfanswm Benthyca Byrdymor	(4,321)	(1,124)	20	(5,425)	(506)	(1,014)	28	(1,492)

Caiff ymrwymiadau ariannol eu cludo ar y Fantolen am y gost wedi'i hamorteiddio. Mae PWLB wedi rhoi symiau gwerth teg i'r Cyngor o ran benthyciadau heb eu talu ac mae wedi asesu'r gwerthoedd teg trwy gyfrifo'r symiau y byddai'r Cyngor yn gorfod eu talu i ddileu'r benthyciadau fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth. Mae gan y Cyngor bump o fenthyciadau'r farchnad o bedwar banc. Gofynnwyd i'r banciau roi manylion gwerthoedd teg pob benthyciad. Ymatebodd dau o'r banciau, gan roi manylion seiliedig ar gostau brocer y benthyciad. Fodd bynnag, ar gyfer gweddill benthyciadau'r farchnad, mae'r Cyngor wedi asesu gwerth teg trwy ddefnyddio'r cyfraddau ad-dalu cynamserol PWLB oedd yn gyffredin ar 31 Mawrth. Ar gyfer benthyciadau dros dro a bondiau, y dyb yw bod y swm cludo n debyg i'r gwerth teg yn fras.

Mae'r benthyciadau gan Gyrff y Llywodraeth yn ddi-log ac yn cynnwys swm o £930k oddi wrth Lywodraeth Cymru (LlC) (a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2010) a £11k gan Salix i dalu am brosiectau allyriad carbon a defnyddio llai o ynni. Yn ogystal, derbyniodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn £106k o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru i dalu am arweiniadau i leoli llai o bobl allan o'r sir. Caiff y benthyciadau eu had-dalu dros gyfnod o 2 i 8 mlynedd.

Mae'r gwerthoedd teg fel a ganlyn:

	31/03/2011		31/03/2012	
	Prifswm £'000	Gwerth Teg £'000	Prifswm £'000	Gwerth Teg £'000
PWLB	(106,563)	(135,328)	(102,563)	(151,622)
Y Farchnad	(23,800)	(27,414)	(23,800)	(31,227)
Ymrwymiadau ariannol	(130,363)	(162,742)	(126,363)	-182,849

Mae'r gwerth teg yn fwy na'r swm cludo oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd benodol, lle mae'r llog taladwy'n fwy na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg, ar ddyddiad y fantolen. Os caiff gwerthoedd teg y benthyciadau eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau benthyca newydd PWLB yna'r gwerthoedd ar gyfer benthyciadau PWLB a'r farchnad fyddai £126,091k a £26,160k yn eu tro. Mae'r ymrwymiad i dalu llog uwchlaw cyfraddau cyfredol y farchnad yn lleihau'r swm y byddai'r Cyngor yn gorfod ei dalu, ar gais y rhoddwr benthyg, neu a gytunwyd, i ad-dalu benthyciadau'n gynnar.

39. Darpariaethau

	Cyfredol Darpariaeth Yswiriant £'000	Anghyfredol Hawliadau Ôl-gyflogau Anghyfartal £'000
Gweddill ar 1 Ebrill 2011	(553)	(5,600)
Darpariaethau ychwanegol a wnaed yn 2011/12	(528)	0
Symiau a ddefnyddiwyd yn 2011/12	460	0
Gweddill ar 31 Mawrth 2012	(621)	(5,600)

Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer gwariant disgwyliedig fel a ganlyn:

Darpariaeth yswiriant – mae hyn ar gyfer gwneud taliadau cychwynnol ar hawliadau disgwyliedig**.**

Darpariaeth Hawliadau Ôl-gyflog Cyflogau Anghyfartal – mae hyn ar gyfer talu unrhyw ymrwymiadau ôl-gyflog all fod, yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Statws Unigol. (gwelwch nodyn 41 y Nodiadau ar y Cyfrifon).

40. Credydwyr Hirdymor

	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Endidau ac unigolion eraill	(1,281)	(808)
Cyfanswm Credydwyr Hirdymor	(1,281)	(808)

41. Ymrwymiadau Achlysurol

a) Yn 1997, llofnododd cyflogeion llywodraeth leol a'r undebau llafur perthnasol y "Cytundeb Statws Unigol". Ymrwymodd y cytundeb awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal a sefydlu strwythurau cyflogau anwahaniaethol, gan roi sylw i'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol. Sefydlwyd darpariaeth ddarbodus ar gyfer effaith debygol y cytundeb hwn. (gwelwch nodyn 39 yn y Nodiadau ar y Cyfrifon).

b) Derbyniodd y Cyngor hawliad am iawndal yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, oddi wrth weithredwyr Chwarel yr Hafod. Mae'r cais yn codi o benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar 4 Medi 2006 i gyhoeddi amodau diwygiedig o ran y caniatâd cynllunio i dynnu mwynau ar y safle sy'n cael eu cyfeirio atynt fel Adolygiad o Hen Ganiatâd Cynllunio Mwynau (ROMP) yn unol â'i ddyletswydd statudol yn dilyn dynodi rhan o'r safle'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Effaith y ROMP yw cyfyngu ar hawliau gweithio yn yr ACA.

Roedd yr hawliad yn destun gwrandawiad yn y Tribiwnlys Uchaf (Siambr Tiroedd) ym mis Ionawr 2011. Amddiffynnodd y Cyngor yr hawliad ar y sail nad oedd unrhyw iawndal yn daladwy oherwydd bod yr hawliwr wedi mynegi bwriad eglur i beidio â gweithio ardal yr hawliad cyn gwneud y ROMP. Ar waethaf sefyllfa sylfaenol y Cyngor nad oes dim iawndal yn daladwy, os digwydd bod y Tribiwnlys Uchaf (Siambr Tiroedd) yn penderfynu bod iawndal yn daladwy cytunwyd ar yr hawliad rhwng arbenigwyr prisio priodol y partïon fel swm o £4,232k neu £4,267k neu £4,372k yn dibynnu ar benderfyniad y Tribiwnlys Uchaf Siambr (Tiroedd) ar ddull asesu priodol o'r boblogaeth fadfallod sydd angen ei thrawsleoli.

Mae'r Tribiwnlys Uchaf (Siambr Tiroedd) wedi penderfynu hawliad gan ddarganfod nad oes dim iawndal yn daladwy i'r hawliwr ac wedi gorchymyn i'r hawliwr dalu costau'r Cyngor. Mae'r penderfyniad ar faterion ffeithiol yn derfynol. Mae hawl gyfyngedig i apelio i'r Llys Apêl ar bwynt neu bwyntiau cyfreithiol ac fe gafwyd caniatâd y Llys Apêl i apeli. Rhestrwyd dyddiad y gwrandawiad ar 27 a 28 Tachwedd 2012.

c) Yn ystod y flwyddyn fe werthodd y Cyngor ddarn o dir i drydydd barti am £825k. Os na fydd yr amodau cysylltiedig â'r gwerthiant yn cael eu cadw, yna bydd gofyn i'r Cyngor ailbrynu'r tir yn 2012/13 am y pris gwerthu gwreiddiol. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd amodau'r gwerthiant yn cael eu cadw.

d) Municipal Mutual Insurance Ld (MMI) oedd yswiriwr cyhoeddus pennaf cyrff sector cyhoeddus cyn iddo roi'r gorau i yswirio busnesau yswiriant o fis Medi 1992. Er mwyn sicrhau goferiad trefnus, mae cynllun trefniant gyda'i Gredydwyr wedi ei roi mewn lle. Pe bai'n dod yn amlwg bod goferu'r talu yn annhebygol o ddigwydd, caiff y cynllun ei sbarduno a byddai Credydwyr y cynllun yn destun adfachiad. Mae maint yr adfachiad yn dibynnu ar y swm a dalwyd i'r Credydwyr ers mis Medi 1993. Yn dilyn yr adfachiad hwn gwneir unrhyw gostau atebolrwydd neu gostau amddiffyn dethol gan MMI ar gyfradd ostyngol, gan adael i'w Credydwyr ariannu'r diffyg.

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Uchel Lys ei benderfyniad, gan roi terfyn ar Ymgyfreitha "Sbardun" Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr. Mae'r dyfarniad yn y bôn yn ailosod y dull o ymdrin â dyrannu achosion atebolrwydd cyflogwyr yr oedd y farchnad yswiriant wedi ei mabwysiadu hyd at 2005. Mae polisïau, boed y rheiny wedi eu cynnal neu'n eiriau achosiaeth, yn ymateb fel ar ddyddiad cychwyn neu achos yr afiechyd neu'r anaf h.y. ar adeg yr amlygiad.

Roedd cyfrifon MMI ar gyfer y flwyddyn hyd 30 Mehefin 2011 yn dangos diffyg atebolrwydd dros asedau ac mae MMI yn dal i dderbyn swm sylweddol o geisiadau newydd, yn enwedig ym meysydd mesothelioma a cham-drin honedig. Mae llythyr a anfonwyd gan Gadeirydd MMI at bob aelod o'r cynllun yn adrodd ar ganlyniad gwrandawiad yr Uchel Lys, yn nodi: Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr bellach yn ceisio cyngor cyfreithiol, ariannol ac actiwari er mwyn penderfynu ar oblygiadau llawn y dyfarniad a'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.

Hyd yma, nid yw'r MMI wedi sbarduno'r cynllun trefniadau.

42. Prydlesi

Prydlesi Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi caffael amrywiol gerbydau dan brydlesi cyllidol.

Caiff yr asedau a gafwyd dan y prydlesi hyn eu cludo fel Eiddo, Peiriannau ac Offer ar y Fantolen am y symiau clir canlynol:

31/03/2011 £'000		31/03/2012 £'000
3,194	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	3,011
3,194		3,011

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i dalu isafsymiau dan y prydlesi hyn fel setliad o'r ymrwymiad hirdymor am y budd yn yr eiddo a gafwyd gan y Cyngor a chostau cyllid fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y blynyddoedd a ddaw tra bo'r ymrwymiad yn parhau. Ffurfiwyd y taliadau prydles lleiaf o'r symiau canlynol.

31/03/2011 £'000		31/03/2012 £'000
	Ymrwymiadau prydlesi cyllidol (gwerth clir presennol o daliadau prydles lleiaf):	
781	- cyfredol	807
1,467	- anghyfredol	1,502
198	Costau cyllid taladwy yn y blynyddoedd a ddaw	232
2,446	Taliadau prydles lleiaf	2,541

Bydd y taliadau prydles lleiaf yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Taliadau Prydlesi Lleiaf		Ymrwymiadau Prydlesi Cyllidol	
	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000	31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Cyn pen blwyddyn	885	913	781	807
Yn ddiweddarach na blwyddyn a chyn pen pum mlynedd	1,470	1,492	1,380	1,370
Yn ddiweddarach na phum mlynedd	91	136	87	131
	2,446	2,541	2,248	2,308

Prydlesi Gweithredu

Bydd y Cyngor yn defnyddio dodrefn ac offer a cherbydau dan delerau prydles weithredu.

Y taliadau prydles lleiaf dyledus yn y dyfodol dan brydlesi anniddymadwy yn y blynyddoedd a ddaw yw:

31/03/2011 £'000		31/03/2012 £'000
211	Cyn pen blwyddyn	228
416	Ar ôl blwyddyn a chyn pen pum mlynedd	351
0	Yn ddiweddarach na phum mlynedd	0
627		579

Caiff y gwariant a godwyd ar y DIaGC ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesi hyn ei ddangos isod.
Yn 2011/12, mae Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheolaethol yn cynnwys taliadau rhent o £259k o ran prydlessi estynnol (£79k yn 2010/11).
Yn ystod eu cyfnod gwreiddiol, dosbarthwyd y prydlesi hyn fel Prydlesi Cyllidol ond, yn dilyn ailasesu telerau diwygiedig y cytundebau ymestyn, caiff y rhain eu dosbarthu bellach fel Prydlesi Gweithredu. Ni wnaed unrhyw addasiad o ran 2010/11.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
8	Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	10
18	Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol	262
10	Gwasanaethau Cynllunio	13
155	Gwasanaethau Plant ac Addysg	170
4	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	3
0	Tai'r Awdurdod Lleol (HRA)	3
4	Gwasanaethau Tai Eraill	2
9	Gofal Cymdeithasol Oedolion	13
21	Craidd Corfforaethol a Democrataidd	28
229		504

43. Mentrau Cyllid Preifat (PFI) a Chontractau Tebyg

Ar 1 Ebrill 2009, ymunodd y Cyngor â chynllun PFI pum mlynedd ar hugain gyda WRG Cyf ar gyfer gwaredu gwastraff. Roedd yr holl gyfleusterau'n weithredol erbyn mis Medi 2009. Mae gwerth teg yr asedau sy'n cael eu dal dan y cytundeb yn cael eu cynnwys yn Eiddo, Peiriannau ac Offer ar sail prisiadau yng nghynllun ariannol y gweithredwyr fel a ganlyn:

	Cerbydau, Peiriannau		
	Tir ac Adeiladau £'000	Dodrefn ac Offer £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth ar 1 Ebrill 2011	12,671	3,123	15,794
Ychwanegiadau	0	0	0
Dibrisiant	(532)	(505)	(1,037)
Gwerth ar 31 Mawrth 2012	12,139	2,618	14,757

Mae manylion y taliadau i'w gwneud yn ystod oes y cynllun fel a ganlyn:

	Gwerth Teg y Tâl am Wasanaeth £'000	Llog a Rhenti Achlysurol £'000	Ad-dalu'r Ymrwymiad £'000	Cyfanswm Taliad Unedol £'000
cyn pen blwyddyn	8,852	2,371	334	11,557
o fewn dwy i bum mlynedd	37,841	11,273	679	49,793
o fewn chwech i ddeng mlynedd	56,238	14,423	1,504	72,165
o fewn un ar ddeg i bymtheng mlynedd	63,354	14,828	2,728	80,910
o fewn un ar bymtheg i un mlynedd ar hugain	69,855	14,138	6,187	90,180
o fewn dwy ar hugain i bum mlynedd ar hugain	30,269	4,861	3,749	38,879
	266,409	61,894	15,181	343,484

Mae'r tâl am wasanaeth yn cynnwys costau adnewyddu cylchred oes fel sydd yng nghynllun ariannol y gweithredwyr. Amcangyfrifwyd Y taliadau am y flwyddyn ariannol a ddaw trwy ddefnyddio cyfartaledd pwysol o'r amrywiol fynegrifau a bennwyd yn y contract. Seiliwyd y cyfraddau i'w defnyddio ar y codiadau ar 1 Ionawr 2012 ar gyfer RPI 3.93%, RPIx 3.99%, Mynegrif Llafur 4.93% a Mynegrif Derv 6.84%. Ar gyfer blynyddoedd dilynol tybiwyd chwyddiant o 2.5% yn holl fynegrifau fel y tybiwyd yng nghynllun ariannol y gweithredwr.

Mae'r ymrwymiad dyledus i'r contractwr am wariant cyfalaf a wnaed fel a ganlyn:

	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Gweddill ar 1 Ebrill	(15,669)	(15,430)
Taliadau yn ystod y flwyddyn	239	294
Gwariant Cyfalaf a wnaed yn y flwyddyn	0	0
Symudiadau Eraill	0	(45)
Gweddill ar 31 Mawrth	(15,430)	(15,181)

44. Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig

Mae athrawon yng nghyflogaeth y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiynau Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Capita Teachers' Pensions. Mae'n rhoi buddiannau diffiniedig i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau trwy wneud cyfraniadau seiliedig ar ganran cyflogau pensiynadwy'r aelodau.

Yn 2011/12, fe dalodd y Cyngor £5.5m i Capita Teachers' Pensions o ran budd-daliadau ymddeol athrawon, yn cynrychioli 14.1% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2010/11 oedd £5.4m ac 14.1%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o ran costau blynyddoedd ychwanegol, dewis cronedig a straen cronfa bensiwn o £0.32m i Captia (£0.84m in 2010/11). Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n dal yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae Cynllun Pensiynau Athrawon yn gynllun budd diffiniedig. Er nad yw'r cynllun yn gronedig, bydd Pensiynau Athrawon yn defnyddio cronfa dybiannol fel sail i gyfrifo cyfradd cyfraniadau cyflogwr i'w dalu gan y Cyngor. Fodd bynnag, nid oes modd i'r Cyngor nodi cyfran ymrwymiadau sylfaenol y cynllun sydd i'w phriodoli i'w gyflogeion ei hun at ddiben y Gyfriflen hon ac, felly, mae'n cael ei gyfrifo ar fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fanteision ychwanegol sy'n cael eu dyfarnu ar ymddeoliad cynnar oddi allan i delerau cynllun yr Athrawon. Caiff y buddiannau hyn eu cronni'n llawn yn yr atebolrwydd pensiynau.

45. Trafodion Cysylltiedig â Buddiannau Wedi Cyflogaeth

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a chyflogeion eraill, mae'r Cyngor yn cynnig budd-daliadau ymddeol. Er na fydd y budd-daliadau hyn mewn gwirionedd yn cael eu talu cyn i'r cyflogeion ymddeol, mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud y taliadau sydd angen eu dadlennu pan fydd cyflogeion yn ennill eu hawl yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cyfranogi yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), yn benodol Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n cael ei gweinyddu ar ran y Cyngor gan Gyngor Sir y Fflint. Mae hwn yn gynllun wedi'i gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a chyflogeion yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi'u cyfrif gyda'r bwriad o fantoli'r ymrwymiadau pensiynau gydag asedau buddsoddi. Caiff costau buddiannau wedi cyflogaeth eu cydnabod yng Nghost Gwasanaethau pan fydd cyflogeion yn eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu maes o law fel pensiynau. Fodd bynnag, seiliwyd y taliad i'w wneud ar gyfer treth y cyngor ar gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn ac, felly, caiff gwir gost budd-daliadau ymddeol ei gwyrdroi o'r Datganiad Symudiad Cronfeydd. Gwnaed y trafodion canlynol yn y DIaGC a'r Datganiad Symudiad Cronfeydd yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau Dewisol	
	2010/11 £'000	2011/12 £'000	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost Gwasanaethau:				
Cost gwasanaeth cyfredol	12,539	11,109	0	0
Costau / (enillion) gwasanaethu'r gorffennol	(28,539)	0	(1,062)	197
Colled cwtogiad	1,047	251	0	0
Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi:				
Cost llogau	27,159	25,818	1,897	1,588
Elw disgwyliedig ar asedau yn y cynllun	(20,329)	(20,804)	0	0
Cyfanswm Buddiannau Wedi Cyflogaeth a Godwyd ar y Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(8,123)	16,374	835	1,785
Buddiannau Eraill Wedi Cyflogaeth a Godwyd ar y DIaGC:				
Enillion a cholledion actiwaraidd	(11,571)	32,830	(2,844)	823
Cyfanswm Buddiannau Wedi Cyflogaeth a Godwyd ar y DIaGC	(19,694)	49,204	(2,009)	2,608
Datganiad Symudiad Cronfeydd				
Gwrthdroi taliadau clir a wnaed i'r Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau wedi cyflogaeth yn unol â'r Cod	19,694	(49,204)	2,009	(2,608)
Y gwir swm a godwyd ar Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA ar gyfer Pensiynau yn y flwyddyn				
Cyfraniadau'r cyflogwr taladwy i gynllun Cronfa Bensiynau Clwyd	16,637	16,878		
Budd-dal ymddeol taladwy i bensiynwyr			3,104	2,607

Swm cronnus yr enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y DIaGC hyd at 31 Mawrth yw £46.3m.

46. Asedau ac ymrwymiadau mewn cysylltiad â buddiannau wedi cyflogaeth

Cysoni gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun:

	Ymrwymiadau a Gyllidwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Ymrwymiadau heb eu Cyllido Buddiannau Dewisol	
	2010/11 £'000	2011/12 £'000	2010/11 £'000	2011/12 £'000
1 Ebrill	(484,933)	(469,876)	(35,537)	(30,424)
Cost gwasanaeth cyfredol	(12,539)	(11,109)	0	0
Cost llogau	(27,159)	(25,818)	(1,897)	(1,588)
Cyfraniadau cyfranogwyr yn y cynllun	(4,428)	(4,222)	0	0
(Colled) / cynnydd actiwaraidd	14,830	(17,786)	2,844	(823)
Budd-daliadau a dalwyd	16,861	16,245	3,104	2,607
(Costau) / enillion gwasanaeth yn y gorffennol	28,539	0	1,062	(197)
Cwtogiadau	(1,047)	(251)	0	0
31 Mawrth	(469,876)	(512,817)	(30,424)	(30,425)

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun:

1 Ebrill	301,741	323,015
Cyfradd adennill ddisgwyliedig	20,329	20,804
(Colled) / cynnydd actiwaraidd	(3,259)	(15,044)
Cyfraniadau'r cyflogwr	17,950	18,208
Cyfraniadau cyflogeion	4,428	4,222
Budd-daliadau a dalwyd	(18,174)	(17,575)
31 Mawrth	323,015	333,630

46. Asedau ac Ymrwymiadau mewn cysylltiad â Buddiannau wedi Cyflogaeth parhad

Caiff yr elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ei benderfynu trwy ystyried yr elw disgwyliedig sydd i'w gael ar asedau sylfaenol y polisi buddsoddi cyfredol. Seiliwyd elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau llog sefydlog ar elw adbryniant crynswth ar ddyddiad y Fantolen. Mae elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau ecwiti'n adlewyrchu gwir gyfraddau adennill hirdymor a gafwyd yn y marchnadoedd priodol.

Y gwir elw ar asedau'r cynllun oedd cynnydd o £5,760k (2010/11: £21,482k elw).

Hanes y Cynllun

	2006/07 £'000	2007/08 £'000	2008/09 £'000	2009/10 £'000	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Gwerth presennol ymrwymiadau:						
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(385,630)	(407,258)	(346,762)	(484,933)	(469,876)	(512,817)
Buddiannau Dewisol	(31,566)	(35,652)	(30,285)	(35,537)	(30,424)	(30,425)
Gwerth teg yr asedau	282,697	279,673	220,994	301,741	323,015	333,630
Gwarged / (diffyg) yn y cynllun:						
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(102,933)	(127,585)	(125,768)	(183,192)	(146,861)	(179,187)
Buddiannau Dewisol	(31,566)	(35,652)	(30,285)	(35,537)	(30,424)	(30,425)
Cyfanswm	(134,499)	(163,237)	(156,053)	(218,729)	(177,285)	(209,612)

Mae'r ymrwymiadau'n dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y pen draw i dalu buddiannau wedi cyflogaeth. Mae gan gyfanswm yr atebolrwydd o £210m effaith sylweddol ar werth clir y Cyngor fel y cofnodwyd ar y Fantolen, gan beri gweddill at ei gilydd o £518m. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn dal yn iach. Bydd y diffyg yn y cynllun yn cael ei gywiro trwy gyfraniadau uwch dros weddill bywyd gwaith cyflogeion, yn ôl asesiad actiwari'r cynllun. Cyfanswm y cyfraniadau y mae disgwyl i'r Cyngor eu gwneud i Gronfa Bensiynau Clwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 yw £17.6m.

Sail Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Aseswyd ymrwymiadau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy yn y blynyddoedd a ddaw, yn dibynnu ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyflogau ac ati. Aseswyd ymrwymiadau Cronfa Bensiynau Clwyd gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni actiwarïaid annibynnol, gydag amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa'n seiliedig ar brisiad diweddaraf y cynllun, ar 31 Mawrth 2010.

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Buddiannau Dewisol	
	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11
Cyfradd adennill hirdymor ddisgwyliedig ar asedau yn y cynllun:				
Buddsoddiadau ecwiti	7.0%	7.5%		
Bondiau	4.1%	5.1%		
Arall	6.4%	6.9%		
Tybiaethau marwoldeb:				
Hirhoedledd pensiynwyr presennol 65 oed:				
Dynion	21.8	21.8	21.8	21.8
Merched	24.4	24.3	24.4	24.3
Hirhoedledd pensiynwyr y dyfodol yn 65 oed:				
Dynion	23.2	23.2		
Merched	26.0	25.9		
Cyfradd chwyddiant	2.5%	3.4%	2.3%	3.3%
Cyfradd cynnydd cyflogau	4.0%	4.4%		
Cyfradd cynnydd pensiynau	2.5%	2.9%	2.3%	2.8%
Cyfradd gostwng ymrwymiadau'r cynllun	4.9%	5.5%	4.6%	5.4%
Cyfradd manteisio ar ddewis trosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ymddeol	50.0%	50%		

Mae asedau'r gronfa bensiwn yn cynnwys buddsoddiadau heb eu dyfynnu'n cael eu cludo am eu gwerth teg. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid cysylltiedig â phrisio buddsoddiadau o'r fath, yn deillio o absenoldeb marchnad hylif, gall gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i'w gwerthoedd sylweddoladwy.

Nid oes gan y trefniadau Budd-daliadau Dewisol asedau ar gyfer eu hymrwymiadau. Mae asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o gyfanswm yr asedau mewn llaw:

	31/03/2011 %	31/03/2012 %
Buddsoddiadau ecwiti	58.5	41.0
Offerynnau dyled	11.8	16.0
Asedau eraill	29.7	43.0
	100.0	100.0

46. Asedau ac Ymrwymiadau mewn cysylltiad â Buddiannau wedi Cyflogaeth parhad

Hanes enillion a cholledion a welwyd

	2006/07 %	2007/08 %	2008/09 %	2009/10 %	2010/11 %	2011/12 %
Gwahaniaethau rhwng yr elw disgwyliedig a gwir elw ar asedau	0.10	(9.70)	(38.70)	19.70	(1.01)	(4.51)
Enillion a cholledion a welwyd gydag ymrwymiadau	0.00	(3.30)	0.00	0.00	2.91	0.00

47. Adnoddau Defnyddiadwy Wrth Gefn

Caiff symudiadau yn adnoddau defnyddiadwy wrth gefn y Cyngor eu manylu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd ar dudalen 7 a nodyn 7.

48. Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn

Ailddatganwyd 31/03/2010 £'000	Ailddatganwyd 31/03/2011 £'000		31/03/2012 £'000
210,501	209,366	Cronfa Adbrisio	212,504
485,827	475,596	Cyfrif Addasu Cyfalaf	478,702
(2,606)	(2,330)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(2,148)
99	78	Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig Wrth Gefn	53
(218,729)	(177,285)	Pensiynau Wrth Gefn	(209,612)
(5,600)	(5,600)	Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflog Anghyfartal	(5,600)
(1,807)	(1,829)	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	(2,211)
467,685	**497,996**	**Cyfanswm Adnoddau Annefnyddiadwy Wrth Gefn**	**471,688**

49. Y Gronfa Adbrisio

Mae'r Gronfa Adbrisio'n cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei eiddo, peiriannau ac offer Caiff y gweddill ei leihau pan fo asedau gydag enillion wedi cronni:

- adbrisiad i lawr neu amhariad a'r enillion yn cael eu colli
- defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu llyncu trwy ddibrisiant, neu
- gwaredu a'r enillion yn cael eu sylweddu

Mae'r Gronfa'n cynnwys enillion adbrisio sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad creu'r Gronfa. Caiff enillion a gronnodd cyn y dyddiad hwnnw eu cyfuno â gweddill y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2010/11 £'000			2011/12 £'000
210,501	**Gweddill a Ailddatganwyd ar 1 Ebrill**		209,366
10,018	Adbrisio asedau ar i fyny	38,978	
(7,410)	Nid yw adbrisio asedau ar i lawr a cholledion amhariad yn cael eu codi ar y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(30,892)	
2,608	Gwarged neu (ddiffyg) wrth adbrisio asedau anghyfredol heb ei roi yn y Gwarged / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau		8,086
(3,690)	Y gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol	(3,728)	
(53)	Enillion wedi cronni ar asedau a werthwyd neu sy'n ddiangen	(1,220)	
(3,743)	Swm a ddilëwyd o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf		(4,948)
209,366	**Gweddill a Ailddatganwyd ar 31 Mawrth**		212,504

50. Y Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn llyncu'r gwahaniaethau amseriad sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer yn cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol a chyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Caiff y cyfrif ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella oherwydd bod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiadau'n cael eu codi ar y DIaGC (gyda symiau cysoni o'r Gronfa Adbrisio i drosi ffigurau gwerth teg i sail gostau hanesyddol).
Caiff y Cyfrif ei gredydu gyda symiau neilltuo gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion adbrisio oedd wedi cronni yn Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, dyddiad creu'r Gronfa Adbrisio i ddal enillion o'r fath.

Mae nodyn 7 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a roddwyd yn y Cyfrif, ar wahân i'r rhai'n cynnwys y Gronfa Adbrisio.

2010/11 £'000			2011/12 £'000
485,827	Gweddill a Ailddatganwyd ar 1 Ebrill		475,596
	Gwrthdroi eitemau cysylltiedig â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:		
(44,303)	- taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(46,264)	
	- colledion adbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer		
(229)	- amorteiddio asedau anniriaethol	(220)	
(2,536)	- gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	(730)	
(1,474)	- symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd wrth wared neu werthu fel rhan o'r cynnydd / colled wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(2,081)	
(48,542)			(49,295)
542	Trosglwyddiadau i / o dderbyniadau cyfalaf wrth gefn	577	
3,743	Symiau addasu a ddilëwyd o'r Gronfa Adbrisio	4,948	
(44,257)	Swm clir a ddilëwyd o gost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn		5,525
	Codi cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:		
81	- defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i gyllido gwariant cyfalaf newydd	3,105	
20,972	- grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gymhwyswyd i godi cyfalaf	26,959	
1,001	- cymhwyso grantiau i godi cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig	81	
6,844	- darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd ar y weddillion y Gronfa Gyffredinol a HRA	6,995	
5,128	- gwariant cyfalaf a godwyd ar weddillion y Gronfa Gyffredinol a HRA	9,736	
34,026			46,876
475,596	Gweddill a Ailddatganwyd ar 31 Mawrth		478,702

51. Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn llyncu'r gwahaniaethau amseriad sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif am incwm a threuliau cysylltiedig â rhai offerynnau ariannol ac am dderbyn colledion neu elwa ar enillion y trwy ddarpariaethau statudol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r Cyfrif i reoli premiymau sydd i'w talu am adbrynu benthyciadau'n gynnar. Caiff premiymau eu debydu ar y DIaGC pan gânt eu talu, ond eu gwrthdroi o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA i'r Cyfrif yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Dros gyfnod, caiff y draul ei rhoi'n ôl i Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn unol â threfniadau statudol ar wasgaru'r baich ar dreth y cyngor / rhenti tai. Yn achos y Cyngor, y cyfnod hwn yw faint o gyfnod y benthyciadau oedd ar ôl ar adeg eu hadbrynu. O ganlyniad, bydd y gweddill yn y Cyfrif ar 31 Mawrth 2012 yn cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol dros y 43 blynedd nesaf.

2010/11 £'000			2011/12 £'000
(2,606)	Gweddill ar 1 Ebrill		(2,330)
0	Premiymau a dalwyd yn y flwyddyn ac a godwyd ar y DIaGC	0	
276	Cyfran y premiymau a dalwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol i'w chodi ar Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn unol â gofynion statudol	182	
276	Y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar y DIaGC â chostau cyllid taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		182
(2,330)	Gweddill ar 31 Mawrth		(2,148)

52. Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig Wrth Gefn yn dal yr enillion cydnabyddedig ar waredu asedau anghyfredol, ond na chafwyd taliad amdanynt eto. Dan drefniadau statudol, nid yw'r Cyngor yn trin yr enillion hyn fel rhai defnyddiadwy ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf newydd nes bydd derbyniadau arian yn gefn iddynt. Pan fydd y setliad arian parod gohiriedig yn digwydd maes o law, caiff symiau eu trosglwyddo i'r Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
99	Gweddill ar 1 Ebrill	78
(21)	Trosglwyddo i'r Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn ar adeg dderbyn arian parod	(25)
78	Gweddill ar 31 Mawrth	53

53. Y Gronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau'n llyncu'r gwahaniaethau amseriad sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif am fuddiannau wedi cyflogaeth ac am gyllido buddiannau'n unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrif am fuddiannau wedi cyflogaeth yn y DIaGC wrth i'r buddiannau gael eu hennill gan gyflogeion trwy gronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau cydnabyddedig i adlewyrchu chwyddiant, tybiaethau newidiol ac elw buddsoddiad o unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn gofyn cyllido buddiannau a enillwyd wrth i'r Cyngor wneud cyfraniadau'r cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu'n talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt maes o law. Felly, mae gweddill y Gronfa Bensiynau'n dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a phresennol a'r adnoddau a roddodd y Cyngor o'r neilltu i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y neilltuwyd cyllid pan ddaw'n adeg talu'r buddiannau.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
(218,729)	Gweddill ar 1 Ebrill	(177,285)
14,415	Enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a dyledion pensiynau	(33,653)
7,288	Gwrthdroi eitemau cysylltiedig â budd-daliadau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau yn y DIaGC	(18,159)
19,741	Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	19,485
(177,285)	Gweddill ar 31 Mawrth	(209,612)

54. Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflog Anghyfartal

Mae'r Cyfrif Ôl-gyflogau Cyflog Anghyfartal yn gwneud iawn am y gwahaniaethau rhwng y gyfradd y bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer costau posibl setliadau ôl-gyflog mewn cysylltiad ag achosion Cyflog Cyfartal a'r gallu dan ddarpariaethau statudol i ohirio'r effaith ar Weddill y Gronfa Gyffredinol nes bydd arian parod yn cael ei dalu i hawlwyr.

2010/11 £'000		2011/12 £'000	2011/12 £'000
(5,600)	Gweddill ar 1 Ebrill		(5,600)
0	Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer ôl-gyflog mewn cysylltiad ag achosion Cyflog Cyfarta	0	
0	Setliadau arian parod a dalwyd yn y flwyddyn	0	
0	Y gwahaniaeth rhwng symiau a godwyd am Hawliadau Cyflog Cyfartal ar y DIaGC â chost setliadau taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		0
(5,600)	Gweddill ar 31 Mawrth		(5,600)

55. Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn llyncu'r gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA wrth gronni ar gyfer absenoldebau taledig a enillwyd ond na chymrwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn gofyn bod trosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif yn golygu nad oes dim effaith ar Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA.

2010/11 £'000		2011/12 £'000	2011/12 £'000
(1,807)	Gweddill ar 1 Ebrill		(1,829)
1,807	Setlo neu ddiddymu croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	1,829	
(1,829)	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	(2,211)	
(22)	Y gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y DIaGC ar sail croniadau â'r gydnabyddiaeth daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		(382)
(1,829)	Gweddill ar 31 Mawrth		(2,211)

56. Datganiad Llif Arian – Addasu'r gwarged / diffyg clir wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau heblaw arian parod:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
(44,304)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(46,264)
(228)	Amorteiddio asedau anniriaethol	(220)
(24)	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn rhestri eiddo	3
1,240	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn dyledwyr	(601)
(4,246)	Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr	2,370
27,029	Trosglwyddo i / (o) bensiynau wrth gefn	1,326
(208)	Trosglwyddo i / (o) ddarpariaethau	(68)
52	Amorteiddio benthyca hirdymor	1
(1,474)	Swm cludo asedau anghyfredol a werthwyd	(2,081)
21,238	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf a gredydwyd i incwm a gwariant	27,256
(2,536)	Gwariant Cyllidol ai gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	(730)
450	Incwm cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	60
(3,011)		(18,948)

57. Datganiad Llif Arian - Addasu ar gyfer eitemau sydd yn y gwarged neu ddiffyg clir wrth ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi ac yn cyllido gweithgareddau:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
11,328	Derbyniadau o werthu asedau anghyfredol	2,034
11328		2,034

58. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Gweithredu

Mae'r llifau arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
(627)	Llog a dderbyniwyd	(706)
10,707	Llog a dalwyd	10,856

59. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi

2010/11 £'000		2011/12 £'000
33,851	Prynu eiddo, peiriannau, offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	50,883
500	Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor	0
8,080	Taliadau eraill gweithgareddau buddsoddi	4,083
(11,328)	Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau, offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(2,034)
0	Derbyniadau o fuddsoddiadau byrdymor a hirdymor	(20,500)
(27,739)	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	(25,202)
3,364	Lifau arian clir o weithgareddau buddsoddi	7,230

60. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Cyllido

2010/11 £'000		2011/12 £'000
(122)	Derbyniadau arian parod o fenthyca byrdymor a hirdymor	(108)
(435)	Derbyniadau eraill o weithgareddau cyllido	(2,085)
1,374	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r ymrwymiadau cysylltiedig â phrydlesi cyllidol a chontractau PFI ar fantolen	1,216
4,488	Ad-daliadau o fenthyciad byrdymor a hirdymor	4,000
0	Taliadau eraill o weithgareddau cyllido	0
5,305	Llifau arian clir o weithgareddau cyllido	3,023

61. Cronfeydd Ymddiried

Mae'r Cyngor yn gweinyddu nifer o gronfeydd ymddiried cysylltiedig â gwasanaethau penodol. Mae natur y rhain yn amrywio, ac yn ymwneud yn bennaf â chymynroddion a adawyd i'r Cyngor, at ddibenion addysg. Nid yw trafodion y cronfeydd ymddiried hyn yn rhan o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr na'r Fantolen. Mae crynodeb o drafodion y gronfa ymddiried addysg fel a ganlyn:

2010/11 £'000		2011/12 £'000
143	Gweddill Agoriadol	138
1	Llog Buddsoddi	1
(6)	Dyfarniadau i ysgolion	(1)
138	Gweddill wrth Gau	138

Caiff y gweddill wrth gau uchod ei gynrychioli gan arian parod.

62. Gofal Cymdeithasol - Cronfeydd Cadw Diogel ac Amwynder

Cyfrifon Cadw Diogel – Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion yn cynnal cyfrifon Cadw Diogel unigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n byw yn y gymuned ac sy'n methu delio â'u materion ariannol oherwydd eu hanallu meddyliol. Y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yw'r sawl a benodwyd gydag Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Y gweddill ar 31 Mawrth 2012 oedd £2,748k (£2,356k ar 31 Mawrtch 2011) ac mae hyn yn adlewyrchu faint o arian sy'n cael ei ddal gan y Cyngor ar ran defnyddwyr ei wasanaethau.

Cronfeydd Amwynder – Mae Cronfeydd Amwynder yn cynrychioli cronfeydd sy'n cael eu dal ar ran sefydliadau, fel canolfannau dydd a chartrefi preswyl. Mae'r taliadau am eitemau a brynwyd er lles trigolion a chleientiaid y sefydliadau hyn a chaiff yr incwm ei gynhyrchu o roddion ac anrhegion teuluoedd cleientiaid a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Y gweddill ar 31 Mawrth 2012 oedd £24,573 (£27,719 ar 31 Mawrth 2011).

63. Incwm Grantiau

Credydodd y Cyngor y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r DIaGC:

	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Credydwyd i Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol:		
Trethi Annomestig	37,294	31,361
Grant Cynnal Cyllid	125,114	129,778
Grant Cytundeb Gwella	1,285	1,291
Grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7,600	7,600
Grant Cyfalaf Cyffredinol	787	604
Cronfa Gyfalaf Gwella Strategol	2,067	0
Cronfa Mynediad at Gyfalaf Rhanbarthol	547	79
Grant Cludiant	4,240	12,951
Grant Cynnal Ffyrdd	172	7
Grant Gwella Adeiladau Ysgolion	3,657	4,549
Cynnal a Chadw Cyfalafol Ychwanegol mewn Ysgolion	0	285
Blynyddoedd Cynnar / Dechrau'n Deg	0	226
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Eraill	1,976	826
	184,739	189,557
Credydwyd i Wasanaethau:		
Llywodraeth Cymru - Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,298	1,481
Grant Penodol Adnewyddu Tai	2,233	1,417
Cronfa Gyfalaf Gwella Strategol	919	0
Grant Gwella Adeiladau Ysgolion	128	0
Arweiniad Cyllid Preifat	2,201	2,148
Grant Gwastraff	2,977	2,947
Grant Cefnogi Pobl	4,899	4,851
Cyfnod Sylfaen	3,196	3,947
Llwybrau Dysgu (14-19)	840	787
Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion	3,091	3,020
Cronfa Ysgolion Gwell	621	0
Dechrau'n Deg	1,553	1,521
Cymorth	1,860	1,529
Strategaeth Anabledd Dysgu	1,208	1,219
Grant Ad-dalu Tocynnau Mantais	2,534	2,713
Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	987	932
PION Teuluoedd yn Gyntaf	350	521
Arall	8,728	6,976
Adran Gwaith a Phensiynau	44,880	49,372
Arall	3,865	6,042
	88,368	91,423

63. Incwm Grantiau parhad

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w cydnabod fel incwm oherwydd bod amodau ynghlwm wrthynt fydd yn gofyn dychwelyd yr arian neu eiddo i'r rhoddwr. Mae'r gweddill ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Ymrwymiadau Cyfredol:		31/03/2011 £'000	31/03/2012 £'000
Derbyniadau Grant o Flaen Llaw - Cyfalaf:			
Llywodraeth Cymru - Ysgolion yr 21ain Ganrif		778	0
	Grant Cludiant	267	0
	Grant Cynnal Ffyrdd	0	15
	Cronfa Adfywio Lleol	190	190
	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	81	81
	Awdurdod Datblygu Cymru	132	131
	Cadw	0	16
	Grant Penodol Ardal Adnewyddu	193	0
	Arall	46	20
Arall	Taith (Sir y Fflint)	50	0
	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	48	45
	Cronfa Cyfleoedd Newydd	0	16
	Arall	20	6
		1,805	520
Derbyniadau Grant o Flaen Llaw - Cyllid:			
Llywodraeth Cymru - Teuluoedd yn Gyntaf		325	0
	Grant Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol	0	27
	Grant Cludiant Lleol	48	0
	Grant Lleol Diogelwch ar y Ffyrdd	18	0
	Genesis Cymru	36	0
	Cymunedau'n Gyntaf	42	4
	Arall	27	22
Arall	Y Swyddfa Gartref - Ceiswyr Lloches	4	0
	Arall	21	19
		521	72

64. Symiau Hysbysedig ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau

Dadansoddiad incwm a gwariant fesul gwasanaeth ar wyneb y DIaGC yw'r hyn a bennwyd yn y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau. Fodd bynnag, bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau ar sail adroddiadau arolygu'r gyllideb sy'n cael eu dadansoddi ar draws adrannau. Caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn arbennig:

- ni chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud mewn cysylltiad â gwariant cyfalaf (tra bo colledion dibrisiant, adbrisio ac amhariad dros y gweddill ar y Gronfa Adbrisio ac amorteiddiadau'n cael eu codi ar wasanaethau yn y DIaGC)

- caiff costau budd-daliadau ymddeol eu seilio ar lifau arian (talu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chostau gwasanaeth cyfredol o fuddiannau sydd wedi ei gronni yn y flwyddyn

- caiff gwariant ar rai gwasanaethau ategol ei gyllidebu'n ganolog yn hytrach na'i godi ar adrannau.

Mae incwm a gwariant prif adrannau'r Cyngor sy'n cael eu cofnodi yn yr adroddiadau ar y gyllideb am y flwyddyn fel a ganlyn:

Incwm a Gwariant Adrannol 2011/12

	Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys ysgolion) £'000	Gofal Cymdeithasol Oedolion £'000	Yr Amgylchedd £'000	Tai heblaw HRA £'000	Corfforaethol a Chanolog £'000	Gwasanaethau Eraill £'000	Cyfanswm £'000
Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaeth aral	(11,208)	(10,450)	(10,929)	(1,596)	(2,538)	(18,423)	(55,144)
Grantiau'r llywodraeth	(16,272)	(4,503)	(10,786)	(50,344)	(162)	(4,985)	(87,052)
Cyfanswm Incwm	(27,480)	(14,953)	(21,715)	(51,940)	(2,700)	(23,408)	(142,196)
Treuliau cyflogeion	85,705	20,646	10,983	1,701	1,719	28,984	149,738
Treuliau gwasanaeth eraill	25,463	33,707	34,540	51,606	27,125	18,260	190,701
Codi ar wasanaeth ategol	7,299	169	55	298	151	1,010	8,982
Cyfanswm Gwariant	118,467	54,522	45,578	53,605	28,995	48,254	349,421
Gwariant Clir	90,987	39,569	23,863	1,665	26,295	24,846	207,225

Ffigurau Cymharol Incwm a Gwariant Adrannol 2010/11

	Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys ysgolion) £'000	Gofal Cymdeithasol Oedolion £'000	Yr Amgylchedd £'000	Tai heblaw HRA £'000	Corfforaethol a Chanolog £'000	Gwasanaethau Eraill £'000	Cyfanswm £'000
Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaeth aral	(18,612)	(8,197)	(11,234)	(1,617)	(3,582)	(16,930)	(60,172)
Grantiau'r llywodraeth	(15,819)	(5,406)	(9,195)	(46,678)	0	(4,716)	(81,814)
Cyfanswm Incwm	(34,431)	(13,603)	(20,429)	(48,295)	(3,582)	(21,646)	(141,986)
Treuliau cyflogeion	87,847	21,718	12,221	1,612	1,646	29,040	154,084
Treuliau gwasanaeth eraill	28,674	29,951	31,657	48,072	27,248	18,175	183,777
Codi ar wasanaeth ategol	7,543	72	38	74	62	1,370	9,159
Cyfanswm Gwariant	124,064	51,741	43,916	49,758	28,956	48,585	347,020
Gwariant Clir	89,633	38,138	23,487	1,463	25,374	26,939	205,034

Bydd amrywiadau mewn incwm a gwariant crynswth rhwng blynyddoedd o ganlyniad i ad-drefnu rheolaeth a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2011. Er enghraifft, yn 2010/11 roedd gwasanaeth arlwyo a glanhau'n ffurfio rhan o'r adran Plant a Phobl Ifanc ac, felly, roedd ffïoedd a thaliadau'n cynnwys incwm o £4.4m. Yn 2011/12 mae'r gwasanaeth arlwyo a glanhau'n ffurfio rhan o'r adran Asedau a Datblygu Economaidd ac, felly, mae'r incwm cyfatebol o £4.6m yn cael ei ddangos yn ffïoedd a thaliadau Gwasanaethau Eraill.

Cysoni Incwm a Gwariant Adrannau â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut mae'r ffigurau yn y dadansoddiad adrannol o incwm a gwariant yn berthnasol i'r symiau sydd yn y DIaGC

	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Gwariant clir yn y Dadansoddiad Adrannol	205,034	207,225
Gwariant clir gwasanaethau a gwasanaethau ategol heb fod yn y Dadansoddiad	(1,595)	1,385
Symiau yn y DIaGC heb eu hysbysu i'r Bwrdd Gweithredol yn y Dadansoddiad	46,425	47,025
Symiau sydd yn y Dadansoddiad sydd heb fod yn y DIaGC	(63,583)	(41,925)
Cost Gwasanaethau yn y DIaGC	186,281	213,710

64. Symiau Hysbysedig ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau parhad

Cysoni â Dadansoddiad Goddrychol

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut mae'r ffigurau yn y dadansoddiad incwm a gwariant adrannol yn berthnasol i ddadansoddiad goddrychol o'r Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau sydd yn y DIaGC.

2011/12	**Dadansoddid Adrannol**	**Gwasanaethau a Gwasanaethau Ategol heb fod yn y Dadansoddiad**	**Symiau heb eu Hysbysu i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer penderfynu**	**Symiau heb fod yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**Dyraniad Codiadau Ar**	**Cost Gwasanaethau**	**Symiau Corfforaethol**	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaeth arall	(55,144)	(40,536)	(60)	4,316	22,596	(68,828)		(68,828)
Llog ac Incwm o fuddsoddiad						0	(21,491)	(21,491)
Incwm o dreth y cyngor						0	(59,145)	(59,145)
Grantiau a Chyfraniadau	(87,052)	(967)	(3,404)			(91,423)	(189,557)	(280,980)
Cyfanswm Incwm	(142,196)	(41,503)	(3,464)	4,316	22,596	(160,251)	(270,193)	(430,444)
Treuliau cyflogeion	149,738	10,637	0	(5,419)	(2,285)	152,671	0	152,671
Treuliau gwasanaeth eraill	190,701	30,800	3,954	(40,822)	(9,829)	174,804	0	174,804
Codi ar y gwasanaethau ategol	8,982	1,451	51		(10,482)	2	0	2
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad			46,484			46,484	0	46,484
Taliadau llog	0	0	0	0	0	0	38,189	38,189
Archebiannau ac Ardollau	0	0	0	0	0	0	18,993	18,993
Cynnydd neu Golled wrth gael gwared ar Asedau anghyfredol	0	0	0	0	0	0	47	47 0
Cyfanswm Gwariant	349,421	42,888	50,489	(46,241)	(22,596)	373,961	57,229	431,190
Gwarged neu ddiffyg wrth ddarparu gwasanaethau	207,225	1,385	47,025	(41,925)	0	213,710	(212,964)	746

Ffigurau Cymharol 2010/11	**Dadansoddid Adrannol**	**Gwasanaethau a Gwasanaethau Ategol heb fod yn y Dadansoddiad**	**Symiau heb eu Hysbysu i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer penderfynu**	**Symiau heb fod yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**Dyraniad Codiadau Ar**	**Cost Gwasanaethau**	**Symiau Corfforaethol**	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaeth arall	(60,172)	(37,955)	242	4,505	27,208	(66,172)	0	(66,172)
Llog ac Incwm o fuddsoddiad	0	0	0	0	0	0	(20,987)	(20,987)
Incwm o dreth y cyngor	0	0	0	0	0	0	(56,967)	(56,967)
Grantiau a Chyfraniadau	(81,814)	(1,010)	(5,544)	0	0	(88,368)	(184,739)	(273,107)
Cyfanswm Incwm	(141,986)	(38,965)	(5,302)	4,505	27,208	(154,540)	(262,693)	(417,233)
Treuliau cyflogeion	154,084	10,597	0	(33,611)	(3,742)	127,328	0	127,328
Treuliau gwasanaeth eraill	183,777	25,134	7,374	(34,477)	(12,948)	168,860	0	168,860
Codi ar y gwasanaethau ategol	9,159	1,639	(179)	0	(10,518)	101	0	101
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad	0	0	44,532	0	0	44,532	0	44,532
Taliadau llog	0	0	0	0	0	0	39,718	39,718
Archebiannau ac Ardollau	0	0	0	0	0	0	18,466	18,466
Cynnydd neu Golled wrth gael gwared ar Asedau anghyfredol	0	0	0	0	0	0	(9,853)	(9,853)
Cyfanswm Gwariant	347,020	37,370	51,727	(68,088)	(27,208)	340,821	48,331	389,152
Gwarged neu ddiffyg wrth ddarparu gwasanaethau	205,034	(1,595)	46,425	(63,583)	0	186,281	(214,362)	(28,081)

65. Asedau Treftadaeth: Crynodeb Trafodion Pum Mlynedd

Nid yw'n ymarferol cynnwys gwybodaeth am y tair blynedd flaenorol hyd 2010/11.

66. Asedau Treftadaeth: Rhagor o Wybodaeth am Gasgliadau'r Amgueddfa

Cadwraeth a Rheolaeth

Caiff cadwraeth a rheolaeth casgliad yr amgueddfa ei wneud i'r safonau uchaf posibl ac yn unol ag amryw ofynion a chanllawiau ymarfer gorau gan gynnwys y Cynllun Achredu Amgueddfeydd, Sbectrwm a Meincnodau ar gyfer Gasgliadau Amgueddfa.

Yn yr amgueddfa mae dau aelod proffesiynol o staff y casgliad, sydd yno'n unswydd i sicrhau bod casgliad yr amgueddfa'n cael ei reoli'n dda ac yn cael ei gadw am byth. Neilltuwyd cyllideb unswydd i gadwraeth a gofalu am y casgliad, a chaiff arian ychwanegol ei geisio trwy grantiau ar gyfer prosiectau ychwanegol cadw a rheoli'r casgliadau.

Mae'r amgueddfa'n cadw dogfennau manwl ar holl wrthrychau a gofalu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys dilyn y trefnau gofynnol yn ôl y Sbectrwm, Safon Reoli Casgliadau Amgueddfeydd y DU. Bydd yr amgueddfa'n defnyddio cronfa ddata gyfrifiadurol arbenigol o'r enw Calm i gadw cofnodion cysylltiedig â'r casgliad.

Mynediad at y casgliad

Y casgliad sy'n diffinio'r amgueddfa fel amgueddfa ac mae ei arwyddocâd a'i bwysigrwydd yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Caiff mynediad at y casgliad ei hybu a'i annog trwy nifer o weithgareddau:

1. Arddangosfeydd

Caiff gwrthrychau o'r casgliad eu harddangos trwy arddangosfeydd yn Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chanolfan Dreftadaeth y Bers. Mae rhaglen newidiol o arddangosfeydd sy'n helpu sicrhau bod trosiant da o wrthrychau'n cael eu harddangos.

2. Catalog Ar-lein

Mae'r gwasanaeth amgueddfeydd yn cyhoeddi catalog cwbl hygyrch o'r casgliad i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd dim ond cyfran fechan o'r casgliad sydd ar gael ond mae nifer y cofnodion yn tyfu'n gyson wrth wneud gwaith dogfennu.

3. Canolfan y Casgliadau

Caiff gwrthrychau nad ydynt yn cael eu harddangos eu cartrefu yn un o dair storfa wrthrychau'r amgueddfa. Caiff mynediad y cyhoedd at gasgliadau ar gadw ei hybu trwy ganolfan y casgliadau yn amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol. Gall y cyhoedd ofyn am gael gweld gwrthrych yn storfa ac mae hyn yn bosibl bob amser oni bai fod pryder ynghylch iechyd a diogelwch, neu ddiogelwch cyffredinol.

http://www.wrexham.gov.uk/english/heritage/collection_centre.htm

4. Benthyciadau

Caiff nifer o wrthrychau eu rhoi ar fenthyg i amgueddfeydd achrededig eraill neu fannau cyfarfod cyhoeddus sy'n ateb gofynion diogelwch cyffredinol a gofalu am gasgliadau'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae gan y gwasanaeth amgueddfeydd wrthrychau'n cael eu harddangos yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd, Llyfrgell Bryn-teg ac mewn nifer o amgueddfeydd ar hyd a lled Cymru, fel rhan o arddangosfa chwaraeon ar

Caffael a Gwared

Mae Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chanolfan Dreftadaeth y Bers yn amgueddfeydd achrededig. I gydymffurfio ag achrediad mae gan y ddau bolisi Caffael a Gwared ar y cyd sy'n llywodraethu sut gaiff gwrthrychau eu casglu a'u gwared.

Mae modd caffael gwrthrychau trwy rodd, prynu neu gymynrodd a rhaid iddynt gyd-fynd â pholisi casglu'r amgueddfa. Daeth o leiaf 95% o'r casgliad trwy rodd.

Anaml y bydd dim yn cael ei wared o'r casgliad a ychwanegwyd a hynny'n unig pan nad yw'r gwrthrych yn cyd-fynd â'r polisi casglu, yn peri pryder iechyd a diogelwch neu mewn cyflwr mor ddrwg nad yw mwyach yn ddefnyddiol ar gyfer arddangos neu ymchwil. Bwrdd Gweithredol y Cyngor fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i gael gwared ar wrthrych. Unwaith y gwnaed penderfyniad i gael gwared ar ddeunydd o'r casgliad, bydd blaenoriaeth ar ei gadw yn y parth cyhoeddus, oni bai ei fod i gael ei ddinistrio. Felly, bydd yn cael ei gynnig yn y lle cyntaf, trwy rodd neu werthiant, yn uniongyrchol i'r Amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n debygol o fod â diddordeb yn ei gaffael.

http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/museum_acquisition_disposal_policy.htm

67. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2011/12 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, 31 Mawrth 2012. Paratowyd yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12 a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2010/11, a ddatblygodd CIPFA/LASAAC Bwrdd Codau Awdurdodau Lleol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y cod yn dilyn Safonau Rhyngwladol Cyflwyno Adroddiadau Ariannol (IFRS) i'r graddau y maent yn ystyrlon a phriodol i'r Cyngor. Pan fo'r Cod yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu sy'n cael ei farnu fel y mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Cyngor at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Caiff y polisïau arbennig a fabwysiadwyd gan y Cyngor eu disgrifio isod. Cymhwyswyd hwy'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyriwyd yn berthnasol mewn cysylltiad â'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i roi cyfrif am adbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol, asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol.

1. CRONIADAU INCWM A GWARIANT

Caiff gweithgaredd ei gyfrif yn y flwyddyn y digwyddodd, nid yn unig ar adeg gwneud neu dderbyn taliadau arian parod. Yn benodol:

a) Caiff derbyniadau o werthu nwyddau eu cydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo peryglon a gwobrau sylweddol perchenogaeth i'r prynwr a phan fo'n debygol y bydd y buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodiad yn deillio i'r Cyngor.
b) Caiff derbyniadau o ddarparu gwasanaethau eu cydnabod pan all y Cyngor fesur canran cwblhau'r trafodiad yn ddibynadwy a phan fo'n debygol y bydd y buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodiad yn deillio i'r Cyngor.
c) Caiff cyflenwadau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn y cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu dwyn ymlaen fel rhestri eiddo ar y Fantolen.
d) Caiff treuliau cysylltiedig â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant ar adeg derbyn y gwasanaethau yn hytrach nag ar adeg gwneud taliadau.
e) Caiff llog derbyniadwy ar fuddsoddiadau a thaladwy ar fenthyciadau eu cyfrif yn eu tro fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifau arian a sefydlwyd neu a bennwyd gan y contract.
f) Pan gydnabuwyd derbyniadau a gwariant ond na dderbyniwyd na thalwyd arian parod, caiff dyledwyr neu gredydwyr ar gyfer y symiau perthnasol eu cofnodi ar y Fantolen. Pan na thalwyd dyledion, caiff gweddillion dyledwyr eu nodi gan godi ar dderbyniadau am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

2. ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN PAROD

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd heb fod dros 24 awr. Cywerthoedd arian parod yw buddsoddiadau byrdymor, hylif dros ben sy'n dra arnewidiol i symiau hysbys o arian parod gyda pherygl dinod o newid yn eu gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, caiff arian parod a chywerthoedd arian parod eu dangos yn glir o orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar orchymyn ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Cyngor.

3. EITEMAU EITHRIADOL

Pan fo eitemau incwm a thraul yn sylweddol, caiff eu natur a'u maint eu datgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y DIaGC neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU i BOLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid y polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall sylweddol. Caiff newidiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu hystyried yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd i ddod sy'n cael eu heffeithio gan y newid heb beri addasiad cyfnod blaenorol.

Ni chaiff newidiadau i'r polisïau cyfrifyddu eu gwneud heblaw pan fo angen oherwydd arferion cyfrifyddu priodol neu fod y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amgylchiadau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (os na fydd yn dweud yn wahanol) trwy addasu symiau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed. Caiff gwallau sylweddol sy'n dod i'r amlwg mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy newid symiau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

5. CODI AR DDERBYNIADAU AM ASEDAU ANGHYFREDOL

Caiff y symiau canlynol eu tynnu o gyfrifon gwasanaethau, gwasanaethau ategol a masnachu i gofnodi cost dal asedau yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol.
- colledion adbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion wedi cronni yn y Gronfa Adbrisio i'w defnyddio i ddileu'r colledion.
- amorteiddiad asedau anniriaethol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol ar y Cyngor i gynyddu Treth y Cyngor i dalu am golledion dibrisiant, adbrisio ac amhariad nac amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae gofyn iddo wneud cyfraniad blynyddol o dderbyniadau tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca at ei gilydd. Felly, mae colledion dibrisiant, adbrisio ac amhariad ac amorteiddiadau'n cael eu disodli gan y cyfraniad yng ngweddill y Gronfa Gyffredinol / HRA, trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

6. BUDDIANNAU CYFLOGEION

Buddiannau Taladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau byrdymor cyflogeion yw'r rhai i'w talu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau, gwyliau blynyddol ar gyflog ac absenoldeb salwch ar gyflog, bonysau a buddiannau heblaw arian (e.e. ceir) ar gyfer gweithwyr presennol ac maent yn cael eu cydnabod fel traul ar wasanaethau yn y flwyddyn pan oedd cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Cyngor. Caiff croniad ei wneud o gost hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser rhydd yn lle) a enillwyd gan gyflogeion ond heb ei gymrwyd cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Caiff y croniad ei wneud ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef y cyfnod pan fydd y cyflogai'n cymryd y budd. Caiff y croniad ei godi ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau, ond yna'i wyrdroid trwy'r Datganiad Symudiad Cronfeydd fel bod buddiannau gwyliau'n cael eu codi ar dderbyniadau yn y flwyddyn ariannol pan fydd yr absenoldeb gwyliau'n digwydd.

Buddiannau Terfyniad

Symiau yw buddiannau terfyniad sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Cânt eu codi ar sail croniadau i'r llinell Costau Annosbarthedig yn y DIaGC pan fo'r Cyngor yn amlwg yn ymroddi i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion, neu wneud cynnig i annog diswyddiad gwirfoddol. Pan fo buddiannau terfyniad yn golygu gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn codi ar weddill y Gronfa Gyffredinol y swm sydd i'w dalu gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn, neu bensiynwyr, yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, mae gofyn neilltuo arian i ac o'r Pensiynau Wrth Gefn i ddileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer chwyddo pensiynau, a'u disodli gyda debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr, ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau Wedi Cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiynau Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Pensiynau Athrawon Capita
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion pan oeddent yn gweithio i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr Athrawon yn golygu nad oes modd nodi ymrwymiadau am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly caiff y cynllun ei gyfrif fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig – nid oes dim ymrwymiad i dalu buddiannau yn y dyfodol yn cael ei gydnabod ar y Fantolen. Caiff cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn eu codi ar linell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y DIaGC.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan holl staff eraill, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, hawl i ddod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Gweinyddwyr y gronfa sy'n pennu'r costau pensiwn i'w codi ar gyfrifon y Cyngor o ran y grŵp hwn o gyflogeion ac mae'n cynrychioli cyfran benodol o gyfraniadau cyflogeion i'r cynllun pensiwn buddsoddion hwn.

Caiff y Cynllun Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiant diffiniedig:

- Caiff ymrwymiadau'r gronfa bensiwn sydd i'w briodoli i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn cysylltiad â budd-daliadau ymddeol a enillwyd hyd yma gan gyflogeion, ar sail tybiaethau fel cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant cyflogeion a rhagamcaniadau o enillion gweithwyr presennol.
- Caiff ymrwymiadau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 5.5% a gyfrifwyd fel cyfartaledd pwysol o "elwau ar y pryd" ar fondiau corfforaethol gradd AA.
- Caiff asedau Cronfa Bensiynau Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen am eu gwerth teg, fel y penderfynwyd gan actiwari'r Gronfa:
    - gwarannau a ddyfynnir – pris cynnig cyfredol
    - gwarannau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
    - gwarannau unedoledig – pris cynnig cyfredol
    - eiddo – gwerth y farchnad
- Caiff y newid yn yr atebolrwydd pensiynau clir ei ddadansoddi'n saith cydran:
    - costau gwasanaethau cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – i'w glustnodi yn y DIaGC i'r gwasanaethau lle'r oedd y cyflogeion yn gweithio;
    - costau gwasanaethu'r gorffennol – y cynnydd mewn ymrwymiadau'n deillio o benderfyniadau'r flwyddyn gyfredol y mae ei effaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – i'w godi ar Warged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau yn y DIaGC fel rhan o Gostau Annosbarthedig;
    - cost llogau – y cynnydd disgwyliedig yng ngwerth presennol ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt symud flwyddyn yn nes at gael eu talu – i'w godi ar linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC;
    - elw disgwyliedig ar asedau – yr elw blynyddol o fuddsoddi o'r gronfa asedau i'w briodoli i'r Cyngor, ar sail cyfartaledd yr elw hirdymor disgwyliedig – i'w gredydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC;
    - enillion / colledion ar setliadau a chwtogiadau – canlyniad camau i ryddhau'r Cyngor o ymrwymiadau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwyliedig y dyfodol neu gronni buddiannau cyflogeion – i'w ddebydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau yn y DIaGC fel rhan o Gostau Annosbarthedig;
    - enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn yr atebolrwydd pensiynau clir sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â'r hyn a dybiwyd ym mhrisiad diwethaf yr actiwari neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu tybiaethau – i'w codi ar y Pensiynau Wrth Gefn;
    - cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa Bensiynau – arian parod a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i dalu am ymrwymiadau; heb eu cyfrif fel traul.

Mewn cysylltiad â budd-daliadau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn codi'r swm sydd i'w dalu gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn ar weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, mae hyn yn golygu bod neilltuadau arian i ac o'r Pensiynau Wrth Gefn i ddileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeol, a'u disodli gyda debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr, ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Trwy hynny mae'r gweddill negyddol sydd yn y Pensiynau Wrth Gefn yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol / HRA o orfod cyfrif am fudd-daliadau ymddeol ar sail llifau arian, yn hytrach nag fel buddiannau, sy'n cael eu hennill gan gyflogeion.

Budd-daliadau Dewisol

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig hefyd i wneud dyfarniadau dewisol o fudd-daliadau ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Caiff amcangyfrif o unrhyw ymrwymiadau fydd yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) ei gronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a'i gyfrif gan ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r pethau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd cyfnod yr adroddiad a dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Mae modd nodi dau fath o ddigwyddiad:

a) y rhai sy'n rhoi tystiolaeth o amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad – caiff y Datganiad Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
b) y rhai sy'n arwyddo amgylchiadau a gododd ar ôl cyfnod yr adroddiad – ni chaiff y Datganiad Cyfrifon yn ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath ond, pan fyddai effaith categori o ddigwyddiad yn sylweddol, caiff natur y digwyddiadau ac amcangyfrif o'u heffaith ariannol ei ddadlennu yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi'n cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

2. OFFERYNNAU ARIANNOL

Ymrwymiadau Ariannol

Caiff ymrwymiadau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur i ddechrau am werth teg a'u dwyn ymlaen fel cost wedi'i hamorteiddio. Caiff taliadau blynyddol i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC, am log taladwy, eu seilio ar swm yr ymrwymiad sy'n cael ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â chyfradd log effeithiol yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd bod sy'n disgowntio'n union amcangyfrif o daliadau arian parod y dyfodol yn ystod oes yr offeryn, i'r swm yr oedd ar adeg ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm sy'n cael ei gyflwyno ar y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd heb ei dalu (ynghyd â llog cronedig); a'r llog i'w godi ar y DIaGC yw faint sydd i'w dalu am y flwyddyn, fel y penderfynwyd yn y cytundeb benthyciad.
Caiff enillion a cholledion ar adbrynu neu dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar eu credydu neu ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC ym mlwyddyn adbrynu / setlo. Fodd bynnag, pan fo adbrynu wedi digwydd fel rhan o ad-drefnu'r portffolio benthyciadau, sy'n golygu newid neu gyfnewid offerynnau presennol, caiff y premiwm neu ddisgownt eu tynnu o, neu ychwaneg at, gost y benthyciad newydd neu addasedig wedi'i amorteiddio, a chaiff y dibrisiant i'r DIaGC ei wasgaru dros fywyd y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd log effeithiol.

Pan godwyd premiymau a disgowntiau ar y DIaGC, mae rheoliadau'n caniatáu gwasgaru'r effaith ar Gronfa'r Cyngor / HRA dros flynyddoedd a ddaw. Mae gan y Cyngor bolisi o wasgaru'r cynnydd neu golled dros weddill cyfnod y benthyciad ar gyfer y premiwm oedd yn daladwy neu ddisgownt oedd yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu (heblaw yn achos HRA lle mae credyd / debyd dros oes y benthyciad gwreiddiol, hyd at uchafswm o ddeng mlynedd). Caiff cysoni rhwng symiau a godwyd ar y DIaGC â'r taliad clir sydd ei angen yn erbyn Gweddill Cronfa'r Cyngor / HRA ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu'n ddau fath:

- benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy (fel buddsoddiadau, dyledwyr hirdymor a masnachol) – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu bendant, ond sydd heb eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedau ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris dyfynedig y farchnad a/neu heb gan daliadau sefydlog neu bendant.

Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy

Caiff benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, a chânt eu mesur i ddechrau am werth teg. Cânt eu mesur yn sylweddol fel eu cost wedi'i hamorteiddio. Caiff credydau blynyddol i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC, am log derbyniadwy, eu seilio ar swm yr ased sy'n cael ei ddwyn ymlaen, wedi ei luosi â chyfradd log effeithiol yr offeryn ariannol. Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor, y swm sy'n cael ei gyflwyno ar y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd heb ei dderbyn (ynghyd â llog cronedig), a llog a gredydwyd i'r DIaGC yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn, fel y penderfynwyd yn y cytundeb benthyciad.

Pan nodwyd bod asedau wedi cael eu hamharu, oherwydd tebygolrwydd yn deillio o ddigwyddiad y gorffennol na fydd taliadau dyladwy dan y benthyciad contract yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ddibrisio a chodi ar y gwasanaeth perthnasol (am symiau derbyniadwy penodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC. Caiff y golled amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen a gwerth presennol llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi'i ostwng ar gyfradd log effeithiol wreiddiol yr ased.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddatgydnabod yr ased eu credydu neu ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC.

Asedau ar gael i'w Gwerthu

Caiff asedau ar gael i'w gwerthu eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, a chânt eu mesur i ddechrau a'u dwyn ymlaen am werth teg. Pan fo gan yr ased daliadau sefydlog neu bendant, caiff credydau blynyddol i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC am log derbyniadwy, eu seilio ar gost yr ased wedi'i hamorteiddio a'i lluosi â chyfradd log effeithiol yr offeryn. Pan nad oes unrhyw daliadau sefydlog neu bendant, caiff incwm (e.e. difidendau) ei gredydu i'r DIaGC pan fydd yn dod yn swm derbyniadwy gan y Cyngor.

Caiff asedau eu cynnal ar y Fantolen am werth teg. Caiff gwerthoedd eu seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- offerynnau gyda phrisiau dyfynedig y farchnad – pris y farchnad
- offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol
- cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau dyfynedig y farchnad – gwerthusiad annibynnol o brisiadau cwmnïau.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso gan gofnod yn y Gronfa ar gael i'w Gwerthu a chaiff y cynnydd / colled ei gydnabod yn y Gwarged neu Ddiffyg wrth Adbrisio Asedau Ariannol ar gael i'w Gwerthu. Yr eithriad yw pan gafwyd colledion amhariad – caiff y rhain eu debydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC, ynghyd ag unrhyw gynnydd / colled glir ar gyfer yr ased sydd wedi cronni yn y Gronfa ar gael i'w Gwerthu.

Pan nodwyd bod asedau wedi cael eu hamharu, oherwydd tebygolrwydd yn deillio o ddigwyddiad y gorffennol na fydd taliadau dyladwy dan y benthyciad contract yn cael eu gwneud (taliadau sefydlog neu bendant) neu fod gwerth teg yn disgyn islaw'r gost, caiff yr ased ei ddibrisio a chodi ar linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu bendant, caiff y golled amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen a gwerth presennol llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi'i ostwng ar gyfradd log effeithiol wreiddiol yr ased. Fel arall, caiff y golled amhariad ei fesur fel unrhyw ddiffyg mewn gwerth teg yn erbyn costau caffael yr offeryn (yn glir o unrhyw ad-daliad prifswm ac amorteiddiad).

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddatgydnabod yr ased eu credydu neu ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC, ynghyd ag unrhyw enillion neu golledion sydd wedi cronni a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gronfa ar gael i'w Gwerthu.

Pan nad oes modd mesur gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei ddwyn ymlaen am y gost (llai unrhyw golledion amhariad).

3. TROSI ARIAN TRAMOR

Pan fo'r Cyngor wedi mynd i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling, ar y gyfradd gyfnewid berthnasol ar ddyddiad y trafodiad. Pan fo symiau mewn arian tramor heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn, cânt eu hail-drosi ar y gyfradd cyfnewid ar 31 Mawrth. Caiff enillion neu golledion canlyniadol eu cydnabod yn llinell Cyllid ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC

4. GRANTIAU A CHYFRANIADAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau a chyfraniadau cysylltiedig â gwariant cyfalaf a chyllid eu cyfrif ar sail croniadau, a'u cydnabod yn y DIaGC fel incwm, heblaw i'r graddau bod amod ar y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyngor wedi ei fodloni. Pan gafwyd grant neu gyfraniad ac amodau'n dal i ddisgwyl sylw ar ddyddiad y fantolen, caiff y grant neu gyfraniad ei gydnabod fel credydwr (cyllid) a derbyniadau grantiau cyfalaf o flaen llaw (cyfalaf). Pan fodlonwyd amodau, caiff y grant neu gyfraniad ei gredydu i linell y gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau cyllid priodoledig) neu Drethi ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau cyllid heb eu diogelu a holl grantiau cyfalaf) yn y DIaGC.

Caiff unrhyw grant neu gyfraniad cyllid sydd heb ei ddefnyddio ei drosglwyddo i adnoddau wrth gefn a glustnodwyd trwy'r Datganiad Symudiad Cronfeydd. Pan gydnabuwyd grant neu gyfraniad cyfalaf fel incwm yn y DIaGC, ac y gwnaed y gwariant sydd i'w gyllido, caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf gan adlewyrchu cymhwyso adnoddau cyfalaf i gyllido gwariant. Os na wnaed y gwariant sydd i'w gyllido o'r grant, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig. Pan gaiff y gwariant ei wneud yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

5. ASEDAU TREFTADAETH – Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol

Caiff Asedau Treftadaeth y Cyngor eu cadw yn Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yng Nghanolfan Dreftadaeth y Bers, mewn safleoedd archeolegol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn Neuadd y Dref yn Wrecsam. Mae naw casgliad o asedau treftadaeth sy'n cael eu dal i ategu prif amcan Gwasanaeth Treftadaeth y Cyngor, h.y. cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hanes a chylch lleol y Cyngor a gwybodaeth amdano. Caiff Asedau Treftadaeth eu cydnabod a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion adbrisio) yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor ar eiddo, peiriannau ac offer. Fodd bynnag, caiff rhai o'r rheolau mesur eu llacio o ran asedau treftadaeth fel y manylir isod. Caiff y polisïau cyfrifyddu cysylltiedig ag asedau treftadaeth sy'n cael eu ystyried i fod yn cynnwys elfennau asedau treftadaeth anniriaethol eu cyflwyno isod hefyd. Caiff casgliadau asedau treftadaeth y Cyngor eu cyfrif fel a ganlyn.

a) Addurndlysau Dinesig

Mae casgliad yr addurndlysau dinesig yn cynnwys cadwyni a bathodynnau maerol a byrllysg. Caiff yr eitemau hyn eu nodi ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant Bonhams o Gaer ym mis Medi 2004, a adolygwyd bob blwyddyn gan staff y Cyngor. Ystyrir bod bywyd eitemau'r addurndlysau dinesig yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Mae'r casgliad yn gymharol sefydlog a chaffaeliadau a rhoddion yn brin. Pan fyddant yn digwydd, caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost, a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad curaduron yr amgueddfa, yn unol â pholisi'r awdurdod ar brisio addurndlysau dinesig.

b) Casgliad Gwrthrychau'r Amgueddfa

Archeoleg

Nifer bach o eitemau sydd yn y casgliad arteffactau archeolegol. Caiff dwy ohonynt eu hysbysu ar y Fantolen; Celc Llai o ddarnau arian am y prisiad yswiriant (sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn) a Chelc yr Orsedd, a brynwyd yn 2003, sy'n cael ei gynnwys am ei gost hanesyddol. O ran eitemau eraill yn y casgliad, mae'r Cyngor yn ystyried y cael byddai prisiadau'n golygu cost anghymesur mewn cymhariaeth â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol y Cyngor. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau sy'n cael eu dal a diffyg gwerthoedd cyffelyb. Felly, nid yw'r Cyngor yn cydnabod y rhain fel asedau ar y Fantolen.

Ystyrir bod bywyd yr asedau yn y casgliad hwn yn amhenodol ac nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i godi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau'n cael eu darparu gan briswyr allanol a thrwy gyfeirio at farchnadoedd priodol gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Hanes Cymdeithasol

Bwriad y casgliad hanes cymdeithasol yw cynrychioli bywyd bob dydd pobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ymhlith themâu'r casgliad mae: y cartref; crefydd; bywyd gwaith; chwaraeon a gweithgareddau hamdden; cyfnodau bywyd, iechyd; clybiau a chymdeithasau lleol. Mae'r casgliad yn cynnwys nifer bach o eitemau o arian hynafol ac eitemau maerol a chânt eu hysbysu ar y Fantolen am y gost neu brisiad yswiriant, a seiliwyd ar werthoedd y farchnad. Caiff y prisiadau yswiriant hyn eu hadolygu bob blwyddyn. Ystyrir bod bywyd yr asedau yn y casgliad yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau'n cael eu darparu gan briswyr allanol a thrwy gyfeirio at farchnadoedd priodol gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Hanes Diwydiannol ac Economaidd

Clociau a Watshis

Caiff y rhain eu hysbysu ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant, seiliedig ar werthoedd y farchnad ac a aseswyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Treftadaeth o werth £20k. Caiff y prisiad ei adolygu bob blwyddyn. Ystyrir bod bywyd yr asedau yn y casgliad yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau'n cael eu darparu gan briswyr allanol a thrwy gyfeirio at farchnadoedd priodol gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Gwrthrychau Amrywiol

Mae'r casgliad yn cynnwys cabinet nwmismatig Edwardaidd a beic modur y Brodyr Powell a brisiwyd yn ôl prisiad yswiriant ac a adolygir bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai cael prisiadau am fwyafrif llethol ei gasgliad gwrthrychau amrywiol, gan gynnwys peiriannau argraffu ac eitemau gardd Fictoraidd sy'n cael eu dal gan y gwasanaeth treftadaeth, yn golygu cost anghymesur mewn cymhariaeth â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol y Cyngor. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau sy'n cael eu dal a diffyg gwerthoedd cyffelyb. Heblaw nifer bach o eitemau a gafwyd yn ddiweddar ac a gydnabuwyd am eu cost hanesyddol, nid yw'r Cyngor yn cydnabod y casgliad hwn o asedau treftadaeth ar y Fantolen.

Eto caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost neu, os cawsant eu gwaddoli neu roddi am ddim cydnabyddiaeth, yn ôl prisiad.

Celfyddyd Gain ac Addurnol

Mae'r casgliad celfyddyd yn cynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a gweithiau celfyddydol a chânt eu hysbysu ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant, seiliedig ar werth y farchnad. Mae rhaglen brisio pum mlynedd ac ystyrir bod bywyd yr eitemau yn y casgliad yn amhenodol a bod ganddynt werth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau dilynol yn cael eu darparu gan briswyr allanol, gan gyfeirio at farchnadoedd priodol i'r paentiadau a defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Byd Natur

Ar hyn o bryd mae'r amgueddfa'n dal casgliad bach o wrthrychau byd natur ar ffurf söoleg gadwedig a daeareg.

Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai cael prisiadau'n golygu cost anghymesur mewn cymhariaeth â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol y Cyngor. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau sy'n cael eu dal a diffyg gwerthoedd cyffelyb. Felly, nid yw'r Cyngor yn cydnabod yr asedau hyn ar y Fantolen.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau dilynol yn cael eu darparu gan briswyr allanol, gan gyfeirio at farchnadoedd priodol a defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Hanes Milwrol

Caiff y casgliad medalau ei hysbysu ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant, seiliedig ar werthoedd y farchnad. Caiff y prisiadau hyn eu hadolygu bob blwyddyn. Caiff bywyd yr asedau yn y dosbarth hwn a'r casgliad medalau ei ystyried yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau dilynol yn cael eu darparu gan briswyr allanol, gan gyfeirio at farchnadoedd priodol a defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

Casgliad Pêl-droed Cymru

Mae'r casgliad pêl-droed yn cynnwys casgliad John Charles ac eitemau eraill pêl-droed Cymru. Caiff y rhain eu hysbysu ar y Fantolen yn ôl prisiad yswiriant, seiliedig ar werthoedd y farchnad. Caiff y prisiadau hyn eu hadolygu bob blwyddyn. Caiff bywyd yr asedau yn y casgliad pêl-droed ei ystyried yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

Daw caffaeliadau trwy brynu neu drwy rodd. Caiff caffaeliadau eu cydnabod i ddechrau am y gost a chaiff rhoddion eu cydnabod yn ôl prisiad, gyda phrisiadau dilynol yn cael eu darparu gan briswyr allanol, gan gyfeirio at farchnadoedd priodol a defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o arwerthiannau.

c) Safleoedd Archeolegol

Mae safleoedd yn cynnwys Pwll Glo a Phen Gwaith y Bers; Pyllau Plwm y Mwynglawdd; Castell Holt; darnau o Glawdd Offa yn Amlosgfa Wrecsam ac Ysgol Uwchradd Rhiwabon; a darnau o Glawdd Wat yn Ysgol Clawdd Wat, Garden Village a Mynwent Wrecsam. Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai cael prisiadau o'i safleoedd archeolegol yn golygu cost anghymesur mewn cymhariaeth â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol y Cyngor. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau sy'n cael eu dal a diffyg gwerthoedd cyffelyb. Felly, nid yw'r Cyngor yn cydnabod ei safleoedd archeolegol fel asedau ar y Fantolen.

Fel arfer, nid yw'r Cyngor yn prynu unrhyw safleoedd archeolegol.

d) Cerfluniau a Chofgolofnau

Ym marn y Cyngor, nid oes modd prisio cerfluniau a chofgolofnau oherwydd eu natur amrywiol ac unigryw'n aml. Ac eithrio'r Bwa, sy'n cael ei gydnabod am gost hanesyddol, nid oes gwybodaeth ar gael am y gost ac nid yw dulliau prisio confensiynol yn ddigon dibynadwy. Byddai cost cael prisiadau am yr eitemau hyn yn anghymesur mewn cymhariaeth â'r budd a fyddai'n deillio.

Caiff bywyd y Bwa ei ystyried yn amhenodol gyda gwerth gweddilliol mawr; felly, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol codi am ddibrisiant.

e) Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – Stryt Las, Johnstown

Ym marn y Cyngor, nid oes modd prisio'r SoDdGA oherwydd ei natur unigryw. Nid oes gwybodaeth ar gael am y gost ac nid yw dulliau prisio confensiynol yn ddigon dibynadwy. Mae'r Cyngor o'r farn y byddai costau cael y prisiad ar gyfer yr eitem hon yn anghymesur mewn cymhariaeth â'r budd a fyddai'n deillio.

Asedau Treftadaeth – Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflogi priswyr allanol i ddarparu prisiadau yswiriant newydd ar gyfer yr asedau treftadaeth hynny a hysbysir ar adeg prisiad yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13. Caiff symiau cludo asedau treftadaeth eu hadolygu pan fo tystiolaeth o amhariad ar asedau treftadaeth, e.e. pan fo eitem wedi dioddef dirywiad ffisegol neu doriad, neu pan fo amheuon ynghylch ei dilysrwydd. Caiff unrhyw amhariad ei gydnabod a'i fesur yn unol â pholisïau cyffredinol y Cyngor ar amhariad – gwelwch nodyn 18 ar dudalennau 55 i 57 y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Yn achlysurol, bydd y Gwasanaeth Treftadaeth yn cael gwared ar asedau treftadaeth sydd o darddiad amheus neu sy'n anaddas i'w harddangos yn gyhoeddus. Caiff derbyniadau o eitemau o'r fath eu hystyried yn unol â darpariaethau cyffredinol y Cyngor perthnasol i waredu eiddo, peiriannau ac offer. Caiff enillion gwaredu eu dadlennu ar wahân yn y nodiadau ar y datganiadau ariannol a chânt eu cyfrif yn unol â gofynion cyfrifyddu statudol perthnasol i wariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf (eto gwelwch nodyn 18 ar dudalennau 55 i 57 y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol).

6. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau heblaw arian, sydd heb fod â sylwedd diriaethol, ond sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd), ei gyfalafu pan fo disgwyl i fuddiannau economaidd y dyfodol neu obeithion gwasanaeth ddeillio o'r ased anniriaethol i'r Cyngor.

Caiff asedau a gynhyrchwyd yn fewnol eu cyfalafu, pan fo modd dangos bod y prosiect yn dechnegol ymarferol, a bod bwriad i'w orffen (gydag adnoddau digonol ar gael), a bydd y Cyngor yn gallu cynhyrchu buddiannau economaidd y dyfodol neu wireddu gobeithion gwasanaeth trwy allu gwerthu neu ddefnyddio'r ased. Caiff gwariant ei gyfalafu pan fo modd ei fesur, yn ddibynadwy, fel rhywbeth i'w briodoli i'r ased a chaiff ei gyfyngu i'r hyn a gafwyd i yn ystod y cyfnod datblygu (nid oes modd cyfalafu gwariant ar ymchwil). Ni chaiff gwariant ar ddatblygu gwefannau ei gyfalafu os mai bwriad y wefan yw hyrwyddo neu hysbysebu nwyddau neu wasanaethau'r Cyngor yn unig, neu'n bennaf.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur i ddechrau am y gost. Ni chaiff symiau eu hadbrisio heblaw pan fo modd penderfynu gwerth teg asedau'r Cyngor trwy gyfeirio at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw ased anniriaethol sy'n cyrraedd y maen prawf ac, felly, cânt eu dwyn ymlaen am y gost wedi'i hamorteiddio. Caiff swm dibrisiadwy ased anniriaethol ei amorteiddio dros ei oes fuddiol i linellau'r gwasanaethau perthnasol yn y DIaGC. Caiff ased ei brofi am amhariad pryd bynnag fo arwydd y gallai fod amhariad ar yr ased – caiff unrhyw golledion cydnabyddedig eu rhoi ar linellau'r gwasanaethau perthnasol yn y DIaGC. Caiff unrhyw gynnydd neu golled sy'n deillio wrth wared neu roi heibio ased anniriaethol ei bostio ar linell Gwariant Gweithredu Arall yn y DIaGC.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, nid yw amorteiddiad, colledion amhariad ac enillion a cholledion gwared yn cael effeithio ar Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA. Felly, caiff yr enillion a cholledion eu gwyrdroi o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, a'u rhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (o ran unrhyw dderbynion gwerthiant dros £10k) yn y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn.

7. RHESTRI EIDDO A CHONTRACTAU HIRDYMOR

Caiff stoc a nwyddau sydd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn eu cofnodi am bris cost, heblaw am y nwyddau yn Nepo Ffordd yr Abaty, lle caiff y nwyddau eu dal am bris cost ar gyfartaledd. Mae hyn yn wyriad oddi wrth ofynion y Cod sy'n gofyn dangos ar yr isaf o gost a gwerth gwireddadwy net. Fodd bynnag, nid yw'r symiau dan sylw'n cael eu hystyried yn sylweddol**.**

Caiff contractau hirdymor eu cyfrif ar sail codi gwerth gwaith a gwasanaethau a dderbyniwyd dan y contract yn ystod y flwyddyn arianno ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau.

8. EIDDO BUDDSODDI

Eiddo buddsoddi yw eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n unig i gael rhenti a/neu i gynyddu cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn wir os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso cyflenwi gwasanaethau, neu gynhyrchu nwyddau, neu'n cael ei ddal i'w werthu.

Caiff eiddo buddsoddi ei fesur, i ddechrau am y gost, ac wedyn am werth teg, ar sail y swm y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon deallus ar hyd braich. Ni chaiff eiddo ei ddibrisio ond ei adbrisio bob blwyddyn, yn ôl cyflwr y farchnad, ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion wrth adbrisio eu rhoi ar linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC. Caiff enillion a cholledion wrth waredu'r un driniaeth.

Caiff rhenti a dderbyniwyd mewn cysylltiad ag eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Cyllido ac Incwm o Fuddsoddiad ac arwain at gynnydd yng Ngweddill y Gronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion adbrisio a gwaredu effeithio ar Weddill y Gronfa Gyffredinol. Felly, caiff yr enillion a cholledion eu gwyrdroi o Weddill y Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, a'u rhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (o ran unrhyw dderbynion gwerthiant dros £10k) yn y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn.

9. GWEITHREDIADAU AC ASEDAU SY'N CAEL EU RHEOLI AR Y CYD

Gweithrediadau sy'n cael eu rheoli ar y cyd yw gweithgareddau a wneir gan y Cyngor ar y cyd â phartïon eraill, sy'n golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r partïon eraill, yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau sy'n cael eu rheoli ganddo a'r ymrwymiadau arno, ac yn debydu a chredydu'r gwariant ganddo, a chyfran yr incwm sy'n dod iddo o'r gweithrediad i'r DIaGC.

Asedau sy'n cael eu rheoli ar y cyd yw eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar sy'n cael eu rheoli ar y cyd rhwng y Cyngor a phartïon eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i gael buddiannau i'r partïon. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cyfrif am ei gyfran ef yn unig o'r asedau sy'n cael eu rheoli ar y cyd, ei ymrwymiadau a'i dreuliau ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill o ran ei fudd yn y fenter ar y cyd ac incwm a ddaw iddo o'r fenter.

10. PRYDLESI

Caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi cyllidol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl beryglon a gwobrau cysylltiedig â pherchenogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Caiff holl brydlesi eraill eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

Pan fo prydles yn cwmpasu tir ac adeiladau, caiff elfennau'r tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân ar gyfer dosbarthu.

Caiff trefniadau sydd heb fod â statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased, yn gyfnewid am daliad, eu hystyried dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesi Cyllidol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer sy'n cael eu dal dan brydlesi cyllidol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles am ei werth teg, wedi'i fesur ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, os ydynt yn is). Caiff yr ased sy'n cael ei gydnabod ei gyfateb gan ymrwymiad i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol dechreuol y Cyngor eu hychwanegu at swm dwyn ymlaen yr ased. Caiff premiymau sy'n cael eu talu wrth fynd i'r brydles mae'n cael eu defnyddio ar gyfer dibrisio ymrwymiad y brydles. Caiff rhenti digwyddiadol eu codi fel treuliau yn y cyfnodau lle cânt eu talu.

Caiff taliadau prydles eu dosrannu rhwng:

a) taliad am gaffael y budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – yn cael ei gymhwyso i ddibrisio ymrwymiadau'r brydles, a
b) taliad cyllido (i'w ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer sy'n cael eu cydnabod dan brydlesi cyllidol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisïau sy'n cael eu cymhwyso'n gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant yn ystod cyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nac amcangyfrif o oes fuddiol yr ased (pan nad yw perchenogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol ar y Cyngor i gynyddu Treth y Cyngor i dalu am ddibrisiant neu golledion adbrisio ac amhariad sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, caiff cyfraniad blynyddol darbodus ei wneud o gronfeydd cyllid tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig, yn unol â gofynion statudol. Felly, mae cyfraniad at Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn cael ei wneud yn lle dibrisiant a cholledion adbrisio ac amhariad, trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesi Gweithredu

Caiff rhenti sy'n cael eu talu dan brydlesi gweithredu eu codi ar y DIaGC fel traul ar y gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar ar brydles. Caiff taliadau eu codi ar sail linol, dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. bod cyfnod rhydd o rent ar ddechrau'r brydles).

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesi Cyllidol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles gyllidol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, caiff yr ased perthnasol ei ddileu o'r Fantolen fel gwaredïad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm dwyn ymlaen yr ased ar y Fantolen (boed yn eiddo, peiriannau ac offer neu asedau'n cael eu dal i'w gwerthu) ei ddileu i linell Gwariant Gweithredu Arall y DIaGC fel rhan o'r cynnydd neu golled wrth wared. Caiff cynnydd, yn cynrychioli buddsoddiad clir y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y DIaGC hefyd fel rhan o'r cynnydd neu golled wrth wared (h.y. ei ddychwelyd fel elw yn erbyn gwerth dwyn ymlaen yr ased ar adeg gwaredu), yn cyfateb i ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhenti prydlesi derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

a) taliad am gaffael y budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – yn cael ei gymhwyso i ddibrisio dyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiwm a dderbyniwyd), a
b) incwm cyllid (i'w gredydu i linell Cyllid ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC).

Nid yw statud yn caniatáu i gynnydd sy'n cael ei gredydu i'r DIaGC wrth wared gynyddu Gweddill y Gronfa Gyffredinol ac mae'n ofynnol ei drin fel derbyniad cyfalaf. Lle derbyniwyd premiwm, caiff hwn ei symud o Weddill y Gronfa Gyffredinol i'r Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Pan fo'r swm dyledus mewn cysylltiad ag ased y brydles i'w setlo trwy dalu rhenti mewn blynyddoedd ariannol i ddod, caiff hwn ei symud o Weddill y Gronfa Gyffredinol i'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth Gefn yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Pan gaiff rhenti eu derbyn yn y dyfodol, caiff yr elfen ar gyfer y derbyniad cyfalaf am waredu'r ased ei defnyddio i ddibrisio dyledwr y brydles. Ar yr adeg hon, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n daliad yn erbyn treth y cyngor, oherwydd bod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer codi cyfalaf. Felly, caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Weddill y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Prydlesi Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, caiff yr ased ei gadw ar y Fantolen. Caiff incwm rhent ei gredydu i linell Gwariant Gweithredu Arall y DIaGC. Caiff credydau eu gwneud ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. bod premiwm yn cael ei dalu ar ddechrau'r brydles). Caiff costau uniongyrchol dechreuol sy'n cael eu talu wrth drafod telerau a threfnu'r brydles eu hychwanegu at swm dwyn ymlaen yr ased perthnasol a'i godi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

11. COSTAU CYFFREDINOL A GWASANAETHAU ATEGOL

Neilltuwyd holl gostau gwasanaeth ategol a chostau cyffredinol, heb eu diffinio fel Costau Annosbarthedig neu Graidd Democrataidd Corfforaethol, yn llawn i wasanaethau yn unol ag egwyddorion prisio Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau CIPFA 2011/12 (SeRCOP) (gynt yn dwyn yr enw Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau). Sail y neilltuad yn bennaf oedd y gwir amser a dreuliwyd gan swyddogion ar bob gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol. Dosrannwyd costau adeiladau gweinyddol ar sail arwynebedd y llawr ym meddiant pob gwasanaeth.

Costau Annosbarthedig

Dosbarth costau yw hwn a ddiffiniwyd gan BVACOP. Mae'n cynnwys:

a) costau / (enillion) gwasanaethu'r gorffennol, gan gynnwys setliadau a chwtogiadau cysylltiedig â budd-daliadau ymddeol
b) costau cysylltiedig â chyfrannau cyfleusterau TG heb eu defnyddio
c) costau cyfrannau asedau hirdymor eraill heb eu defnyddio ond nad oes modd eu sylweddu

Craidd Democrataidd Corfforaethol

Caiff holl gostau cysylltiedig â gweithgaredd aelodau a rheoli corfforaethol eu codi ar y gwasanaeth hwn.

12. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Asedau diriaethol yw eiddo, peiriannau ac offer sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau, eu llogi i eraill neu at ddibenion gweinyddol ac mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol.

Cydnabod: caiff gwariant y mae modd ei fesur yn ddibynadwy ar gaffael, adeiladu, gwella, amnewid rhannau, neu wasanaethu'r ased ei gyfalafu ar sail croniadau, ond iddo fod yn debygol y bydd buddiannau economaidd y dyfodol neu obeithion gwasanaeth cysylltiedig â'r eitem yn deillio i'r Cyngor a bod modd mesur cost neu werth teg yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal ond heb ychwanegu at allu'r ased greu buddiannau economaidd y dyfodol neu obeithion gwasanaeth (h.y. gwaith trwsio a chynnal) ei godi fel traul pan fydd yn cael ei dalu.

Mesur: caiff asedau eu mesur i ddechrau am y gost, yn cynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau i'w priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad a chyflwr angenrheidiol iddo allu gweithredu yn y ffordd a fwriadwyd gan y rheolwyr.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca sy'n cael eu talu wrth adeiladu asedau.

Caiff asedau rhoddedig eu mesur i ddechrau am werth teg. Y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd ei gredydu i linell Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol y DIaGC, oni bai y gwnaed y rhodd yn amodol. Cyn bodloni amodau, caiff y cynnydd ei ddal yn y Cyfrif Asedau Rhoddedig. Pan gaiff enillion eu credydu i'r DIaGC, cânt eu gwyrdroi o Weddill y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Yna caiff asedau eu dwyn ymlaen ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol ddibrisiedig
- anheddau'r cyngor – gwerth teg, yn cael ei bennu gan ddefnyddio sail gwerth defnydd sy'n bodoli o ran tai cymdeithasol (EUV-SH)
- holl asedau eraill – gwerth teg, yn cael ei bennu fel y swm fyddai'n cael ei dalu am yr ased gyda'i ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV)

Pan nad oes unrhyw dystiolaeth o werth teg seiliedig ar y farchnad oherwydd natur arbenigol yr ased, caiff cost amnewid ddibrisiedig (DRC) ei defnyddio fel amcangyfrif o werth teg.

O ran asedau heblaw eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau), caiff sail cost hanesyddol ddibrisiedig ei defnyddio fel dirprwy dros werth teg.

Caiff asedau a roddwyd ar y Fantolen am werth teg eu hadbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth ar ddiwedd y flwyddyn ond, fel lleiafswm, bob pum mlynedd. Caiff cynnydd mewn prisiadau eu cyfateb gan gredydau i'r Gronfa Adbrisio i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Fel eithriad, gellid credydu enillion i'r DIaGC lle maent yn codi oherwydd gwrthdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan gaiff gostyngiadau mewn gwerth eu nodi, cânt eu cyfrif fel a ganlyn:

- pan fo gweddill enillion adbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio, caiff swm cludo'r ased ei ddibrisio ar gyfer y gweddill hwnnw (hyd at faint yr enillion sydd wedi cronni)
- pan nad oes unrhyw weddill yn y Gronfa Adbrisio neu weddill annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ddibrisio ar gyfer llinell y gwasanaeth perthnasol yn y DIaGC.

Mae'r Gronfa Adbrisio'n cynnwys enillion adbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithrediad ffurfiol. Cyfunwyd enillion yn deillio cyn y dyddiad hwnnw â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad ar yr ased. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrif y gall unrhyw wahaniaethau fod yn sylweddol, caiff swm adenilladwy'r ased ei amcangyfrif yw a, phan fo llai na swm cludo'r ased, caiff colled amhariad ei chydnabod am y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif fel a ganlyn:

- pan fo gweddill enillion adbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio, caiff swm cludo'r ased ei ddibrisio ar gyfer y gweddill hwnnw (hyd at faint yr enillion sydd wedi cronni)
- pan nad oes unrhyw weddill yn y Gronfa Adbrisio neu weddill annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ddibrisio ar gyfer llinell y gwasanaethau perthnasol yn y DIaGC.

Pan gaiff colled amhariad ei gwyrdroi wedyn, caiff y gwyrdroad ei gredydu i linell gwasanaethau perthnasol yn y DIaGC, hyd at faint y golled wreiddiol, wedi'i haddasu am ddibrisiant a fyddai wedi cael ei godi pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

Dibrisiant

Caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer dibrisiant ar holl asedau eiddo, peiriannau ac offer trwy d dyraniad trefnus o'u symiau dibrisiadwy dros eu bywydau defnyddiol. Caiff asedau heb fywyd defnyddiol cyfyngedig derfynadwy (h.y. tir rhydd-ddaliol a rhai Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau'n cael eu hadeiladu) eu heithrio. Caiff dibrisiant ei gyfrif ar y seiliau canlynol:

- anheddau'r cyngor ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes fuddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, cyfarpar, dodrefn ac offer – canran o werth pob dosbarth o asedau ar y Fantolen, yn ôl cyngor swyddog gyda chymwysterau priodol
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnod o 50 i 60 mlynedd.

Pan fo gan eitem o eiddo, peiriannau ac offer gydrannau sylweddol gyda chostau sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Caiff enillion adbrisio eu dibrisio hefyd, gyda swm hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth presennol a godwyd ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy werthiant, yn hytrach na thrwy ddal i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased sy'n cael ei Ddal i'w Werthu. Caiff yr ased ei adbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu, ac yna'i ddwyn ymlaen fel yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol mewn gwerth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei rhoi ar linell Gwariant gweithredu Arall y DIaGC. Caiff cynnydd gwerth teg ei gydnabod yn unig hyd at faint unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiant ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau mwyach yn cyrraedd y meini prawf i'w ddosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau anghyfredol a'u prisio fel yr isaf o'u swm cludo cyn eu dosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu; wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu adbrisiadau a fyddai wedi cael ei gydnabod pe na baent wedi cael eu dosbarthu fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau sydd i gael eu rhoi heibio neu ddiddymu eu hailddosbarthu'n fel Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan fo ased yn cael ei waredu neu ddigomisiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (boed yn eiddo, peiriannau ac offer neu Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu) ei ddileu ar linell Gwariant Gweithredu Arall y DIaGC fel rhan o'r cynnydd neu golled wrth waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai) eu credydu i'r un llinell yn y DIaGC fel rhan o'r cynnydd neu golled wrth waredu (h.y. eu dibrisio ar gyfer gwerth cludo'r ased ar adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbrisio sydd wedi cronni ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbyniwyd am warediad dros £10k eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol credydu gweddill derbyniadau i'r Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wrth Gefn, ac yna nid oes modd eu defnyddio heblaw ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (y gofyniad codi cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Nid yw gwerth dibrisiedig gwarediadau yn cael ei godi ar dreth y cyngor / rhenti tai, oherwydd bod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer codi cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

13. MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)

Cytundeb yw contract Menter Cyllid Preifat i dderbyn gwasanaeth, lle bo'r cyfrifoldeb dros gyflenwi'r eiddo, peiriannau ac offer angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth yn trosglwyddo i'r contractwr Menter Cyllid Preifat. Gan mai'r dyb yw y bydd y Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu dan ei gynllun Menter Cyllid Preifat ac y bydd perchenogaeth yr eiddo, peiriannau ac offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract heb daliad ychwanegol, mae'r Cyngor yn cludo'r asedau a ddefnyddiwyd dan y contract ar y Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Mantolwyd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau hyn am werth teg (ar sail costau prynu'r eiddo, peiriannau ac offer) trwy gydnabod atebolrwydd dros symiau dyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf. O ran cynllun Rheoli Gwastraff y Cyngor, a ddaeth yn weithredol yn ystod mis Medi 2009, dibrisiwyd yr atebolrwydd trwy gyfraniad cyfalaf dechreuol o £16.9m.

Caiff asedau anghyfredol a gydnabuwyd ar y Fantolen eu hadbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, peiriannau ac offer ym meddiant y Cyngor.

Caiff y symiau taladwy i'r gweithredwr Menter Cyllid Preifat bob blwyddyn eu dadansoddi'n bum elfen:

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – i'w debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- cost cyllid – taliad llog o 15.3% ar weddill yr atebolrwydd heb ei dalu ar y Fantolen, i'w ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC
- rhent digwyddiadol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo'n codi yn ystod y contract, i'w ddebydu i linell Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi'r DIaGC
- taliad tuag at yr atebolrwydd – i'w gymhwyso i ddibrisio atebolrwydd y Fantolen i'r gweithredwr Menter Cyllid Preifat
- costau adnewyddu cylchred oes – i'w gydnabod fel eiddo, peiriannau ac offer ar y Fantolen.

14. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU AMODOL

Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu gwneud os bydd digwyddiad sy'n rhoi ymrwymiad cyfreithiol neu ddeongliadol ar y Cyngor sydd angen setliad yn ôl pob tebyg trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth, a bod modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint yr ymrwymiad. Caiff darpariaethau eu codi fel traul ar linell y gwasanaeth priodol yn y DIaGC yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r ymrwymiad, ac yn cael eu mesur fel yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen o'r gwariant gofynnol i setlo'r ymrwymiad, gan ystyried peryglon ac ansicrwydd perthnasol.

Pan gaiff taliadau eu gwneud maes o law, cânt eu codi ar y ddarpariaeth ar y Fantolen. Caiff amcangyfrif o setliadau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan ddaw'n debygol na fydd angen taliad, caiff y ddarpariaeth ei gwrth-droi a'i chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Pan fo disgwyl i ran, neu'r cyfan, o'r taliad angenrheidiol i setlo darpariaeth gael ei adennill oddi wrth rywun arall (e.e. o hawliad yswiriant), caiff hyn ei gydnabod yn unig fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os yw fwy neu lai'n sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r ymrwymiad.

Rhwymedigaethau Amodol

Bydd rhwymedigaeth amodol yn codi pan fydd digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd ymrwymiad ar y Cyngor, na fydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau trwy ddigwyddiad, neu fel arall, pethau ansicr yn y dyfodol, heb fod yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi dan amgylchiadau pan fyddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen echlif adnoddau, neu nad oes modd mesur maint yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu dadlennu mewn nodyn ar y cyfrifon.

Asedau Amodol

Mae ased amodol yn codi pan fu digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd ased i'r Cyngor na fydd ei fodolaeth yn cael ei chadarnhau heblaw gan ddigwyddiad, neu fel arall, pethau ansicr yn y dyfodol, heb fod yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Ni chaiff asedau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu dadlennu mewn nodyn ar y cyfrifon pan fo'n debygol y bydd mewnlif buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth.

15. ADNODDAU WRTH GEFN

Mae'r Cyngor yn rhoi symiau penodol o'r neilltu fel adnoddau wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol, neu ar gyfer hapddigwyddiadau. Caiff adnoddau wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau allan o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Pan fo gwariant i'w gyllido o adnoddau wrth gefn yn cael ei wneud, mae'n cael ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, ar gyfer Gwarged neu Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau yn y DIaGC. Yna caiff yr adnoddau wrth gefn eu neilltuo'n ôl i Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel nad oes unrhyw daliad clir ar gyfer rhenti treth y cyngor / HRA am y gwariant. Caiff rhai adnoddau wrth gefn eu cadw ar gyfer rheoli'r prosesau cyfrifyddu o ran asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, budd-daliadau ymddeoliad a buddiannau cyflogeion ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor – caiff yr adnoddau hyn wrth gefn eu hesbonio yn y polisïau perthnasol.

16. GWARIANT CYLLIDOL SY'N CAEL EI GYLLIDO O GYFALAF TRWY STATUD

Codwyd gwariant yn ystod y flwyddyn y mae modd ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol, ond nad yw'n arwain at greu ased anghyfredol, fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y DIaGC yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu talu am y gwariant o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli, neu drwy gymryd benthyg, yna mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd o Weddill y Gronfa Gyffredinol / HRA i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godwyd fel nad oes unrhyw effaith ar renti treth y cyngor / HRA.

17. TRETH AR WERTH (TAW)

Caiff TAW sy'n daladwy ei gynnwys fel traul yn unig i'r graddau nad yw'n adenilladwy oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Eithriwyd TAW derbyniadwy o incwm.

18. LWFANSAU YMRWYMIAD LLEIHAU CARBON

Mae gofyn i'r Cyngor gyfranogi yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC). Ar hyn o bryd mae'r cynllun hwn yn ei gyfnod rhagarweiniol fydd yn para tan 31 Mawrth 2014. Mae gofyn i'r Cyngor brynu ac ildio lwfansau, yn ôl-weithredol ar hyn o bryd, ar sail allyriadau, h.y. caiff carbon deuocsid a gynhyrchir fel ynni ei ddefnyddio. Wrth i garbon deuocsid gael ei ryddhau (h.y. wrth i ynni gael ei ddefnyddio), caiff atebolrwydd a thraul eu cydnabod. Bydd yr atebolrwydd yn cael ei ryddhau trwy ildio lwfansau. Caiff yr atebolrwydd ei fesur fel yr amcangyfrif gorau o'r gwariant gofynnol i ateb yr ymrwymiad, fel arfer fel pris cyfredol y farchnad o nifer y lwfansau gofynnol i ateb yr ymrwymiad ar y dyddiad hysbysu. Caiff y gost i'r Cyngor ei chydnabod a'i hysbysu yng nghostau gwasanaethau'r Cyngor a'i rhannu ymhlith gwasanaethau ar sail treuliant ynni.

19. CYDNABOD DERBYNIADAU O DRAFODION HEBLAW CYFNEWID

Caiff asedau a derbyniadau'n deillio o drafodion heblaw cyfnewid eu cydnabod yn unol â gofynion Cyfrifyddu IAS 20 ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth a Dadlennu Cymorth y Llywodraeth, heblaw lle dehonglwyd neu addaswyd i gydweddu â'r sector cyhoeddus fel y manylwyd yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Heblaw Cyfnewid (Trethiant a Throsglwyddiadau)".

Trafodion Trethiant

Caiff asedau a derbyniadau'n deillio o drafodion trethiant eu cydnabod yn y cyfnod pan ddigwydd y digwyddiad trethadwy, ond bod yr asedau'n bodloni diffiniad ased ac yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer eu cydnabod fel ased.

Trafodion Heblaw Trethiant

Caiff asedau a derbyniadau'n deillio o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod pan ddaw'r trefniant trosglwyddo'n gyfrwymol. Nid yw gwasanaethau mewn nwyddau'n cael eu cydnabod. Pan fo amodau ar drosglwyddiad sydd, heb ei wireddu, yn gofyn bod y Cyngor yn dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd, mae'r Cyngor yn cydnabod atebolrwydd cyn cyflawni'r amod.

Sail Mesur Prif Ddosbarthiadau Cyllid o Drafodion Heblaw Cyfnewid

Caiff Cyllid Trethiant o Drafodion Heblaw Cyfnewid ei fesur fel y gwerth arian parod enwol, ac arian parod a chywerthoedd arian parod. Caiff asedau a derbyniadau a gydnabuwyd o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur fel gwerth teg yr asedau a gydnabuwyd fel yr oedd ar ddyddiad eu cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur fel eu gwerth enwol oni bai fod gwerth amser arian yn sylweddol, pan gaiff gwerth presennol ei ddefnyddio, wedi'i gyfrif gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio sy'n adlewyrchu'r perygl cynhenid wrth ddal yr ased; a
- Chaiff asedau heblaw arian eu mesur fel eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu trwy gyfeirio at werthoedd gweladwy'r farchnad neu trwy brisiad annibynnol gan aelod o'r alwedigaeth brisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo cyfrwymol yn bodoli ond na dderbyniwyd arian parod neu asedau eraill.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT HRA

Mae Datganiad Incwm a Gwariant HRA yn dangos y gost economaidd yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau tai yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w gyllido o renti a grantiau'r llywodraeth. Bydd awdurdodau'n codi rhenti i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Mae'r cynnydd neu ostyngiad yn y flwyddyn, sef sail codi rhenti, yn cael ei ddangos yn y Symudiad ar y Datganiad HRA.

2010/11 £'000			2011/12 £'000	2011/12 £'000
	Gwariant			
13,036	Gwaith Trwsio a Chynnal	4	13,277	
4,402	Goruchwyliaeth a Rheolaeth		3,753	
761	Gwasanaethau Arbennig		1,828	
86	Rhent, ardrethi, trethi a thaliadau eraill		30	
11,170	Cymhorthdal taladwy'r Cyfrif Refeniw Tai		11,189	
13,264	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	7	10,824	
14	Costau rheoli dyled		9	
168	Cynnydd yn narpariaeth drwgddyledion	3	214	
42,901	**Cyfanswm Gwariant**			**41,124**
	Incwm			
(35,383)	Rhenti Anheddau		(37,438)	
(878)	Rhenti heblaw anheddau		(893)	
(239)	Taliadau am wasanaethau a chyfleusterau		(276)	
(155)	Incwm Arall		(42)	
0	Cyfraniad tuag at wariant	10	(967)	
(36,655)	**Cyfanswm Incwm**			**(39,616)**
6,246	**Cost Glir Gwasanaethau HRA fel sydd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DlaGC)**			**1,508**
151	Cyfran HRA o symiau eraill sydd yng Nghost Glir Gwasanaethau'r awdurdod cyfan ond heb eu clustnodi i wasanaethau penodol	7		10
6,397	**Cost Glir gwasanaethau HRA**			**1,518**
	Cyfran HRA o'r incwm a gwariant gweithredu sydd yn DlaGC			
0	Cynnydd neu (golled) wrth werthu asedau anghyfredol HRA			0
906	Llog taladwy a chostau tebyg	9		987
(23)	Llog ac incwm o fuddsoddiad			(26)
836	Cost llogau pensiwn ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn			627
(7,894)	Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau derbyniadwy			(7,924)
222	**Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau HRA**			**(4,818)**

DATGANIAD SYMUDIAD HRA

2010/11 £'000		2011/12 £'000	£'000
3,409	**Gweddill HRA ar 1 Ebrill**		**5,004**
(222)	Diffyg am y flwyddyn yn Natganiad Incwm a Gwariant HRA	4,818	
2,114	Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido trwy Statud (gwelwch isod)	(4,958)	
1,892	Cynnydd / (Gostyngiad) clir cyn trosglwyddiadau i neu o adnoddau wrth gefn		(140)
(297)	Trosglwyddiadau (i) / o Adnoddau wrth gefn a glustnodwyd		(1,245)
1,595	Cynnydd HRA yn y flwyddyn		(1,385)
5,004	**Gweddill HRA ar 31 Mawrth**		**3,619**
	Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllido trwy Statud:		
	Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn bennaf:		
	Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r DIaGC		
13,222	Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	10,708	
126	Amorteiddiad asedau anniriaethol	126	
(7,894)	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gymhwyswyd	(7,924)	
5	Gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud	5	
720	Symiau asedau anghyfredol a ddiddymwyd trwy waredu neu werthiant fel rhan o'r cynnydd / colled wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	979	
	Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r DIaGC		
(490)	Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf	(454)	
(3,095)	Gwariant Cyfalaf a godwyd ar weddill HRA	(7,345)	
	Addasiadau'n cynnwys Adnoddau wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf yn bennaf:		
(720)	Trosglwyddo derbyniadau gwerthiant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r cynnydd / colled wrth waredu i Ddatganiad Incwm a Gwariant HRA	(979)	
(155)	Incwm cyllid a ddiffiniwyd fel cyfalaf trwy statud	(42)	
	Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:		
(39)	Swm y gwahaniaeth rhwng costau cyllid a godwyd ar Ddatganiad Incwm a Gwariant HRA â chostau cyllid taladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(43)	
	Addasiadau'n ymwneud â'r Pensiynau Wrth Gefn:		
2,224	Gwrthdroi eitemau cysylltiedig â budd-daliadau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant HRA – gwelwch nodyn 9	1,800	
(1,771)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr taladwy yn y flwyddyn	(1,797)	
	Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig:		
(19)	Swm y gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant HRA ar sail croniadau â chydnabyddiaeth daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	8	
2,114		**(4,958)**	

NODIADAU AR Y DATGANIADAU HRA

1. Y Stoc Dai

Roedd cyfanswm stoc dai'r Fwrdeistref Sirol fel a ganlyn:-

Ar 31/03/11		Ar 31/03/12
7,118	Tai	7,107
1,064	Tai Unllawr	1,064
2,518	Fflatiau	2,517
651	Unedau dan Reolaeth Warden	651
11,351		11,339

2. Ôl-ddyledion Rhent

Cyfanswm ôl-ddyledion rhent ar 31 Mawrth 2012 oedd £856k. Y ffigur cyfatebol ar 31 Mawrth 2011 oedd £781k.

3. Darpariaeth ar gyfer Drwgddyledion

Cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion trwy godi £214k ar y Cyfrif incwm a Gwariant yn 2011/12 i roi gweddill o £589k ar ddiwedd y flwyddyn.

4. Y Cyfrif Trwsio Tai

Roedd symudiad ar y Cyfrif Trwsio Tai fel a ganlyn:-

2010/11 £'000		2011/12 £'000
13,098	Gwariant ar waith trwsio a chynnal	13,506
(62)	Llai: Incwm	(229)
13,036	Cost glir gwaith trwsio a chynnal	13,277
13,333	Cyfraniad HRA	13,517
(297)	Diffyg / (Gwarged) am y flwyddyn	(240)
(43)	Gweddill a ddygwyd ymlaen	(340)
(340)	Gweddill i'w ddwyn ymlaen	(580)

5. Datganiad Codi Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm gwariant cyfalaf HRA yn ystod y flwyddyn gyda ffynonellau cyllid.

2010/11		2011/12			
		Anheddau'r Cyngor		Tir ac Adeiladau	Cyfanswm Buddsoddiad
Cyfanswm £'000		PV Solar £'000	Arall £'000	Eraill £'000	Cyfalaf £'000
11,098	Gwariant yn y flwyddyn	10,596	11,145	941	22,682
(109)	Llai croniad cyfalaf	(1,130)	146	37	(947)
10,989		9,466	11,291	978	21,735
	Ariannwyd trwy:-				
7,600	Derbyniadau Cyfalaf	0	7,002	598	7,600
294	Lwfans Atgyweiriadau Mawr	0	324	0	324
3,095	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Eraill	3,000	3,965	380	7,345
0	Gwariant Cyfalaf a godwyd ar Gyllid	6,466	0	0	6,466
10,989		9,466	11,291	978	21,735

6. Datganiad Derbyniadau Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm derbyniadau cyfalaf HRA yn ystod y flwyddyn.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
683	Gwerthu Tai Cyngor	767
37	Gwerthu Tai Cyngor – Gostyngiadau a Ad-dalwyd	12
21	Ad-daliad Morgeisi	25
155	Gwerthu Tir	242
896		1,046

7. Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau anghyfredol

2010/11 £'000		Dibrisiant £'000	Amorteiddiad £'000	Amhariad £'000	Cyfanswm 2011/12 £'000
	Asedau Anghyfredol				
12,089	Anheddau (gan gynnwys PV Solar)	7,622	0	2,228	9,850
858	Tir ac adeiladau eraill	489	0	153	642
317	Cerbydau, Cyfarpar ac Offer	206	126	0	332
84	Asedau dros ben	0	0	10	10
13,348		8,317	126	2,391	10,834

Nid yw'r costau dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad o ran asedau anghyfredol HRA yn wir gost ar gyfer Gweddill HRD. Cânt eu gwyrdroi yn y Symudiad ar Weddill HRA, gyda'r tâl dibrisiant yn cael ei ddisodli gan Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) HRA ar gyfer ymrwymiadau credyd, yn ôl gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010. Caiff MRP ei gyfrifo trwy gyfeirio at ddyledrwydd HRA at ei gilydd.

8. Symiau a Gyfarwyddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ni wnaed unrhyw ddidyniadau yn y cymhorthdal ad-daliadau rhent gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn 2010-11, oherwydd bod rhenti'r Cyngor o fewn terfyn rhenti'r Adran Gwaith a Phensiynau.

9. Trafodion Cysylltiedig â Budd-daliadau Ymddeol

Cymhwyswyd y polisi ar gyfrif am gostau pensiwn i'r HRA (gwelwch dudalene 47).

Caiff costau buddiannau wedi cyflogaeth eu cydnabod yng Nghost Glir Gwasanaethau pan fydd cyflogeion yn eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu maes o law fel pensiynau. Fodd bynnag, seiliwyd y swm i'w godi ar HRA ar gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, fel bod gwir gost buddiannau wedi cyflogaeth yn cael eu gwyrdroi yn Natganiad Symudiad Gweddill HRA.

Gwnaed y trafodion canlynol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad yng Ngweddill HRA yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau Dewisol	
	2010/11 £'000	2011/12 £'000	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost Gwasanaethau:				
Cost gwasanaethau cyfredol	1,322	1,173	0	0
Costau / (enillion) gwasanaethu'r gorffennol	83	0	(17)	0
Colled gwtogi	0	0		0
Cyllido ac Incwm a Gwariant Buddsoddi:				
Cost llogau	2,960	2,727	20	97
Elw disgwyliedig ar asedau yn y cynllun	(2,144)	(2,197)	0	0
Cyfanswm Buddiannau Wedi Cyflogaeth a godwyd ar y Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	2,221	1,703	3	97
Datganiad Symudiad Adnoddau Wrth Gefn				
Gwrthdroad taliadau clir a wnaed i'r Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau wedi cyflogaeth yn unol â'r Cod	(2,221)	(1,703)	(3)	(97)
Y gwir swm a godwyd ar Weddill HRA ar gyfer Pensiynau yn y flwyddyn:				
Cyfraniadau'r cyflogwr taladwy i gynllun Cronfa Bensiynau Clwyd	1,747	1,657		
Budd-dal ymddeol taladwy i bensiynwyr			24	140

10. Cyfraniad tuag at wariant

Mae hyn yn gysylltiedig â Grant Cefnogi Pobl sy'n cael ei ddefnyddio i dalu am y gwasanaethau cefnogi Tenantiaethau (£388k) a'r elfen gymorth gysylltiedig â thai gwarchod (£579k).

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar tudalen 6, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
Ened 4, Evolution
Pentre Busnes Lakeside
Parc Dewi Sant
Ewloe
CH5 3XP

28 Medi 2012

Mae cynhaliaeth a chywirdeb gwefan y Cyngor sy'n gyfrifol am y Cyngor; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly mae'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2012

1 Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â chyfarwyddyd y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth Cyhoeddus (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE), 'Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Dda mewn Llywodraeth Leol'. Mae'n cwmpasu elfennau rheolaeth ariannol fewnol sy'n ofynnol yn ôl y 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig'.

2 Cwmpas Cyfrifoldeb

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith ac i safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu gyda chyfrif priodol amdano, a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac effeithiol. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaol yn sut mae ei swyddogaethau'n cael eu harfer, gyda golwg ar effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor y'n gyfrifol am fod â threfniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, hyrwyddo arfer ei swyddogaethau'n effeithiol gan gynnwys trefniadau er rheoli risg.

2.3 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod rheolaeth gorfforaethol, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol'. Mae Copi o'r cod ar ein gwefan www.wrecsam.gov.uk/welsh/council/documents/code_corporate_governance.htm, neu maent i'w cael oddi wrth y Pennaeth Cyllid. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r cod a hefyd yn ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

3 Diben y Fframwaith Llywodraethu

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y cyfundrefnau a phrosesau, a diwylliant a gwerthoedd, sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau trwy'r hwn mae'n rhoi cyfrif i'r gymuned, yn ymwneud â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi i'r awdurdod gadw golwg ar gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

3.1 Mae cyfundrefn rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu holl risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac ni all felly ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid diamod o effeithiolrwydd. Seiliwyd cyfundrefn rheolaeth fewnol ar broses barhaol a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisi, nodau ac amcanion y Cyngor, i fesur tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynnil.

3.2 Bu'r fframwaith llywodraethu yn weithredol yn y Cyngor am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

4 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Cyngor fel a ganlyn:

4.1 Mae'r **Strategaeth Gymunedol** yn cyflwyno gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB) – partneriaeth o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus allweddol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynnwys y Cyngor – ar gyfer gwella ansawdd bywyd o ran ffyniant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned gyfan. Mae'r holl sefydliadau partner sy'n aelodau o'r LSB yn cytuno arni. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid y Cyngor o ran penderfynu'r blaenoriaethau sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth yn y Strategaeth.

4.2 **Cynllun y Cyngor** yw cynllun trosfwaol y Cyngor sy'n dangos ble bydd yn canolbwyntio ei egni ac adnoddau, sut fydd yn barnu ei berfformiad a beth fydd ei gyfraniad at y Strategaeth Gymunedol. Mae hefyd yn galluogi ymdoddi ymrwymiadau cydraddoldeb a chynaliadwyedd y Cyngor yn ei fusnes arferol. Mae'n ddogfen lefel uchel gyda chefnogaeth **Cynlluniau Gwasanaeth Adrannol** sy'n rhoi manylion y gweithgareddau gwella arfaethedig, cerrig milltir a mesurau perfformiad ar gyfer rheoli perfformiad.

4.3 Mae'r **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** yn cyflwyno agwedd strategol at ateb heriau ariannol y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn gysylltiedig â phrosesau sy'n anelu at gyflawni effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac mae'n cynnwys adolygiadau mewnol ac allanol gan archwilwyr ac arolygwyr a chydweithredu gyda Llywodraeth Cymru mewn ymateb i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae hefyd yn gysylltiedig â rhaglen asesu a luniwyd i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd darparu gwasanaethau yn ogystal ag effeithlonrwydd.

4.4 Mae'r **Polisi Rheoli Risg** yn gofyn cyfranogiad rhagweithiol pawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi gwasanaethau wrth nodi, cloriannu a rheoli peryglon sylweddol i flaenoriaethau, gwasanaethau a phrosiectau mawr y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys asesiad penodol o'r prif beryglon i flaenoriaethau'r Cyngor. Caiff y peryglon a'r rheolaethau angenrheidiol i'w rheoli eu cofnodi yn y gofrestr peryglon corfforaethol, a chaiff unrhyw welliannau gofynnol i reolaethau eu harolygu er mwyn sicrhau eu gweithredu.

4.5 Trwy'r **strwythur rheoli** mae'r Cyngor yn gallu dal i ateb heriau a darparu gwasanaethau'n effeithlon ac effeithiol. Mae'r cyfrifoldebau allweddol o fewn y **Tîm Rheoli Strategol** ar ysgwyddau'r canlynol :

- y Prif Weithredwr, o ran rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol drwy'r holl Gyngor;
- y Cyfarwyddwyr Strategol a Pherfformiad, o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a chydgysylltu gweithgareddau pob adran o gwmpas y blaenoriaethau hyn,
- Penaethiaid Adran, o ran cyflawni gwasanaethau gweithredol y Cyngor**.**

4.6 Mae'r **Cyfansoddiad,** sydd i'w weld ar wefan y Cyngor, yn pennu:

- sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau;
- y gweithdrefnau sy'n sicrhau bod gwneud penderfyniadau'n agored ac atebol i bobl leol a rhanddeiliaid eraill;
- swyddogaethau allweddol holl aelodau ac uwch-swyddogion, gan gynnwys cyfrifoldebau arweiniol at ddibenion llywodraethu corfforaethol yr Arweinydd, y Prif Weithredwr ac uwch-swyddogion penodedig eraill;
- cynllun o bwerau dirprwyedig ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- y cyfrifoldebau dros adolygu a chytuno ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor;
- y trefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd;
- ei godau a phrotocolau cysylltiedig.

4.7 Caiff **pennu polisi a gwneud penderfyniadau** eu hwyluso trwy gyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd heblaw pan fo materion eithriedig neu gydgyfrinachol yn cael eu trafod, a chynllun dirprwyo i bwyllgorau a swyddogion ar sail y Cyfansoddiad: bydd pump o bwyllgorau craffu'n adolygu, yn archwilio ac yn galw perfformiad y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau penderfynu a swyddogion i gyfrif. Wedi'i ymgorffori yn y Cyfansoddiad mae proses "Galw i Mewn" i'w Harchwilio ar gyfer penderfyniadau a wnaed ond na weithredwyd eto er mwyn ystyried eu priodoldeb.

4.8 Cytunwyd ar egwyddorion a phrosesau er mwyn sicrhau bod amcanion, blaenoriaethau a gwerthoedd y Cyngor y'n cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth weithio mewn **partneriaeth** neu'n **gydweithredol.**

4.9 Bydd y Cyngor, ei Fwrdd Gweithredol a'i Bwyllgorau'n ystyried holl adroddiadau ac mae cofnodion y **penderfyniadau a wnaed**, oni bai eu bod yn gydgyfrinachol, ar gael ar wefan y Cyngor.

4.10 Y **Pennaeth Cyllid** sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol, yn ôl gofynion Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a chaiff trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor eu hasesu gyferbyn â gofynion llywodraethu 'Datganiad ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Ariannol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (2010)' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

4.11 Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu, cyfundrefnau ariannol allweddol a Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig cynllunio'r gyllideb, sy'n agored i asesiad peryglon, ac adroddiadau misol ar y gyllideb i'r holl aelodau'n cymharu gwir wariant cyllid a chyfalaf â chyllidebau blynyddol. Mae trefniadau **Rheoli Trysorfa'r** Cyngor yn dilyn arfer proffesiynol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

4.12 Er mwyn sicrhau cyflenwi gwasanaethau a chwblhau prosiectau'n llwyddiannus, caiff cefnogaeth ac arweiniad canolog eu darparu o ran **rheoli prosiectau a chaffael**. Caiff gweithdrefnau ar gyfer tendro a dyfarnu contractau eu cynnwys yn y Rheoliadau Ariannol.

4.13 Mae'r **fframwaith llywodraethu moesegol** yn cynnwys:

- codau ymddygiad ar gyfer swyddogion ac aelodau, sy'n cael eu hadolygu, eu diweddaru a'u profi'n rheolaidd am gydymffurfiad;
- cod ymddygiad cynllunio;
- protocol yn llywodraethu cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion;
- polisi datgelu camymarfer sy'n cael ei gyfathrebu'n eang o fewn y Cyngor ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd;
- cofrestri buddiannau personol a busnes;
- polisi cytûn a gweithdrefnau corfforaethol cysylltiedig ar gyfer sicrhau bod modd gwneud cwynion ynghylch gwasanaethau yn briodol a'u hymchwilio, ac er mwyn sicrhau bod modd cymhwyso unrhyw wersi

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2012

4.14 Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yw'r '**Swyddog Arolygu**' penodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig. Ar ôl ymgynghori priodol, bydd y cyfryw swyddog yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn o ran unrhyw gynigion, penderfyniadau neu ddiffygion a allai fod yn anghyfreithlon neu sydd wedi bod yn destun Ymchwiliad yr Ombwdsmon a arweiniodd at ganfod camweinyddiad.

4.15 Mae trefniadau **gwrth-dwyll a llygredigaeth** sefydledig yn ataliad, yn hyrwyddo datgeliad, yn dangos llwybr clir i ymchwiliad ac yn hybu rhwystro. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau a luniwyd i ymladd gwyngalchu arian, ac adnoddau unswydd pan fo cyfiawnhad. Cytunwyd ar weithdrefnau i ateb gofynion **Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.**

4.16 Y **Pwyllgor Archwilio** sy'n ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yn arolygu gwaith archwilwyr ac arolygwyr ac yn cadw golwg ar y cysylltiadau rhwng archwilwyr a staff a'r ymatebion i argymhellion archwiliadau ac arolygon. Mae ganddo gyfrifoldeb hefyd dros gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'i adroddiadau cysylltiedig (sy'n cynnwys y datganiad hwn).

4.17 Mae **Archwiliad Mewnol** yn gweithredu i safonau'r 'Cod Ymarfer ar Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006' a gynhyrchwyd gan CIPFA, ac mae ei swyddogaeth a'i statws yn cael eu pennu yng Nghylch Gorchwyl Archwiliad Mewnol y Cyngor. Mae'r Rheolwr Archwiliad a Thechnegol yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r archwiliad am bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio, ac mae hefyd yn cyflwyno adroddiad barn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheolaeth y Cyngor at ei gilydd.

4.18 Mae gan y Cyngor berthynas broffesiynol gyda'i **archwilwyr allanol** ac arolygwyr statudol. Mae **Adroddiad Gwella Blynyddol** Swyddfa Archwilio Cymru i'w gael ar wefan y Cyngor.

4.19 Mae'r **Pwyllgor Safonau**, sy'n cynnwys mwyafrif o gynrychiolwyr annibynnol, yn cynghori ac yn cadw golwg ar God Ymddygiad Aelodau, y Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelod a Swyddogion, ac unrhyw Godau eraill perthnasol i ymddygiad Aelodau, a goruchwylio unrhyw ymchwiliadau o doriadau honedig Cod Ymddygiad Aelodau. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau'r Cyngor ar ddatgelu camymarfer, gyda'r polisi ar gyfer hynny yn y Cyfansoddiad ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.20 Mae **trefnau denu staff** y Cyngor yn darparu cydraddoldeb cyfleoedd cyflogaeth. Mae **strwythur cyflogau a aseswyd am gydraddoldeb** yn ateb gofynion Cytundeb Statws Unigol 1997.

4.21 Bwriad y **Strategaeth Adnoddau Dynol** yw creu fframwaith syml o bolisïau integredig, gweithdrefnau a chynlluniau sy'n cefnogi pob un o gyflogeion y Cyngor wrth gyflenwi'r gwasanaethau. Bydd **proses gloriannu cyflogeion** yn adolygu perfformiad unigol ac yn helpu sicrhau bod cyflogeion yn ddigon medrus ar gyfer eu gwaith.

4.22 Mae'r **Cydbwyllgor Ymgynghorol** rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur yn galluogi ymgynghori'n rheolaidd gyda chyflogeion.

4.23 Mae'r Cyngor yn dal Siarter CLlLC ar **Gefnogi a Datblygu Aelodau** ac, felly, mae wedi sefydlu gweithdrefnau i asesu anghenion hyfforddiant Aelodau a sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol, pan fo angen.

4.24 Caiff y **lwfansau sy'n cael eu talu i aelodau** yn unol â darpariaethau statudol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.25 Mae trefniadau cytûn yn gweld bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol ar **amddiffyn plant** a **diogelu oedolion agored i niwed**. Mae trefnau denu staff yn helpu sicrhau bod addasrwydd gweithwyr ac aelodau'r Cyngor sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn cael ei gadarnhau er mwyn gweld eu bod yn addas i wneud hynny.

4.26 Yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, mae gan y Cyngor **Bolisi Iechyd a Diogelwch** a gweithdrefnau cysylltiedig, ac mae wedi llunio cynllun strategol i wella iechyd a diogelwch ymhob rhan o'r Cyngor, gyda'i weithrediad yn cael ei arolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Strategol.

4.27 Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol i warchod gwybodaeth bersonol, mae'r Cyngor yn gweithredu polisi **Gwarchod Data** ac mae ganddo amrywiol bolisïau ar gyfer sicrhau defnyddio gwybodaeth yn briodol a rheoli gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth yn effeithlon ac effeithiol. Mae ganddo weithdrefnau hefyd i gyflawni ei gyfrifoldebau dan **Reoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd** a **Deddf Rhyddid Gwybodaeth** 2000. Er mwyn cydymffurfio â'r ail, mae gwefan y Cyngor yn cynnwys "cyfeiriadur o wybodaeth a gyhoeddwyd".

4.28 Mae gofyn i holl ddefnyddwyr cyfleusterau Technoleg Cyfathrebu Gwybodaeth (TGCh) y Cyngor dderbyn a chydymffurfio â pholisïau a chanllawiau '**Defnydd Derbyniol o Gyfleusterau TGCh'** y Cyngor. Er mwyn sicrhau diogelwch gwybodaeth electronig wrth ei rhannu â sefydliadau partner, mae'r Cyngor yn cydymffurfio â safonau **Cod Cysylltiadau'r Llywodraeth**.

4.29 Cytunodd y Cyngor ar strategaeth ar gyfer **cyfathrebu mewnol**. Mae'r un ar gyfer **cyfathrebu allanol** yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

4.30 Mae'r **Strategaeth Rhoi Sylw i Gwsmeriaid** yn cyflwyno ymrwymiad y Cyngor i gyflenwi gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion ei holl gwsmeriaid o ran mynediad rhwydd, ansawdd gwasanaeth, ymrwymiadau cydraddoldeb y Cyngor, rhwyddineb defnyddio, dysgu trwy broblemau a chyflawni'r hyn sydd o bwys i gwsmeriaid.

4.31 Mae'r Cyngor yn ymroddi'n benodol i wneud **cydraddoldeb** yn wirionedd wrth ddarparu gwasanaethau, yn ei swyddogaeth fel cyflogwr ac fel arweinydd cymunedol allweddol. Mae ganddo drefniadau, gan gynnwys **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ymrwymiadau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau ategol.

4.32 Mae **Cynllun Iaith Gymraeg** yn gweld bod y Cyngor yn gallu cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

4.33 Cytunwyd ar **drefniadau rheoli mewn argyfwng** a chynlluniau i alluogi **parhad gwasanaethau allweddol**.

4.34 Mae'r **Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol** yn galluogi rheoli isadeiledd ac asedau'r Cyngor yn strategol yn unol â'i flaenoriaethau.

5 Adolygu Effeithiolrwydd

5.1 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys cyfundrefn rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad effeithiolrwydd ei ysbrydoli gan waith rheolwyr gweithredol yr awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd lywodraethu, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau'r archwilwyr allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill.

5.2 Mae'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynnal, adolygu a gwella effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu'n cynnwys:

a. adolygiadau blynyddol o'r Cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu moesegol (gan gynnwys maint y cydymffurfiad â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio) gan y Swyddog Arolygu;
b. adolygiadau rheolaidd o'r rheolaethau ariannol gan y Pennaeth Cyllid;
c. rheoli peryglon yn ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r peryglon hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
d. Archwiliad Mewnol, sy'n ystyried risgiau dynodedig trwy archwiliadau rheolaidd o'r prif systemau, sefydliadau, prosiectau mawr a phrif brosesau llywodraethu, gan gynnwys rheoli risg, yn unol â'r cynllun blynyddol archwiliadau mewnol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod Penaethiaid Adrannau'n gweithredu argymhellion a gytunwyd;
e. asesiad blynyddol o Archwiliad Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
f. gwaith Pwyllgorau Archwilio a phwyllgorau eraill y Cyngor, gan gynnwys ei bwyllgorau Archwiliad a Safonau;
g. sylwadau ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ac asiantaethau archwilio ac adolygu eraill;
h. arolygu gwelliant a pherfformiad yn rheolaidd gyferbyn â Chynllun y Cyngor a'i gynlluniau a strategau gwasanaeth ategol gan aelodau ac uwch-swyddogion (diweddarwyd a symleiddiwyd prosesau hysbysu yn yn unol â Chynllun newydd y Cyngor, a bydd yn canolbwyntio ar welliant gyferbyn â chanlyniadau a bennwyd);
i. sicrwydd Penaethiaid Adrannau o ran y rheolaethau mewnol y maent yn gyfrifol amdanynt;
j. cyfarwyddo rheolaidd ar faterion allweddol llywodraethu corfforaethol rhwng y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid;
k. asesiadau o swyddogaethau swyddogion statudol, fel y Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid (fel y Swyddog Arolygu dynodedig) gyferbyn â gofynion rheolaethol ac argymhellion arferion gorau.

5.3 Cawsom ein cynghori ynghylch goblygiadau canlyniad adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun yn bodoli ar gyfer rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaol y gyfundrefn.

5.4 O ran y 'materion rheolaeth sylweddol' hynny sydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2010-11), gwnaed cynnydd fel a ganlyn yn 2011-12:

Mater Rheoli Arwyddocaol ar gyfer 2010-11	Cynnydd yn 2011-12
a. Yr angen i sicrhau bod y Rhaglen Drawsffurfio'n peri'r arbedion sy'n ofynnol ar y Cyngor yn unol â'r amserlen a rhaglen waith a gytunwyd wrth ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ar yr un pryd;	Roedd y gyllideb wedi cael ei phennu erbyn y terfyn amser statudol ar gyfer 2012-13 gan gynnwys newidiadau gwasanaeth, trawsbynciol a'r Rhaglen Drawsffurfio.
b. Parhad yr angen i adolygu a, lle bo angen, gwella, y trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithio fel partneriaid ac ar y cyd ac i gynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau cydymffurfio o ganlyniad;	Diweddarwyd trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithio ar y cyd sydd yn y Rheoliadau Ariannol gyda chefnogaeth cist offer partneriaeth, gan dynnu sylw aelodau perthnasol o'r staff atynt, er bod cydymffurfio'n anghyson. Hefyd, mae'r Cyngor wedi cytuno ar bum egwyddor allweddol ar gydweithio ac mae wedi llofnodi'r Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.
c. Dal i weithredu ac arolygu cynllun gweithredu gwella iechyd a diogelwch yn strategol ymhob rhan o'r Cyngor;	Daliwyd i weithredu cynllun gweithredu gwella Iechyd a Diogelwch ymhob rhan o'r Cyngor, sy'n dal dan arolygaeth agos y Tîm Rheoli Strategol a'r Prif Weithredwr.
d. Ystyried goblygiadau argymhellion archwilwyr ac arolygwyr allanol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac yn dilyn adolygiad cydweithwyr;	Yn dilyn adolygiad o drefniadau penderfynu'r Cyngor a wnaed mewn ymateb i argymhellion archwiliad allanol, cafodd dewisiadau ar gyfer adolygu'r strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau democrataidd, ynghyd â'r sail resymegol i wneud newidiadau o'r fath, gefnogaeth y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. Yn amodol ar ganiatâd terfynol, bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu yn 2012-13.
e. Yr angen i gynnal ac, os bydd angen, gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogeion, aelodau ac eraill perthnasol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor er mwyn dal i gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cod Llywodraethu Corfforaethol;	Mae arweiniadau i gynnal a gwella ymwybyddiaeth o lywodraeth wedi parhau: rhoddwyd hyfforddiant penodol ar faterion allweddol i aelodau a swyddogion, tra rhoddwyd datblygiadau a nodiadau atgoffa eraill ar lywodraeth mewn bwletinau, cyfarwyddiadau ac ar fewnrwyd y staff. Ymhlith materion llywodraethu a gafodd sylw yn ystod y flwyddyn oedd caffael, cydraddoldeb, y Gymraeg, iechyd a diogelwch, a Deddf Llwgrwobrwyo 2010.
f. Yr angen i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu allweddol sy'n berthnasol iddynt ac yn cydymffurfio â hwy.	Er mwyn cynorthwyo rheoli eu cyfrifoldebau llywodraethu'n well, rhoddwyd proses ffurfiol ar gyfer rheoli peryglon a phatrwm polisïau i'n hysgolion, fel Iechyd a Diogelwch a Datgelu Camymarfer. Cynhaliwyd nifer o achlysuron cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer Penaethiaid a Llywodraethwyr, ond amrywiol fu presenoldeb.

6 Materion Rheoli Mewnol Arwyddocaol

Mae'r cynllun y cyfeiriwyd ato uchod yn cynnwys camau gweithredu a luniwyd i roi sylw i'r materion rheoli arwyddocaol canlynol:

6.1 Sicrhau bod swyddogaethau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac Archwiliad yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol fel bod Archwiliad yn gallu canolbwyntio ar faterion blaenoriaethol.

6.2 Yr angen i ddatblygu gwell datblygu corfforaethol trefnyddol a chynllunio'r gweithlu.

6.3 Galluogi'r Cyngor i gyflawni'r ymrwymiadau yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ymhob rhan o'i fusnes.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2012

6.4 Dal i weithredu Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch Strategol y Cyngor a'r angen i sicrhau bod cynllunio gwasanaethau adrannol yn cefnogi hyn yn ddigono

6.5 Yr angen i ysgolion roi cyfrif am eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol yn fwy effeithiol.

6.6 Yr angen i sicrhau bod prosesau rheolaeth gorfforaethol y Cyngor at ei gilydd yn aros yn addas i'r diben, yn enwedig yng ngoleuni dulliau newidiol darparu gwasanaethau, fel partneriaeth a chydweithio, a hefyd mewn ymateb i amgylchedd ariannol anoddach.

Yn ystod y flwyddyn a ddaw, rydym yn bwriadu cymryd camau i roi sylw i'r materion uchod i wella mwy ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn rhoi sylw i'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn cadw golwg ar eu cyflawni a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnod:.....(Arweinydd) ……2012

Llofnod:……..(Prif Weithredwr) ……2012